


# Chwaraeon Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2024-2025

sportwales chwaraeoncymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®


Narberth RFC
Worthingtons
Worthington's

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Neges gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru | 6 |
| Trosolwg Perfformiad | 8 |
| Cyflawni'r Weledigaeth | 10 |
| Ein meysydd gwaith 2024 – 2025 | 14 |
| Paris 2024, Gemau Olympaidd a Pharalympaidd | 16 |
| Ein Bwriadau Strategol fel Ein Nodau Llesiant | 18 |
| #1 Person-ganolog | 19 |
| #2 Sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych | 33 |
| #3 Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon | 46 |
| #4 Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir | 55 |
| #5 Arddangos manteision chwaraeon | 62 |
| #6 Sefydliad o werth mawr | 70 |
| Amcanion Cydraddoldeb | 85 |
| Adrodd ar safonau'r Gymraeg | 89 |
| Amcanion Tlodi Plant | 97 |
| Canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn | 114 |
| Adroddiad Atebolrwydd | 120 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 | 124 |
| Adroddiad tâl a staff | 134 |
| Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 144 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | 156 |

# Cyflwyniad

## Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

## 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

### Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymgorffori'r Adroddiad Perfformiad, gan gynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Chwaraeon Cymru yn Ymddiriedolwr Unigol ar gyfer Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Hanes a chefndir statudol


Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden corfforol, a'u hymarfer, ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Caiff ei gyllido gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau.



Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 Siarter Frenhinol Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn swyddfeydd Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi'i chofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a'r addysg mewn perthynas â hynny;
2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.



## Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW



# Neges gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru

Wrth i mi ddechrau blwyddyn olaf fy nhymor cyntaf fel Cadeirydd Chwaraeon Cymru, rydw i eisiau adlewyrchu ar y flwyddyn anferth mae'r sefydliad, y sector a'r byd chwaraeon cyfan yng Nghymru wedi ei chael.

Ym Mharis, roedd gweld yr un nifer o ferched yn cystadlu â dynion, a'r cyfanswm medalau mwyaf i Gymru yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, yn dangos i mi bod sut rydym yn gweithio'n fwy cynhwysol ar draws y sector chwaraeon yn gweithio. Rydw i'n falch eithriadol o weld gwydnwch a dewrder athletwyr o bob cwr o Gymru yn gwneud enw iddynt hwy eu hunain ar y llwyfan rhyngwladol, a hyd yn oed pan na sicrhawyd medalau, gwelsom sawl cyflawniad am y tro cyntaf. Anna Hursey fel y chwaraewr tennis bwrdd cyntaf o Gymru ac Ella Maclean-Howell fel y beiciwr mynydd cyntaf o Gymru. Efydd Paul Karabardak yn y tennis bwrdd para yn hawlio'r fedal gyntaf o Gymru yn y gamp. A gwelsom gyflawniadau anhygoel hefyd; Elinor Barker bellach yw'r Olympiad sydd wedi ennill y nifer mwyaf o fedalau o Gymru ac Emma Finucane yn ennill tair medal yn y gemau, y fenyw gyntaf o Gymru i wneud hynny ers 1964. Mae'r rhestr yn hirfaith.

A thrwy'r cyfan, rydym yn nodi cefnogaeth y Loteri Genedlaethol i'n hathletwyr ni wrth iddi gyrraedd ei phen-blwydd yn 30 oed.

Mewn blwyddyn mor arwyddocaol i chwaraeon yng Nghymru ar y llwyfan rhyngwladol, roeddem hefyd yn falch o dynnu sylw at y gwahaniaeth mae ei chefnogaeth yn ei wneud mewn cymunedau ledled Cymru. Drwy Gronfa Cymru Actif, dyfarnwyd £4,191,065 i glybiau o Fangor i Aberhonddu ac o Lanberis i Lanrhymni.

Ymwelais â'r Senedd deirgwaith eleni, y tro cyntaf i ddathlu athletwyr Cymru ochr yn ochr â'r Prif Weinidog a'r Llywydd, ac wedyn i dynnu sylw at gyfraniad enfawr chwaraeon at yr agenda iechyd ataliol mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Chwaraeon Cymru i ddathlu cyfraniad y Loteri Genedlaethol at fywyd diwylliannol yng Nghymru. Rydw i'n falch o weld y gydnabyddiaeth a'r ddealltwriaeth o fanteision chwaraeon a diwylliant yn y mannau hyn. I mi, gellid lleddfu cymaint o'r heriau sy'n wynebu ein system iechyd ni yng Nghymru pe baem yn gallu cefnogi mwy o bobl i fod yn actif. Mae'n rhywbeth sydd wedi bod yn hysbys ers amser maith ac wrth i ni symud i gyfnod etholiad yng Nghymru, rydw i'n cael fy nghalonogi o glywed rhanddeiliaid o wahanol sectorau'n ymuno â'i gilydd i siarad am hyn.



Mae'r flwyddyn hon wedi cynnwys heriau yn sicr, ac rydw i eisiau talu teyrnged i'r sector a'r tîm o staff am sicrhau ein bod ni wedi gallu ymdopi â setliad ariannol anodd a sicrhau ein bod wedi dod drwy'r cyfnod hwnnw mewn sefyllfa gryfach. Rydw i hefyd eisiau diolch i'n Gweinidog ni sy'n gadael, Dawn Bowden, wnaeth fy mhenodi i ac fe wnaethom feithrin perthynas hirdymor gyda hi. Arweiniodd y newidiadau yng nghyfrifoldebau'r Llywodraeth eleni at bedwar gweinidog i weithio gyda hwy a sicrhau bod ein hagenda'n cael ei sefydlu'n gadarn. Rydym yn diolch iddynt i gyd am yr amser a roddwyd i ni ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Jack Sargeant, y Gweinidog ar gyfer Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol sydd eisoes wedi dangos yn gadarn ei ymrwymiad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r manteision maent yn eu cynnig.

Wrth gwrs, er mai'r athletwyr hawliodd y sylw ym Mharis, ni ddylid anghofio cyfraniadau UK Sport, a Chymdeithas Olympaidd Prydain (BOA) a ParalympicsGB. Rydw i'n gwasanaethu fel Aelod o Fwrdd UK Sport a gyda thristwch y byddwn yn ffarwelio â'n Cadeirydd, y Fonesig Katherine Grainger, ond gyda chyffro hefyd gan ei bod yn symud i arwain y BOA. Yn yr un modd, hoffwn fynegi fy niolch mawr i'r Athro David Webborn OBE sy'n symud ymlaen o'i rôl fel Cadeirydd Cymdeithas Baralympaidd Prydain ac rydym yn estyn croeso i Dan Brooke i'r rôl.



Ac at ein Bwrdd ni ein hunain. Rydym nawr yn edrych ar rownd newydd o recriwtio lle byddwn yn gobeithio ceisio arbenigedd pedwar Aelod newydd, a hefyd rydym wedi ffarwelio ag aelod hirsefydlog o'n Bwrdd, yr Athro Leigh Robinson, sydd wedi ymgymryd â rôl newydd fel Cadeirydd Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De.

Yn olaf, rwy'n falch iawn o fod wedi llofnodi Datganiad Brighton a Helsinki yn ddiweddar ochr yn ochr â'n Prif Weithredwr, Brian Davies OBE. Mae ein hymrwymiad ffurfiol ni i hyrwyddo hawliau a chyfleoedd i ferched a genethod yn y byd chwaraeon yng Nghymru yn rhywbeth rwy'n falch iawn ohono.

# Trosolwg Perfformiad

## Neges gan Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn hon, gallaf ddweud yn onest ei bod wedi bod yn un wirioneddol heriol ond eto'n un galonogol a llawn boddhad. O'r angen i addasu a gweithio'n wahanol oherwydd cyllideb gyfyngedig iawn gan Lywodraeth Cymru, i Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ysbrydoledig ac eiconig ym Mharis, bydd 2024/25 yn sicr yn flwyddyn arall i'w chofio.



Roedd maint y toriad a wynebwyd gennym ni a'r sector yn sylweddol, ond roeddwn i'n teimlo'n eithriadol falch o sut ymatebodd ein staff a'n partneriaid ni, ac, unwaith eto, arweiniodd yr adfyd hwnnw at ganolbwyntio ar gydweithredu a gweithio ar y cyd. Mae'n bleser nodi bod y sefyllfa gyllidebol wedi'i gwyrdroi bellach gan roi sylfaen fwy sefydlog o ran cyllid ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ond rhaid i ni sicrhau ein bod yn herio unrhyw rwystrau ariannol heriol yn y dyfodol gan na ellir eu hailgyflwyno heb y tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol sylweddol.

Fel asiantaeth sy'n dosbarthu'r rhan fwyaf o'n hadnoddau sydd ar gael, roeddem eisiau sicrhau bod effaith ein gostyngiad cyllidebol oedd yn cael ei drosglwyddo gennym ni i'n partneriaid a phobl Cymru wedi'i leihau cymaint â phosibl.

Fodd bynnag, roedd y canlyniadau'n parhau i fod yn her a ysgwydodd ein sector, ac nid oedd yr ymateb angenrheidiol yn wahanol iawn i'r hyn oedd ei angen yn ystod y pandemig - bu parodrwydd i wneud pethau'n wahanol ond, y tro hwn, dyhead cynyddol i edrych ar fodelau newydd parhaol ac atebion arloesol. Mae angen adeiladu ar hyn wrth symud ymlaen.

Rydw i bob amser yn ddiolchgar am gefnogaeth y sector, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelsom fwy a mwy o enghreifftiau o'r math o berthnasoedd gwaith rydym eisiau eu hannog; agored, aeddfed, llawn trafod, cydweithredol. Weithiau mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd, ond rydym eisiau gwneud hynny yn dryloyw yn y ffordd orau bosibl.

Mae fy niolchgarwch i hefyd yn ymestyn i'r Llywodraeth a'r Senedd am yr amser maent wedi'i roi i adolygu a deall y problemau a wynebir yn y sector. Cyfunwyd y craffu blynyddol ar Chwaraeon Cymru yn y Pwyllgor Diwylliant ym mis Hydref â'u hymchwiliad i ostyngiadau cyllido ac fe wnaeth hyn ein galluogi ni i fod yn glir iawn am y ffordd strwythuredig ac arloesol y gwnaethom reoli'r her ariannol ond

hefyd, ynghyd â Phartneriaid, dangos tystiolaeth o'r ffordd roedd y toriadau hyn yn cael effaith. Wrth gwrs, er nad oedd yr arian ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn disodli'r toriad cyllideb cyfan, fe helpodd hefyd i liniaru rhywfaint o'r pwysau.

Er gwaethaf yr uchod, rwy'n falch ein bod wedi parhau i gyflawni ein blaenoriaethau, a gydag agwedd 'busnes fel arfer'. Ym mis Hydref, daethom â digwyddiad i'r Senedd yn edrych ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'u gallu fel adnodd iechyd ataliol. Gwelsom ymgysylltu gwych o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol ac o fewn ein sector ein hunain, yn ogystal â chan bartneriaid iechyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan edrych ymlaen, byddwn eisiau adeiladu ar hyn wrth i ni edrych ymlaen at etholiadau'r Senedd yn 2026. Rydym yn gwybod y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol wneud cymaint mwy er lles pobl Cymru ac rydym eisiau chwarae ein rhan.

Ac at y sioe aml-chwaraeon fwyaf ar y ddaear: roedd Paris 2024 wir yn ysbrydoliaeth ac am ymateb a gafwyd gan ein hathletwyr a'n hyfforddwyr ni i'r cyfle a gyflwynwyd iddynt. Y nifer mwyaf erioed o athletwyr o Gymru mewn Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ynghyd â llwyddiant hanesyddol. Gemau cyfartal o ran cynrychiolaeth rhywedd, a Chymru gyfan mor falch o weld Emma Finucane yn mynd â thair medal adref fel y fenyw gyntaf o Brydain i wneud hynny ers Mary Rand yng Ngemau Olympaidd Tokyo yn 1964.

Ac yn ddiweddar iawn, mae'r Olympiad rhyfeddol Jerimiah Azu, a oedd yn anghymwys yn y rhagbrofion 100m ond a fownsiodd yn ôl ac wedyn ennill medal ras gyfnewid, wedi dod yn dorrwr record Brydeinig ac yn Bencampwr Byd bellach - mae ei wydnwch meddyliol yn enghraifft o bwysigrwydd meithrin athletwyr perfformiad uchel cadarn a chyfannol.

Yn y Gemau Paralympaidd gwelwyd mwy fyth o athletwyr o'r safon uchaf yn dangos i ni beth yn union sy'n bosibl pan fydd paratoi, ymroddiad ac ymdrech yn cyfuno'n llwyddiannus. O fedal Jodie Grinham a hithau'n feichiog i dafliad cyntaf Sabrina Fortune yn ei chystadleuaeth a dorrodd record byd a Matt Bush fel y dyn cyntaf i ennill medal aur para-taekwondo i ParalympicsGB ac yn cael cludo'r faner yn y seremoni gloi. Dylai ein holl athletwyr ParaGB fod yn hynod falch o'u siwrnai a'u cyflawniadau.

Ac yn olaf, fe wnaethom ddathlu 30 mlynedd o'r Loteri Genedlaethol yn y DU. Heb yr adnoddau a ddarperir gan y Loteri Genedlaethol, ni fyddai llawer o'n hathletwyr yn gallu neilltuo amser i'w hyfforddiant na theithio i gystadlaethau rhyngwladol fel y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Roeddem yn falch o ddathlu'r garreg filltir ymhlith aelodau o staff, gyda'n partneriaid ac yn fwyaf diweddar, gydag Aelodau'r Senedd mewn cydweithrediad gwych â dosbarthwyr eraill arian y Loteri yng Nghymru.

I gloi, wrth ddathlu'r uchod, beth am i ni hefyd wthio am lawer mwy o ddegawdau o lwyddiant yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol wrth i ni fynd ati i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon.

# Cyflawni'r Weledigaeth

## Trosolwg

### Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Cenedl Actif

Pawb

Gydol Oes

Mwynhad

### Ein Strategaeth

#1
Bod Yn Berson-Ganolog

#2
Rhoi Dechrau Gwych I Bob Person Ifanc

#3
Sicrhau Bod Pawb Yn Cael Y Cyfle I Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon

#4
Dod Â Phobl At Ei Gilydd Ar Gyfer Y Tymor Hir

#5
Arddangos Manteision Chwaraeon

#6
Bod Yn Sefydliad O Werth Mawr

### 5 Ffordd o Weithio



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Cydweithredu



Ymwneud

### Adrodd Blynyddol Integredig

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymraeg

Yr Iaith Gymraeg

Cydraddoldeb

Bioamrywiaeth

Economaidd-gymdeithasol

# Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

## 'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith **cydweithredol** y sector chwaraeon a **chyfranogiad** rhanddeiliaid ehangach. Nid dim ond Gweledigaeth i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yw hon, ond yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.




### Cenedl Actif

Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.



### Pawb

Mae'r Weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn gweld eu hunain yn fedrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau.



### Gydol Oes

Mae'r Weledigaeth am oes; mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.



### Mwynhad

Mae'r Weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.



# Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

Ffurfiwyd ein strategaeth i chwarae ein rhan wrth gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae ein strategaeth yn cael ei ffurfio gan chwe datganiad bwriad strategol. Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein Nodau Llesiant, ac rydym yn eu defnyddio i fframio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG) (Deddf) Cymru 2015.

**#1**
**Bod yn berson-ganolog**

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

**#2**
**Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc**

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

**#3**
**Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon**

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

**#4**
**Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir**

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

**#5**
**Arddangos manteision chwaraeon**

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

**#6**
**Bod yn sefydliad o werth mawr**

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

# 5 Ffordd o weithio

Yn Chwaraeon Cymru, rydym wedi ymgorffori'r 5 Ffordd o Weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn sail i'r Weledigaeth. Fe welwch y rhain mewn print trwm drwy gydol y ddogfen, gan ddangos sut mae'r ffyrdd o weithio yn effeithio ar ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



**Tymor Hir** – Mae'r Weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, gan ddatblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.



**Atal** – Mae'r Weledigaeth yn ymwneud â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau i atal problemau rhag codi, neu rhag gwaethygu.



**Integreiddio** – Mae'r Weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae wedi'i llunio ar sail effaith gydweithredol yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.



**Cydweithredu** – Mae'r Weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.



**Ymwneud** – Lluniwyd y Weledigaeth yn dilyn sgyrsiau ag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hybu ymwneud wrth lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.


# Adrodd Blynyddol Integredig

Rydym yn parhau i adrodd ar ein Dyletswyddau Cyhoeddus drwy gydol yr un adroddiad hwn, gan roi golwg gyfannol ar ein gwaith. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch yr eiconau hyn isod sy'n ymwneud â'n dyletswyddau unigol.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Yr Iaith Gymraeg** (Cymraeg) | **Cydraddoldeb** | **Bioamrywiaeth** | **Economaidd-gymdeithasol**

# Ein meysydd gwaith 2024 – 2025

Drwy lens y Weledigaeth, ein Strategaeth a'n ffyrdd o weithio, rydym yn pennu'r blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod, wedi'u cytuno gan ein Bwrdd a'n Llywodraeth. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch bob maes gwaith wedi'u dynodi gan yr eiconau isod.




**Cynaliadwyedd Amgylcheddol**

- Cynaliadwyedd mewn caffael
- Grantiau Arbed Ynni
- Mynd ar ôl cyfleoedd cydweithredu
- Llwybr bwyd i leihau gwastraff

**Diwylliant Sefydliadol Cynhwysol**

- Archwiliad Perthyn
- Symud at Gynhwysiant - diagnostig
- Hyfforddiant
- Dull o ymgysylltu â staff
- Strategaeth / fframwaith gweithio hybrid

**Cefnogi Cymru Iachach**

- Cynllunio trosglwyddo ymyriadau iechyd i Bartneriaethau Chwaraeon
- Achos cadarn dros chwaraeon fel adnodd ataliol
- Treialu dull newydd o ymdrin ag iechyd meddwl a lles
- Iechyd a lles merched

**Pobl Ifanc – Profiad Cadarnhaol o Chwaraeon**

- Actif Dyddiol
- Partneriaethau – cyd-fynd ag egwyddorion system chwaraeon gynhwysol
- Fframwaith Sylfaen a Chreu Sylfeini ar gyfer hyfforddiant Chwaraeon
- Datblygu Hyfforddwyr
- Rhaglenni Llwybr a Pherfformiad

**Buddsoddiadau**

- Fframwaith Gallu Diwygiedig
- Adolygu effaith y model buddsoddi wrth gefnogi'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.
- Datblygu'r Dull Atebolrwydd ymhellach
- Lansio system grantiau newydd
- Cyllid partneriaid effeithlon ac effeithiol

**Dull person-ganolog o weithredu**

- Gallu mapio dirnadaeth (Chwaraeon Cymru a'r sector)
- Cymuned o Ddysgu / Rhannu arfer gorau
- Adolygiad thematig
- Cefnogaeth arweinyddiaeth i'r sector

**Partneriaethau Chwaraeon**

- Sefydlu'r partneriaethau sy'n weddill
- Rheoli'r broses o sefydlu
- Cwblhau adolygiadau llywodraethu
- Cefnogi datblygiad ac amrywiaeth Byrddau'r Partneriaethau Chwaraeon



# Paris 2024, Gemau Olympaidd a Pharalympaidd

Atgyfnerthodd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Paris 2024 ddylanwad cynyddol Cymru ar lwyfan y byd, gyda chyfranogiad a dorrodd record a pherfformiadau rhagorol ar draws nifer o chwaraeon.

Cynrychiolwyd Cymru gan nifer mwy nag erioed o Olympiaid, yn cystadlu ar draws ystod amrywiol o chwaraeon. O'r cylch bocsio i'r felodrom, chwaraeodd athletwyr Cymru ran allweddol yn llwyddiant medalau Tîm Prydain Fawr, gan gyflawni perfformiadau rhagorol ac ychwanegu at waddol Olympaidd balch Cymru.

Yn y Gemau Paralympaidd roedd carfan eithriadol yn cynrychioli Cymru, gyda'r athletwyr yn cystadlu ar draws nifer o ddisgyblaethau ac yn sicrhau casgliad cryf o fedalau. Gyda pherfformiadau nodedig mewn para-athletau, beicio a nofio, dangosodd Paralympiaid Cymru unwaith eto eu gallu o safon byd, gan gyfrannu'n sylweddol at lwyddiant ParalympicsGB.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at y Gemau, **cydweithredodd** Athrofa Chwaraeon Cymru (AChC) yn agos â Chyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC), hyfforddwyr ac athletwyr i **arloesi** a mireinio strategaethau hyfforddi, adfer a chystadlu. Addasodd y tîm cefnogi i heriau unigryw Gemau Paris, gan gynnwys gwres a gofynion logistaidd y ddinas, gan sicrhau bod athletwyr Cymru'n paratoi yn y ffordd orau bosibl.

Y tu hwnt i'r paratoi, roedd aelodau tîm AChC yn rhan o ddirprwyaethau Tîm Prydain Fawr a ParalympicsGB, gan ddarparu cefnogaeth hanfodol ar y tir. O reoli protocolau adfer i ddarparu gwybodaeth perfformiad amser real, sicrhaodd eu presenoldeb bod gan athletwyr Cymru bopeth oedd arnynt ei angen i berfformio ar eu gorau pan oedd hynny bwysicaf.

Wrth i ni adlewyrchu ar Baris 2024 ac edrych ymlaen at Los Angeles 2028, mae AChC yn parhau i fod wedi ymrwymo i esblygu ein dull o weithredu, gan barhau i wthio ffiniau mewn datblygu athletwyr yn seiliedig ar wyddoniaeth, a sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn rym allweddol fel rhan o Dîm Prydain Fawr a ParalympicsGB yn y **tymor hir.**


EMPACHER


LOTUS


GREAT BRITAIN
GREAT BRITAIN
GREAT BRITAIN


2
5



# Ein Bwriadau Strategol fel Ein Nodau Llesiant

Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd proses ystyriol o adolygu'r Weledigaeth a Strategaeth Chwaraeon Cymru. Gwnaed rhai newidiadau i'r iaith a ddefnyddir ac i ddiweddaru rhai o'r ystadegau a'r wybodaeth y cyfeiriwyd atynt. Roedd barn glir bod y chwe nod llesiant a'r datganiadau o fwriad strategol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn sbarduno gwaith Chwaraeon Cymru.

Felly, mae Chwaraeon Cymru yn cadarnhau bod y nodau llesiant yn parhau heb eu newid.

Yn ystod diwedd 2023-24 ac i mewn i'r flwyddyn ariannol hon, datblygwyd dyheadau polisi i fanylu ymhellach ar y canlyniadau yr hoffem eu gweld pe baem yn llwyddiannus wrth gyflawni ein bwriadau strategol.

I wirio'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ein nodau llesiant a chydraddoldeb, cynhaliwyd cylch adolygu gennym ym mis Mawrth / Ebrill 2025. Cadarnhaodd y cylch adolygu yn gryf hefyd bod y nodau llesiant yn parhau i fod yn briodol.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol wedi'i strwythuro o amgylch y cynnydd rydym wedi'i wneud gyda chyflawni ein nodau llesiant ac mae'n darparu cofnod cynhwysfawr o'r cynnydd rydym wedi'i wneud. Mae ein hadolygiad hefyd wedi canolbwyntio ar ble gallwn symud ymlaen ymhellach gyda dadansoddiad cysylltiedig yn amlinellu rhywfaint o'r dysgu a'r heriau rydym wedi'u nodi. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad ar ddiwedd pob adran.



# #1 Person-ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

**Astudiaeth Achos:**

## Active Wheels: Beicio Cynhwysol ym Merthyr Tudful

Ar ôl dioddef gwaedlif ar yr ymennydd ac yntau ond yn naw oed, daeth Tomas Evans o hyd i ryddid drwy feicio. Yn 2018, trodd yr angerdd hwnnw yn Active Wheels – clwb beicio cynhwysol ym Merthyr Tudful.

Gyda chefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol drwy Gronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru, mae'r clwb wedi derbyn £16,842 ar ffurf dau grant. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi prynu e-feiciau, beiciau rheolaidd, cynhwysydd storio ac offer diogelwch gan gynnwys helmedau, goleuadau, cloeon a festiau llachar.

"Mae Active Wheels yn darparu ar gyfer beicwyr sy'n teimlo bod clybiau prif ffrwd yn ormod braidd iddyn nhw ymuno â nhw. Mae ffocws mawr ar yr elfen gymdeithasol, ac rydyn ni bob amser yn trefnu stop mewn caffi ar hyd y llwybrau! Mae ein holl deithiau ni'n cael eu dewis ar sail gallu'r grŵp, ac rydyn ni'n beicio gyda'n gilydd – gwneud i bobl deimlo'n hyderus ac yn gyfforddus yw'r nod", eglurodd Tomas.

Yn cael ei arwain yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, mae'r clwb yn cynnal sesiynau cynhwysol bob penwythnos gan gynnwys teithiau byr ar ddyddiau Sadwrn, teithiau hirach i lecynnau gyda golygfeydd braf ar ddyddiau Sul a sesiynau trac un i un yn Ysgol Uwchradd Aber Taf. Mae holl deithiau a sesiynau'r clwb wedi cael eu teilwra i wahanol alluoedd, a hwyl yw'r flaenoriaeth bob amser.

Ychwanegodd Cadeirydd y Clwb, Phil Lewis, sydd wedi helpu i siapio'r clwb ers ymuno dair blynedd yn ôl: "Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am y cyllid rydyn ni wedi'i dderbyn gan Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol, yn ogystal â'r gefnogaeth rydyn ni wedi'i chael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ers i ni ddechrau.

"Rydyn ni'n angerddol am greu cyfleoedd i bawb fwynhau beicio. Mae croeso i bawb yn ein clwb ni. Mae tua 10% o'n beicwyr ni'n bobl ag anabledd neu sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl.

"Gall y beicwyr ddewis dod â'u beiciau eu hunain, neu, diolch i gyllid y Loteri, mae ganddyn nhw'r opsiwn o fenthyca ein beiciau ni yn ogystal ag offer diogelwch."

# Merched yn Llwyddo mewn Chwaraeon

Rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y merched sy'n cael profiad cadarnhaol o arweinyddiaeth mewn chwaraeon eleni. Cynhaliwyd naw labordy dysgu ar-lein **arloesol**, wedi'u hanelu'n benodol at ferched i gefnogi cynnydd i lefelau bwrdd, Prif Swyddog Gweithredol, ac uwch reolwyr gyda sefydliadau partner lleol a chenedlaethol, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhywedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer y **tymor hir.**

Mae gwybodaeth yn dynodi bod merched yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn swyddi arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar draws pob sefydliad chwaraeon a sefydliadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon.

### Y Bwlch Rhywedd

**Data 2018:** Dim ond 28% o aelodaeth y Cyrff Rheoli Cenedlaethol yng Nghymru oedd merched.

**2024:** mae gweithredu polisïau cydraddoldeb rhywedd ac amrywiol fentrau wedi cynyddu aelodaeth benywaidd ar fyrddau i **38%.**

Mewn sefydliadau chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd, dim ond **22%** o swyddi bwrdd neu bwyllgor sy'n cael eu dal gan ferched.

Er bod y cynnydd hwn yn ymddangos yn addawol, mae nifer o adroddiadau'n awgrymu bod merched ar fyrddau'n dal i wynebu profiadau negyddol yn aml. Ac yn anffodus, mae'r bwlch rhwng y rhywiau'n dod yn amlycach o'i ystyried yn fyd-eang.

**9**
**labordy dysgu**

**243**
**o gofrestriadau**

**3 phwnc penodol:** y Ffenomen Twyllwr, Arwain yr Hunan, a Sefydliadau Di-ofn (yn canolbwyntio ar ddiogelwch seicolegol).

**152**
**o ferched yn bresennol**, yn rhychwantu ehangder y sector, o reolaeth lefel mynediad i uwch arweinyddiaeth.

Roedd rhywfaint o'r adborth gan y rhai a fynychodd yn cynnwys y datganiadau canlynol:

"Y gallu i siarad â merched eraill yn y sector gan drafod materion sydd ddim jyst yn rhan o fy mhrofiad i. Mae'r teimlad nad ydych chi ar eich pen eich hun gyda rhai o'r teimladau a'r ansicrwydd yma'n bwerus iawn."

"Amser penodol i ganolbwyntio ar fy rôl fy hun a fy agweddau ataf i fy hun ac arweinyddiaeth."

"Y cyfle i rwydweithio â merched eraill yn y sector, nodi profiadau a rennir a chefnogi ein gilydd i ddod o hyd i atebion"

Wrth werthuso'r rhaglen, mae dwy ystyriaeth ar gyfer y dyfodol wedi'u hamlygu: cefnogaeth gan wrywod i feithrin amgylchedd cefnogol; ac er bod y fformat ar-lein wedi cynyddu'r cyfle i bawb ledled Cymru, mae rhwydweithio wyneb yn wyneb yn cael ei werthfawrogi.

# HI'N Ffynnu

Mae ymchwil o Draciwr Gweithgarwch Cymru (2024) yn tynnu sylw at y ffaith bod bron i un o bob dau sy'n profi cylch y mislif neu symptomau cysylltiedig yn teimlo bod hyn yn effeithio'n negyddol arnynt wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Lansiwyd 'HI'N Ffynnu: Cyflymu Gweithredu ar gyfer Merched mewn Chwaraeon' gennym i ddod ag athletwyr, hyfforddwyr ac ymarferyddion at ei gilydd i rymuso athletwyr benywaidd ac ymhlith y rhai sy'n eu cefnogi, gan sbarduno **arloesedd** mewn cefnogaeth i athletwyr benywaidd a meithrin **cydweithrediad** ar gyfer y **tymor hir.**

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, y diwrnod cyn Diwrnod Rhyngwladol y Merched, a mynychwyd ef gan 92 o gyfranogwyr. Canolbwyntiodd y sesiynau ar drafodaethau agored, gweithdai ymar ferol, a sesiynau dan arweiniad arbenigwyr ar iechyd merched mewn chwaraeon. Drwy weithio gydag ymchwilwyr ac arbenigwyr blaenllaw, darparwyd strategaethau seiliedig ar dystiolaeth gennym i helpu athletwyr i reoli rhwystrau a pharhau i ymgysylltu â gweithgarwch corfforol.

Dyfyniad o'r diwrnod

"[roedd yn llawn] sesiynau addysgiadol iawn, amrywiaeth o sesiynau, detholiadau gwych o siaradwyr / ymarferyddion... [Rydw i'n mynd i gael] mwy o ryngweithio â fy athletwyr ynghylch eu cylch - yn hytrach na'i adael iddyn nhw ei reoli."







# Gwella Delwedd y Corff mewn pêl-droed merched a genethod a Strategaethau Tanwydd ar gyfer iechyd a pherfformiad tymor hir

Mae maeth perfformiad yn allweddol i lwyddiant athletaidd, gan gefnogi datblygiad, lleihau risgiau o anafiadau, a sicrhau'r perfformiadau gorau posibl. Fodd bynnag, gall gofynion egni uchel arwain at ddiffyg tanwydd, yn enwedig mewn athletwyr yn eu harddegau, sy'n effeithio ar dwf, datblygiad ac iechyd.

Ar ddechrau tymor 2023/24, lansiodd Academi Merched CBDC brosiect gyda Chwaraeon Cymru. Mae ymchwil yn dangos bod pêl-droedwyr benywaidd yn wynebu perygl arbennig o ddiffyg tanwydd, gyda rhwystrau fel gwybodaeth gyfyngedig am faeth, cyfyngiadau amser, pryderon am ddelwedd y corff, a blaenoriaethau esthetig a nodwyd drwy adborth gan grŵp datblygu CBDC.

Roedd dau gam yn rhan o'r fenter:

- **Cam 1: Meithrin Perthnasoedd Cadarnhaol gyda Maeth**
  Canolbwyntio ar hyrwyddo perthynas iach gyda bwyd, mynd i'r afael â materion delwedd y corff, a meithrin ymddiriedaeth drwy sesiynau a gweithdai anffurfiol. Archwiliodd y rhain ddelwedd y corff, mythau maeth, a chamsyniadau am grwpiau bwyd fel carbohydradau.
- **Cam 2: Addysg Maeth ar gyfer Tanwydd ac Adferiad**
  Canolbwyntio ar ddysgu strategaethau tanwydd ymarferol i chwaraewyr ar gyfer hyfforddiant ac adferiad, gan roi sylw i anghenion egni, macrofaetholion, cynllunio prydau bwyd, a labeli bwyd.

Bydd y prosiect yn parhau tan ddiwedd y tymor, gydag adolygiad i asesu ei effaith a gwelliannau yn y dyfodol, gan gynnwys cyfranogiad rhieni a monitro twf ar gyfer cefnogaeth yn y **tymor hir.**




# Cefnogi Urddas y Mislif mewn Chwaraeon drwy'r Cynllun Gweithredu Balch o'r Mislif

Mae cyflawni urddas y mislif yn ganolog i nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd. Mae deall y mislif yn mynd y tu hwnt i fislifo, gan gydnabod yr effeithiau corfforol a seicolegol drwy gydol y cylch cyfan. Fel rhan o Gynllun Gweithredu Balch o'r Mislif, mae Chwaraeon Cymru wedi'i grybwyll yng ngham gweithredu 10:

"Asesu effaith y mislif ar gyfranogiad mewn chwaraeon ac ymarfer corff a dod o hyd i ffyrdd o wella a chynnal cyfranogiad i'r rhai sy'n mislifo."

Nod y fenter hon yw normaleiddio sgyrsiau am y mislif a gwella cyfranogiad mewn chwaraeon. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd dau ddigwyddiad bwrdd crwn deuddydd, gan **gydweithredu** â phartneriaid o bob cwr o Gymru. Canolbwyntiodd y cyntaf ar rwystrau ac **integreiddio** strategaethau llwyddiannus ar gyfer gwella urddas y mislif mewn chwaraeon, gyda'r ail yn mynd i'r afael â sut i greu amgylcheddau cyfforddus a gwella addysg am gylch y mislif.




Mae'r camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys:

1. gwrando ar brofiadau pobl ifanc,
2. gwella addysg, mapio cynulleidfaoedd targed, a chanoli adnoddau ar gyfer partneriaid, a
3. rhannu astudiaethau achos o fentrau urddas y mislif llwyddiannus i feithrin cymuned ddysgu.

Cynhyrchwyd y raffeg gwybodaeth ganlynol o'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y gyfres gyntaf o ddigwyddiadau bwrdd crwn.

## Balch o'r Mislif: **Themâu**




## Balch o'r Mislif: **Un Peth**

### Addysg / Adnoddau

- Cyrsiau ymwybyddiaeth i hyfforddwyr
- Addysg a chynhyrchion cysylltiedig
- Cydweithio traws rhwng chwaraeon
- Canolbwynt adnoddau canolog
- Hyfforddiant pwrpasol ar gyfer chwaraeon

### Argaeledd cynnyrch

- Cynhyrchion i fod ar gael lle bo'n briodol

### Cymorth allanol

- Wythnos marchnata wedi'i thargedu

### Data

- Gwahaniaethau rhwng lefel elitaidd a lefel gymunedol

Astudiaeth Achos:

# Academi Dartiau Dragon Chasers: Taro'r nod gyda phobl ifanc


Ym mhentref bach Cwmcarn ger Caerffili, mae Academi Dartiau Dragon Chasers yn ffynnu — wedi'i hysbrydoli'n rhannol gan y seren dartiau Luke Littler. Diolch i gefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol a Chwaraeon Cymru, mae'r academi'n helpu pobl ifanc i feithrin hyder, gwella sgiliau rhifedd a magu ymdeimlad o berthyn.

Wedi'i sefydlu yn 2024 gan grŵp o dadau lleol a hyfforddwyr rygbi iau, crëwyd yr academi i gynnig camp gynhwysol y gallai pawb ei mwynhau. Wrth i'r diddordeb dyfu, felly hefyd yr angen am fwy o offer. Helpodd grant o £1,000 gyda chostau fel byrddau dartiau, y darnau o'u hamgylch, goleuadau a matiau — gan alluogi'r clwb i ddyblu o ran maint.

Wedi'i leoli yng Nghlwb y Gweithwyr Cwmcarn, mae'r academi'n cynnig lle diogel, heb alcohol lle gall plant, gan gynnwys y rhai sy'n niwroamrywiol neu sy'n cael anhawster gyda chwaraeon tîm traddodiadol, gysylltu a ffynnu.

"Mae gan rai o'r plant anghenion dysgu a chymdeithasol ac maen nhw'n ei chael yn anodd canolbwyntio yn yr ysgol. Mae chwaraeon tîm yn ormod iddyn nhw ond mae dartiau'n addas iawn iddyn nhw. Dydi eu rhieni ddim yn gallu credu bod eu plant yn teimlo eu bod nhw'n rhan o rywbeth a'u bod nhw'n perthyn", meddai'r cyd-sylfaenydd **Nathan Dark**.

Ochr yn ochr â meithrin hyder a chyfeillgarwch, mae sgiliau mathemateg y chwaraewyr wedi gwella cymaint fel bod yr awdurdod lleol bellach yn bartner i'r academi i gefnogi dysgu.



# Cynllun hamdden actif 60 +

Mae strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach (PICI) y Llywodraeth a'r Cynllun Hamdden Actif (CHA) 60+ wedi'u cysylltu'n agos drwy eu hamcanion cyffredin o wella iechyd y cyhoedd a rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd ac felly **atal**. Lansiwyd 60+ yn 2021 ac mae bellach yn un o'r mentrau allweddol o dan gynllun cyflawni PICI, gan dargedu oedolion hŷn yn benodol, demograffig sy'n wynebu mwy o berygl yn aml o gymhlethdodau iechyd oherwydd anweithgarwch a gordewdra. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal drwy weithgareddau grŵp mewn canolfannau hamdden a gofod cymunedol.

Gwneir ymdrechion hefyd i dargedu grwpiau fel pobl o leiafrifoedd ethnig a chymunedau incwm isel sy'n cael eu tanwasanaethu yn draddodiadol gan ymyriadau ac sydd mewn mwy o berygl yn aml o ganlyniadau iechyd gwaeth, gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at opsiynau ffordd o fyw iach.

Mae'r Cynllun Hamdden Actif (CHA) 60+ yn chwarae rhan hanfodol hefyd wrth ategu'r Cynllun Cyfeirio at Ymarfer Cenedlaethol (NERS) drwy ddarparu llwybr **tymor hir**, parhaus i oedolion hŷn gynnal ac ehangu eu lefelau gweithgarwch corfforol ar ôl cwblhau NERS. Mae'r dull **cydweithredol** hwn wedi arwain at estyniadau **arloesol** i'r cynllun, gyda llawer o bartneriaid yn addasu'r model i gynnwys rhaglenni cyn-adsefydlu (prehab) a gofal ôl-lawfeddygol, gan ehangu cwmpas y gefnogaeth i oedolion hŷn ymhellach.

'Mae sesiynau ymarfer corff sy'n cael eu cyflwyno yn y gymuned yn hanfodol i'n cleientiaid ni gynnal y manteision ffitrwydd maen nhw wedi'u sicrhau dros gyfnod eu 16 i 48 wythnos gyda ni, fel pwysedd gwaed is, llai o boen arthritig, mwy o hyder wrth gerdded a symud o gwmpas a chynnal calon iach, gref ar ôl llawdriniaeth. Mae'r dosbarthiadau yma hefyd yn hanfodol wrth helpu i gynnal annibyniaeth cleientiaid drwy eu cadw nhw'n heini ac yn actif, gan leihau'r angen am apwyntiadau meddyg teulu a meddyginiaethau i reoli symptomau neu gyflyrau. Yn olaf, byddent yn cynnig cyfle y mae ei wir angen i wneud ffrindiau newydd neu dreulio amser gyda hen rai mewn amgylchedd naturiol hwyliog ac actif.'

**Michael Dalling, gweithiwr proffesiynol Cyfeirio at Ymarfer, Abertawe**





**Sir Benfro:**

"Mae ein hyfforddwyr ni'n ein gwthio ni, fe wnes i ddechrau ar lefel sylfaenol ac rydw i nawr yn wirioneddol actif gyda chyhyrau breichiau bendigedig! Mae'r agwedd gymdeithasol yn fantais allweddol ac mae cwrdd â phobl debyg a gwneud ffrindiau'n rhan enfawr sy'n dda iawn. Mae'n helpu'n fawr gydag adeiladu cyhyrau o amgylch y cymalau ac ar gyfer delio gyda phoen, ac rydw i nawr yn ymweld â'r meddyg yn llai aml."
**Lynne, dioddefwr arthritis gwynegol yn Sir Benfro.**

- Cyfanswm y cyfranogwyr yw **8,228**, cynnydd o tua **1,000** ers mis Awst 2023.
- Mae **16** o gyfranogwyr ethnig lleiafrifol newydd, cyfanswm y cyfranogwyr ethnig lleiafrifol yw **58** bellach.
- Mae'r rhaniad rhywedd yn parhau'n sefydlog gyda thua **70%** o ferched a **30%** o ddynion.
- Mae'r duedd ar gyfer y mynegai amddifadedd lluosog hefyd yn parhau'n gyson, gyda'r gyfran uchaf o gyfranogwyr yn y cromfachau amddifadedd lleiaf.

# Iechyd Meddwl

Rydym yn gweithio gyda Platfform a Phrifysgol Portsmouth a'n partneriaid i drawsnewid chwaraeon ac iechyd meddwl yng Nghymru, gan sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn teimlo ymdeimlad dwfn o berthyn a gwerth.

Eleni rydym wedi parhau i arloesi a chydweithredu â phartneriaid i feithrin dealltwriaeth o ddull perthynol o weithredu gydag iechyd meddwl. Ein huchelgais yw creu diwylliant chwaraeon lle mae iechyd meddwl yn cael blaenoriaeth a lle mae pob cyfranogwr yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol, wedi'i gysylltu, a'i gefnogi ar bob lefel - o dimau cymunedol ar lawr gwlad i athletwyr o safon byd. Rydym yn gweithio'n weithredol gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol i ymgorffori'r dull hwn yn ehangach.

Drwy ymgorffori'r dull hwn, rydym nid yn unig yn gwella perfformiad unigol ond yn cyfrannu at gymdeithas iachach a gwydnach, ac yn chwarae ein rhan mewn dull iechyd **ataliol** o weithredu.

# Mabwysiadu dull person-ganolog o weithredu

Er mwyn helpu ein partneriaid i gynyddu eu gallu i gasglu, dehongli a defnyddio gwybodaeth i ddylanwadu ar arferion person-ganolog, roeddem eisiau gweithio gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol i ddeall eu data a'u gwybodaeth. Drwy edrych yn y **tymor hir**, ein nod ni yw ymgorffori newid cynaliadwy ar draws y sector, gan fynd i'r afael â galw cudd a galw heb ei fodloni mewn chwaraeon.

Gwahoddwyd pob Corff Rheoli Cenedlaethol i gymryd rhan, gyda naw yn cymryd rhan mewn arolwg cychwynnol i ddeall sut maent yn defnyddio data a gwybodaeth. Helpodd yr arolwg bob partner i ddeall eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu, gan sicrhau bod eu rhaglenni, eu gwasanaethau a'u prosesau gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddealltwriaeth ddyfnach o'r bobl maent yn eu gwasanaethu.

Aeth saith Corff Rheoli Cenedlaethol ymlaen i gymryd rhan yn y prosiect a chawsant eu grwpio yn seiliedig ar eu harferion cyfredol i sicrhau **cydweithredu** wrth dderbyn cefnogaeth wedi'i theilwra.



**Grŵp Un:** RYA Cymru, Tennis Cymru a Thriathlon Cymru - buont yn gweithio gyda'r contractwr penodedig Avalon Insights i ddatblygu fframweithiau ymarferol sy'n gwella eu dealltwriaeth o anghenion ac ymddygiadau cyfranogwyr:

- **RYA Cymru:** Ymgysylltu'n uniongyrchol â morwyr ifanc i gasglu eu lleisiau ac i ddeall cymhellion a rhwystrau i gyfranogiad a chadw merched yn well.
- **Tennis Cymru:** Archwilio datblygu'r gweithlu drwy ddeall cymhellion ac anghenion hyfforddwyr i wella ymgysylltu, DPP, ac uwchsgilio.
- **Triathlon Cymru:** Ymchwilio i sut i gyrraedd y tu hwnt i'r gymuned triathlon, deall cymhellion a rhwystrau i gyfranogiad pobl nad ydynt yn driathletwyr, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynnig aelodaeth mwy cynhwysol.

**Grŵp Dau**: Criced Cymru, Sboncen Cymru, Tennis Bwrdd Cymru, ac Athletau Cymru - dilynodd y rhain fodel hybrid, gan gyfuno dysgu a rennir gyda chymorth wedi'i deilwra. Gan ddefnyddio **cynnwys** a **chydweithredu**, cymerodd bob CRhC ran mewn trafodaethau archwiliadol a sesiynau dilysu, gan gydgynhyrchu dull sy'n blaenoriaethu ymgorffori meddwl person-ganolog yn eu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn sicrhau nad yw newid yn adweithiol yn unig ond yn **ataliol**, gan fynd i'r afael yn rhagweithiol â rhwystrau i gyfranogiad.

Er bod y prosiect yn mynd rhagddo o hyd, mae'r canlyniadau cynnar yn dangos manteision sylweddol ar draws y sector, gan helpu partneriaid i symud tuag at system chwaraeon sydd wir yn berson-ganolog.

"Gweithiodd RYA Cymru Wales ar brosiect person-ganolog gyda'r nod o ddatblygu a chadw mwy o hyfforddwyr a gwirfoddolwyr benywaidd mewn hwylio, yn enwedig ym maes Perfformiad. Fe wnaethon ni gynnal grwpiau ffocws gyda hyfforddwyr presennol, blaenorol a'r genhedlaeth nesaf a gyda rhieni benywaidd yng Ngharfannau Cymru ynghylch gwirfoddoli. Helpodd y gefnogaeth ni i siapio'r prosiect, ffurfio cwestiynau'r grwpiau ffocws, cynnal y grwpiau ffocws ac wedyn dadansoddi'r canlyniadau gyda rhai nodau ac awgrymiadau tymor byr a thymor hir i'n helpu ni i gefnogi ein hyfforddwyr a'n gwirfoddolwyr benywaidd. Mae'r gefnogaeth wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr, ac mae gennym ni nawr rywfaint o ddata pendant i'w defnyddio."
**Sarah McGovern – Rheolwr Perfformiad yr RYA ar gyfer Cymru.**

# Golff Cymru ar y trywydd iawn i ffynnu

Yn 2024, fe wnaethom **gydweithredu** â Golff Cymru ar gyfer prosiect blwyddyn o hyd yn archwilio profiadau golffwyr ifanc o ffynnu o fewn eu llwybrau perfformiad iau ac uwch. Mae ffynnu'n gysyniad cymhleth, lle mae person yn teimlo ymdeimlad mawr o lesiant (corfforol, cymdeithasol, seicolegol, emosiynol) a lefel uchel o berfformiad goddrychol. Pan mae athletwr yn ffynnu, mae'n profi datblygiad a llwyddiant yn ei amgylchedd chwaraeon, ac o bosibl ar draws sawl amgylchedd (e.e. ysgol, teulu, gwaith).

Mynychodd aelodau o Dîm Amgylcheddau Chwaraeon Cymru wersylloedd golff, siarad â hyfforddwyr a chasglu gwybodaeth gan ddefnyddio cyfweliadau ag amrywiaeth o golffwyr o bob rhan o lwybr perfformiad Golff Cymru, wedi'u lleoli yn y DU a thramor.

Siaradodd **Gareth Jenkins,** Cyfarwyddwr Perfformiad Golff Cymru, am bwysigrwydd y prosiect:

"...mae'r prosiect yn eithriadol werthfawr. Bydd yn ein helpu ni i egluro a chadarnhau beth sy'n digwydd o fewn y llwybr a'n helpu ni i greu newid o amgylch tystiolaeth yn gyflym. Ar ôl cyrraedd o Golff Lloegr, dydw i ddim wedi gweld y lefel yma o gefnogaeth ac ymgysylltu â chyrff rheoli cenedlaethol o'r blaen."

Cyflwynwyd adroddiad 'golffwyr Cymru sy'n ffynnu' i'r grŵp arweinyddiaeth a'r staff hyfforddi ar ddiwedd y prosiect. Roed yr adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddi cadarnhaol a pherthnasoedd llawn ymddiriedaeth rhwng hyfforddwyr ac athletwyr i brofiadau'r golffwyr yn y gamp. Siaradodd y golffwyr hefyd am ba mor arbennig oedd cynrychioli eu gwlad yn eu camp a'r cymhelliant o weld golffwyr Cymru yn gwneud yn dda ar lwyfan y byd.





Ochr yn ochr â'r gefnogaeth perfformiad, siaradodd y chwaraewyr am bwysigrwydd y gamp yn deall eu hanghenion lles a chydbwysedd rhwng chwaraeon a bywyd a darparu cyfathrebu da ynghylch pontio allweddol ar / oddi ar y rhaglen (e.e. dad-ddewis, ymuno â'r daith broffesiynol, ymddeol).

Ychwanegodd **Ben Gorvett,** Rheolwr Llwybr Golff Cymru ar y pryd:

"Mae'r adroddiad ffynnu wedi ein helpu ni i ddeall yn union sut mae'r chwaraewyr yn teimlo. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau o'r athletwyr yma fel pobl ac fel athletwyr wrth symud ymlaen oherwydd ni allwn fforddio eu colli, mae mor syml â hynny. Os oes unrhyw gamp eisiau ei wneud, dylent fynd amdani, ond dim ond os ydyn nhw'n mynd i wrando ar yr hyn mae'n ei ddweud ac ystyried a derbyn yr adborth."

Ers hynny, mae Golff Cymru wedi defnyddio'r adroddiad mewn nifer o ffyrdd wrth ddatblygu eu llwybr newydd, gan gynnwys y canlynol:

- Cael mwy o hyfforddwyr yn y gwersylloedd drwy gydol y flwyddyn
- Mae mwy o bwyntiau cyswllt gyda'r chwaraewyr yn yr Unol Daleithiau wedi'u cynnwys
- Ychwanegu cyfarfodydd rheolaidd yng nghanol y mis rhwng gwersylloedd

Defnyddiwyd yr adroddiad hefyd fel sail i ddewis y tîm ar gyfer Ewrop, yn benodol bod chwaraewyr yn cael galwad ffôn, bod y capten yn cefnogi'r broses, a bod unrhyw ymholiadau'n cael eu dilyn.

Nid yw'r gwaith yn stopio yma, gydag ymarferyddion o Athrofa Chwaraeon Cymru i fod i ddechrau prosiect newydd yn fuan gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth ac ymddygiadau maeth yn y byd Golff yng Nghymru, gyda cham 1 yn targedu cystadleuaeth yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

# Dadansoddiad

Mae enghreifftiau o waith ar draws Chwaraeon Cymru yn dynodi bod ymchwil defnyddwyr yn dod yn fwy cyffredin mewn prosiectau mawr ac anghenion mwy arferol.

Eleni, mae 16 o brosiectau ymchwil defnyddwyr wedi cael eu cynnal gyda'r nod o ddeall anghenion y defnyddiwr yn rhan greiddiol ohonynt. Mae dyhead cynyddol wedi bod ymhlith cydweithwyr yn y sefydliad i fod yn rhan o weithgareddau o'r fath ac i geisio gwneud synnwyr o'r wybodaeth a gynhyrchir ac mae hyder wedi tyfu wrth fabwysiadu'r methodolegau hyn, gan gynnwys dealltwriaeth ei fod yn gryfach ac yn fwy effeithiol os caiff anghenion defnyddwyr eu mapio cyn i brosiect ddechrau.

Gan nad yw Chwaraeon Cymru yn sefydliad cyflenwi uniongyrchol ar gyfer cyfranogwyr chwaraeon yng Nghymru, un flaenoriaeth hanfodol ar gyfer yr amcan hwn yw eiriol dros a chefnogi dull person-ganolog o weithredu ar draws y sector chwaraeon. Drwy edrych ar bethau yn y tymor hir, ein nod ni yw ymgorffori newid cynaliadwy ar draws y sector, gan fynd i'r afael â galw cudd a galw heb ei fodloni mewn chwaraeon.

Yn ogystal, drwy'r Prosiect Data a Dirnadaeth, rydym yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau seilwaith data a chefnogaeth arbenigol i adolygu sut rydym yn casglu, yn storio ac yn defnyddio data i'w gwneud yn fwy defnyddiol a hygyrch. Drwy fapio siwrneiau defnyddwyr, asesu aeddfedrwydd data sefydliadol, a chynnal archwiliad cwmpasu dwfn, mae'r prosiect wedi datgelu bylchau allweddol yn y ffordd y mae data'n cael eu casglu, eu storio a'u defnyddio.

Nid yw hyn yn ymwneud â thrwsio systemau yn unig; mae'n ymwneud â thrawsnewid diwylliant.

Roedd ymdeimlad ein bod wedi cymryd rhai camau sylweddol ymlaen wrth fabwysiadu ffocws mwy defnyddiwr-ganolog yn ein gwaith. Mae'n ymddangos bod cynnydd da wedi'i wneud o ran sut gall Chwaraeon Cymru fel corff cyhoeddus gefnogi'r sector chwaraeon i fynd ymhellach ar ei siwrnai.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

Nododd yr adolygiad sawl thema i ni eu hystyried, gan gynnwys sut rydym yn grymuso'r rhai sy'n deall ymchwil a dirnadaeth defnyddwyr? A yw hyfforddiant pellach yn chwarae rhan allweddol a pha hyfforddiant sydd ei angen? Gall dysgu sy'n cynnwys bod yn berson-ganolog fod yn fwy na dim ond gofyn i bobl beth maen nhw ei eisiau; ond hefyd deall beth sydd angen i ni ei ddatblygu a dod yn fwy soffistigedig wrth i ni symud ymlaen. Allwn ni fod yn canolbwyntio ar y person bob amser pan fo angen blaenoriaethu rhai anghenion dros eraill weithiau?

Mae gosod hyn ochr yn ochr â sut mae bod yn berson-ganolog yn cyd-fynd â systemau chwaraeon cymhleth yn her hefyd.

Dylem ystyried pa bartneriaid sy'n cymhwyso egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y person yn dda ac yn gwneud defnydd da o ddata cyfranogwyr a'r rhai nad ydynt yn gyfranogwyr i ddeall yr anghenion hynny'n well.

Astudiaeth Achos:

# #2 Sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych

Mae gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi sylfeini iddynt fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

## Gwella Cyfleusterau Chwaraeon Ledled Cymru i Ysbrydoli Cenhedlaeth

Wedi'u hysbrydoli gan y Gemau Olympaidd, mae cymunedau ledled Cymru yn elwa o fuddsoddiadau mawr mewn cyfleusterau chwaraeon, gan helpu mwy o bobl i gael mynediad at bêl-fasged, pêl-rwyd, tennis, pêl-droed, rygbi a hoci a'u mwynhau.



Dros y 12 mis diwethaf, mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi tua £800,000 mewn prosiectau **cydweithredu** ar gyfer cyrtiau drwy gyllid Llywodraeth Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth â Phêl-fasged Cymru, Pêl-rwyd Cymru a Thennis Cymru, dewiswyd lleoliadau allweddol yn seiliedig ar y galw a ddangoswyd yn Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022.

Mae cyrtiau ledled Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Wrecsam, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot wedi'u hadnewyddu gydag arwynebau newydd, marciau llinell ac offer hanfodol. Mae'r gwaith uwchraddio hwn yn cefnogi defnydd ysgolion a chwaraeon cymunedol, gyda chlybiau lleol hefyd yn elwa.

Yn ogystal, mae mwy nag £1 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn caeau artiffisial newydd ac wedi'u huwchraddio ar gyfer rygbi, pêl-droed a hoci. Mae prosiectau yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin, Conwy a Rhondda Cynon Taf yn gwella mynediad i gaeau 3G o ansawdd uchel a chaeau penodol i hoci, gan gefnogi cyfranogiad ysgolion a chymunedau.




# Citbag / Cwricwlwm

Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i blatfform Citbag i gefnogi ymarferyddion sy'n cyflwyno Addysg Gorfforol, Chwaraeon Ysgol a Gweithgarwch Corfforol (PESSPA) yn well. Gan adeiladu ar adborth gwerthfawr gan athrawon, fe wnaethom wella profiad y defnyddiwr, gan **integreiddio'r** dyluniad a siwrnai'r defnyddiwr, a sicrhau bod yr holl adnoddau bellach wedi'u mapio i Gamau Cynnydd Cwricwlwm Cymru gan sicrhau bod athrawon yn gallu ymgorffori Citbag yn hyderus yn eu cwricwlwm Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ar gyfer y **tymor hir.**

Fe wnaethom ni hefyd gyflwyno gweminar ar sut i symud drwy Citbag yn effeithiol, gan roi canllawiau ymarferol ar sut i ddefnyddio nodweddion y platfform, dod o hyd i adnoddau perthnasol, a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.



Yn dilyn ymgyrch farchnata'r llynedd, a helpodd i godi ymwybyddiaeth o nodweddion ac adnoddau Citbag, rydym yn parhau i weld cynnydd mewn tanysgrifiadau a defnydd o'r platfform ledled Cymru.



# Actif Dyddiol

Rydym wedi parhau i weithio ar ein **cydweithrediad** â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru ar y Cynnig Actif Dyddiol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd eleni wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd oherwydd cyfyngiadau ariannol heriol.

Er gwaethaf hyn, rydym wedi cefnogi **arloesedd** adnodd asesu gweithgarwch corfforol, a fydd yn helpu i nodi meysydd lle mae angen cefnogaeth ar ysgolion i **integreiddio** gweithgarwch dyddiol i'w disgyblion ar draws y diwrnod ysgol. Bydd yr adnodd hwn yn rhoi cynllun gweithredu i ysgolion, gan eu tywys tuag at ddod yn lleoliadau ysgol actif.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ysgolion i greu dull ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol.





# Pipyn Actif

Fel rhan o strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach Llywodraeth Cymru i atal gordewdra, rydym yn parhau i **gydweithredu** mewn tair ardal ledled Cymru i ddylunio a gweithredu cyfleoedd gweithgarwch corfforol difyr, diogel a phriodol i ddatblygiad i deuluoedd sydd â phlant 0 i 7 oed sydd mewn perygl o ordewdra neu sy'n profi gordewdra.

Mae prosiect Pipyn Actif yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y teulu o weithredu ac mae'n cael ei yrru gan y gymuned i wella canlyniadau iechyd uniongyrchol gan feithrin newid ymddygiad tymor hir i leihau cyfraddau gordewdra ledled Cymru.

Yn unol â menter Pipyn (Plant Iach, Pwysau Iach yng Nghymru) dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae Pipyn Actif yn cael ei dreialu mewn tair ardal allweddol: Merthyr Tudful, Ynys Môn ac Arc Deheuol Caerdydd. Anglesey, and Cardiff Southern Arc. Dewiswyd y lleoliadau hyn yn strategol i gynrychioli ystod amrywiol o gymunedau yng Nghymru lle mae lefel y gordewdra mewn plentyndod a phlant dros eu pwysau yn sylweddol.



Er bod yr ardaloedd peilot yn rhannu heriau economaidd-gymdeithasol, maent hefyd yn arddangos nodweddion unigryw, gan gynnwys y canlynol:

- **Lleoliadau gwledig o gymharu â rhai trefol –** sy'n dylanwadu ar fynediad at wasanaethau a chostau teithio.
- **Amrywiaeth ethnig –** sy'n gofyn am ddulliau sy'n sensitif i ddiwylliant ac sy'n gynhwysol.
- **Hygyrchedd yr iaith Gymraeg –** sicrhau mynediad cyfartal at weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Mae pob ardal beilot yn cael ei goruchwylio gan arweinydd prosiect penodol sy'n gyfrifol am gyflwyno mentrau sydd wedi'u teilwra i deuluoedd gyda phlant ifanc sydd mewn perygl o ddioddef o ordewdra. Mae'r sefydliadau arweiniol yn cynnwys:

- **Ynys Môn –** Môn Actif
- **Caerdydd –** Chwaraeon Met Caerdydd
- **Merthyr Tudful –** StreetGames

Rydym yn monitro'r prosiect dwy flynedd hwn (Ebrill 2023 – Mawrth 2025) mewn cydweithrediad â thîm gwerthuso allanol, UKRCS, sy'n asesu effaith drwy ddata ansoddol a meintiol, gan gynnwys adborth uniongyrchol gan deuluoedd a chydlynwyr prosiectau. Nod y gwerthusiad yw sefydlu model cynaliadwy y gellid ei ehangu a'i gyflwyno ledled Cymru.



## Uchafbwyntiau'r Prosiect Hyd Yma

### Sesiynau Dwylo Hapus – Merthyr Tudful

Mae Clwb Dwylo Hapus yn cynnig sesiynau cerddoriaeth, symudiad ac ymwybyddiaeth ofalgar i rieni a phlant o'r cyfnod cyn geni (y trimester olaf) hyd at saith oed. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi rhieni i feithrin hyder, rheoli straen a gorbryder, a gwella sgiliau cyfathrebu drwy chwarae, cerddoriaeth ac iaith. Yn ogystal, mae'r sesiynau'n meithrin rhwydweithiau cefnogi cymheiriaid, gan leihau unigedd ymhlith rhieni newydd.

### Adborth Cyfranogwr:

"Rydw i'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, a waethygodd ar ôl cael fy merch. Mae mynd i'r grŵp wedi fy ysgogi i godi, gwisgo a gadael y tŷ. Mae wedi darparu lle i mi gwrdd â phobl eraill a dysgu sgiliau newydd gyda'n gilydd."

## Datblygu'r Prosiect a'r Camau Nesaf

Ar hyn o bryd rydym yn ffurfioli cyfres o egwyddorion prosiect i sicrhau canlyniadau cyson i blant, rhieni a hwyluswyr sy'n ymwneud â Pipyn Actif. Yn ogystal, mae rhaglen ymyriadau 8 wythnos yn cael ei datblygu, gan ddarparu cynllun sesiwn strwythuredig i hwyluswyr i wella sgiliau symud y plant. Bydd y fframwaith hwn ar gael i bob darparwr rhaglen Pipyn a Pipyn Actif.

Mae adroddiad gwerthuso'r prosiect am y ddwy flynedd gyntaf yn cael ei ryddhau yng Ngwanwyn 2025, ac mae blwyddyn ychwanegol o gyllid wedi'i sicrhau, gan alluogi parhau i gyflwyno yn y tair ardal beilot yn 2025-26.

# Dull Gwent Actif o fynd i'r afael â galw cudd

Drwy rwydwaith Sefydliad Gwent Actif, rydym wedi cefnogi'r 5 awdurdod lleol (ALl), Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddatblygu cyfleoedd chwaraeon i bobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Gan ddefnyddio data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, roedd y timau Datblygu Chwaraeon yn ymwybodol bod gan 58% o ddisgyblion alw heb ei fodloni am chwaraeon yng Ngwent. O'r wybodaeth hon, roeddent yn gallu nodi bod galw mawr heb ei fodloni (eisiau cymryd rhan, ond dim cyfle ar gael) am bêl-fasged yn ogystal â galw cudd mawr (eisoes yn cymryd rhan ond eisiau gwneud mwy) ymhlith bechgyn a merched.

Ar ddechrau'r prosiect (Ebrill 2023) ychydig iawn o weithgarwch pêl-fasged oedd yn bodoli, gyda nifer cyfyngedig o glybiau allgyrsiol ar gael a dim ond un clwb cymunedol oedd yn bodoli yn y rhanbarth, a oedd yn llawn iawn. Hwylusodd Chwaraeon Cymru drafodaethau **cydweithredol** rhwng y timau Datblygu Chwaraeon a Phêl-fasged Cymru, a alluogodd integreiddio blaenoriaethau a nodi rhwystrau drwy gynnwys amrywiaeth o bartneriaid, gan helpu i siapio'r dull o weithredu yn y rhanbarth.

Nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau allweddol:

1. Addysg hyfforddwyr ar gyfer staff ysgolion
2. Addysg hyfforddwyr i gefnogi cyfleoedd allgyrsiol a chymunedol
3. Mynediad i wyliau / twrnameintiau

Wedi'u cyffroi gan y potensial, creodd y timau Datblygu Chwaraeon sawl cyfle gyda chefnogaeth ychwanegol gan Swyddog Cyfranogiad a Chynhwysiant newydd ei benodi o Bêl-fasged Cymru. Bu llawer o enghreifftiau o arfer da, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys y canlynol:

- **Pêl-fasged Cymru** yn darparu hyfforddiant i arweinwyr ifanc, hyfforddiant athrawon a chwrs hyfforddi, gan alluogi'r cyfranogwyr i gael mynediad at hyfforddiant yn eu rhanbarth lleol a gwella sgiliau 50 o arweinwyr / hyfforddwyr newydd.
- Cefnogodd tîm Datblygu Chwaraeon **Torfaen** sefydlu clwb cymunedol newydd yn darparu cyfleoedd i fechgyn a merched iau (mae 42% eisiau rhoi cynnig ar bêl-fasged) ac uwchraddio sgiliau 5 unigolyn i'r achrediad hyfforddi lefel un. Mae'r clwb hefyd wedi elwa o grant Cronfa Cymru Actif o £5,130.
- Sefydlodd tîm Datblygu Chwaraeon **Sir Fynwy** sesiwn gymunedol newydd yng Nghil-y-coed ac maent yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth i fod y clwb Pêl-fasged cysylltiedig cyntaf yn Sir Fynwy.

- Hyfforddodd **Blaenau Gwent** 22 o arweinwyr ifanc drwy sefydliad Pêl-fasged Cymru, a gefnogodd wedyn gyflwyno gŵyl ysgolion cynradd, gan ymgysylltu â mwy na 160 o ddisgyblion o 14 o ysgolion.
- Cynhaliodd **Caerffili** ŵyl ysgolion cynradd a gyrhaeddodd 60 o ddisgyblion o 7 ysgol a chysylltu â chlwb lleol i sefydlu darpariaeth gymunedol wythnosol.
- Sefydlodd **Casnewydd** sesiynau allgyrsiol ym mhob un o'r 8 ysgol uwchradd a chynnal cysylltiadau â'r clwb a oedd yn bodoli eisoes i gefnogi datblygiad.
- Darparodd ymgyrch 'Dim byd ond Rhwydi' **Pêl-fasged Cymru** rwydi newydd i bob un o'r tair canolfan hamdden ym Mlaenau Gwent ac mae wedi darparu mynediad at offer arbenigol cludadwy i'w ddefnyddio i hwyluso gwyliau / digwyddiadau.
- Datblygodd cyllid Cydweithredu ar Gyrtiau **Chwaraeon Cymru** gyrtiau awyr agored yng Nghil-y-coed, Cwmbrân a Blaenafon. Mae grant pellach wedi cael ei roi yn ddiweddar i ddatblygu cwrt yng Nghasnewydd.

Mae sawl maes gwaith yn parhau i gael eu cynllunio gan yr ALlau gyda chefnogaeth Pêl-fasged Cymru, gan ddangos ymhellach y dull **tymor hir** o weithredu a'r ymrwymiad i fynd i'r afael â galw heb ei fodloni a galw cudd a darparu cynigion cynaliadwy ar draws pob cymuned.



# Cynhadledd Llwybr a Pherfformiad

Cynhaliwyd Cynhadledd Llwybr a Pherfformiad Cymru (PPW) am y tro cyntaf erioed, a hynny yng Ngwesty'r Vale ar 20/21 Tachwedd. Dros y deuddydd, daeth mwy na 70 o arweinwyr llwybr a pherfformiad a phobl sy'n gwneud penderfyniadau o 35 o sefydliadau partner at ei gilydd fel system llwybr a pherfformiad ar y cyd am y tro cyntaf yng Nghymru.

Pwrpas y digwyddiad oedd rhoi cyfle i bawb yn y sector llwybr a pherfformiad gysylltu, dysgu, **cydweithredu** ac **arloesi**.




Drwy gydol y deuddydd, dysgodd ein partneriaid o sgyrsiau am y canlynol:

- Siwrnai ddatblygu athletwyr a sut mae amgylcheddau yn y system yn siapio'r siwrnai hon.
- Gwybodaeth o ddatblygu'r rhaglen PACE (Person, Athletwr, Pencampwr, Amgylchedd) i gefnogi athletwyr ifanc mewn triathlon.
- Nofio Cymru a'u dull o gefnogi athletwyr yn ystod cyfnodau pontio allweddol ar y llwybr talent.
- Y sgiliau sydd eu hangen i **gydweithredu'n** effeithiol fel system.

Mae gwahanol gyrff rheoli cenedlaethol eisoes yn cysylltu, ac mae Melinau Meddwl yn cael eu datblygu i wella'r system llwybr a pherfformiad yng Nghymru. Bydd y melinau meddwl cyntaf yn ddull cyfunol a **chydweithredol** o newid systemau mewn rhaglenni llwybr a pherfformiad ledled Cymru. Bydd y pedwar cyntaf yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Rhannu sylfeini cefnogi ar gyfer llwybrau ar draws chwaraeon (cryfder a chyflyru, maeth, ac ati)
2. Dull a rennir o gynnal gweithdai i rieni, diogelu, iechyd meddwl, ac ati
3. Llwybrau Perfformiad sy'n Agored i Bawb ac yn Teimlo'n Gyraeddadwy
4. Gwella lefel yr hyfforddiant mewn clybiau a llwybrau

# Fframwaith Sylfeini Cymru

Mae Fframwaith Sylfeini Cymru, sy'n fframwaith **arloesol**, yn cael ei weithredu ledled y wlad ar hyn o bryd i helpu i roi profiad cadarnhaol o weithgarwch corfforol a chwaraeon i fwy o blant. Mae'n ganllaw arfer da i bawb ei ddilyn wrth gyflwyno, trefnu neu hyrwyddo gweithgarwch corfforol a chwaraeon i blant 3 i 11 oed, mewn lleoliadau ysgol allgyrsiol, cymunedol ac ar lawr gwlad.

Wedi'i ddatblygu drwy ymdrechion **cydweithredol** amrywiaeth o bartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Cyrff Rheoli Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Chwaraeon, Chwarae Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Partneriaid Cenedlaethol ehangach, a Chwaraeon Cymru, nod y Fframwaith yw cefnogi gwelliant yn lefelau gweithgarwch corfforol plant.

Mae'r Fframwaith wedi'i sefydlu mewn ymateb i alw am weithredu gan y sector chwaraeon, ar lawr gwlad – i gael fframwaith clir, wedi'i gefnogi gan negeseuon clir, i'w gynllunio ar draws y sector cyfan, sy'n cefnogi newid system.

Mae'r Fframwaith hefyd yn ceisio mynd i'r afael â rhai ystadegau brawychus:

- Dim ond 22% o blant 8 i 11 oed sy'n bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol.
- Mae 27.1% o blant 4 i 5 oed yng Nghymru yn or-dew neu dros eu pwysau.
- Nid yw 1 o bob 3 disgybl (31%) yng Nghymru yn hyderus yn rhoi cynnig ar chwaraeon newydd.
- Mae'r dirywiad mewn lefelau gweithgarwch corfforol yn dechrau mor gynnar â 7 oed.

Mae'r fframwaith yn dangos enghreifftiau o'r canlynol:

- Sut dylai 'darpariaeth plentyn-ganolog' edrych a theimlo.
- Sut i ddatblygu cymhelliant, hyder, sgiliau corfforol, a gwybodaeth a dealltwriaeth plant – i'w galluogi i fod yn llythrennog yn gorfforol.
- Sut i greu amgylcheddau sy'n cefnogi cam datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plentyn.
- Cyfleoedd aml-chwaraeon sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol.
- Pwysigrwydd symud yn ddyddiol a phrofiadau gweithgarwch corfforol allweddol sy'n cyfrannu at ddatblygiad iach.
- Gwerthfawrogi chwarae dan arweiniad plant cymaint â chyfleoedd a hwylusir ac sy'n cael eu cychwyn gan oedolion.

Mae wedi'i rannu'n adrannau sy'n ymdrin â diogelwch a chynhwysiant, mwynhad a datblygiad, gyda phob thema'n cael ei hystyried ymhellach o safbwynt llefydd, pobl a pholisïau, i gefnogi datblygiad dull cynhwysol o weithredu.

Mae adnoddau cysylltiedig yn cael eu datblygu bellach a fydd yn cefnogi clybiau a hyfforddwyr yn benodol. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso defnydd ac effaith y fframwaith yn y **tymor hir.**

# Datblygu arweinwyr hyfforddi drwy'r Rhaglen Arweinwyr Hyfforddi i sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad cadarnhaol o chwaraeon

'Mae Arweinydd Hyfforddi yn rhywun sy'n gwerthuso, yn datblygu, yn dylanwadu ac yn arwain y cyfleoedd datblygu hyfforddwyr a'r strwythurau cefnogi o fewn chwaraeon a sefydliadau chwaraeon. Mae gan Arweinwyr Hyfforddi rôl gymhleth ond hanfodol o fewn chwaraeon, sefydliadau partner a'r sector, gan sicrhau bod hyfforddi'n diwallu anghenion cyfranogwyr ac athletwyr ond hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr anghydraddoldebau mewn chwaraeon.'

Trosolwg o raglen Arweinwyr Hyfforddi

Roedd Rhaglen Arweinwyr Hyfforddi'r Gwledydd Cartref yn rhaglen beilot 24 mis o ddysgu a datblygu blaengar a chefnogaeth bwrpasol barhaus i bob cyfranogwr a'u sefydliad cysylltiedig. Cyflwynwyd y rhaglen drwy **gydweithrediad** rhwng timau hyfforddi Chwaraeon Cymru, Sport Northern Ireland a sportscotland ac fe'i cynlluniwyd i gynyddu arbenigedd a gallu'r Arweinwyr Hyfforddi i ddarparu system gynhwysol o gefnogaeth a datblygiad i'w hyfforddwyr priodol. Daeth y rhaglen ag 16 o Arweinwyr Hyfforddi at ei gilydd, o 16 sefydliad chwaraeon cenedlaethol, yn cynrychioli 12 camp wahanol, o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac fe'i cyflwynwyd drwy nifer o ddigwyddiadau preswyl yn para tridiau, ar draws y tair gwlad.

Cafodd y rhaglen groeso da gan y cyfranogwyr, gyda lefelau uchel o foddhad ac adborth yn cael eu hadrodd; newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad yn ogystal ag effaith ar dwf proffesiynol. Roedd adrodd am newidiadau yn eu harferion gwaith a'u bod wedi gadael y Rhaglen gyda mwy o ymwybyddiaeth o'u rôl o fewn y systemau cefnogi hyfforddiant, a dealltwriaeth gliriach o sut i arwain ac ysbrydoli newid yn eu sefydliadau.

Dyma rai themâu allweddol fel yr adroddwyd gan yr Arweinwyr Hyfforddi:

- Effaith sylweddol ar dwf personol a phroffesiynol
- Gwerth eithriadol rhwydweithio a **chydweithredu**
- Gwerthfawrogiad am gynnwys heriol a sylw i safbwyntiau amrywiol
- Gwerthfawrogiad pellach am gynllun a hwyluso'r Rhaglen

Mae'r tri Chyngor Chwaraeon wedi ymrwymo i raglen ddwy flynedd arall o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2027.

Dyfyniad gan Gyfranogwr:

"Mae'r rhaglen wedi atgyfnerthu pwysigrwydd (a phŵer) dod â phobl at ei gilydd, ar draws gwledydd, gan wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac yn arweinydd dylanwadol wrth newid pethau ym maes hyfforddi a datblygu hyfforddwyr."



# Twf ac Aeddfedrwydd

Mae ymchwil i lwybrau chwaraeon pobl ifanc yn eu harddegau'n dangos yn glir y gall ffactorau sy'n ymwneud â thwf ac aeddfedrwydd ddylanwadu ar allu athletwr i wneud cynnydd ar hyd llwybr.

Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau yng nghyflymder aeddfedrwydd, a all olygu bod rhai yn fwy tebygol o wneud cynnydd, ac anafiadau sy'n digwydd yn ystod yr hwb tyfu yn ystod y glasoed sy'n arwain at fwy o bobl yn rhoi'r gorau iddi.

Ffurfiwyd gweithgor o Ymarferyddion Athrofa Chwaraeon Cymru i geisio cydweithredu i gael gwared ar y rhwystrau hyn i wneud cynnydd yn system chwaraeon Cymru ac atal anafiadau. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at fwy o gyfleoedd i'r rhai sydd â dyhead i lwyddo. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod mwy o athletwyr Cymru yn derbyn y gefnogaeth orau bosibl mewn perthynas â'u datblygiad corfforol, gwybyddol a seicosymdeithasol.

Mae'r enghreifftiau diweddar o welliant yn cynnwys cefnogi Bocsio Cymru gyda chasglu a dehongli data twf o fewn eu llwybr a chefnogi tîm sy'n gweithio gyda Jiwdo Cymru i adolygu canllawiau'r DU ynghylch arferion 'rheoli pwysau' a 'thorri pwysau' ymhlith cyfranogwyr yn eu harddegau.

Drwy gyfrwng y ddau brosiect, rydym wedi gweld yr effaith y gall gwybodaeth gynyddol am dwf ac aeddfedrwydd ei chael ar draws ystod o amgylcheddau, gan arwain at rannu negeseuon ac arferion y tu hwnt i'r llwybr gyda dylanwadwyr allweddol yn rhwydwaith cefnogi athletwr fel rhieni a hyfforddwyr clwb.

# Arolwg Chwaraeon Ysgol

Comisiynwyd cwmni ymchwil allanol gennym i gynnal ‘Profion Gwybyddol’ o Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022, i ddyfnhau ein gwybodaeth am yr hyn y mae disgyblion yn ei ddeall mewn gwirionedd pan fyddwn yn gofyn am chwaraeon unigol, y lleoliad lle maent wedi cymryd rhan, a pha mor aml maent wedi gwneud hynny. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu’r arolwg ymhellach ar gyfer y **tymor hir** a gwella ein gallu i ddeall ymhellach sut mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Roedd yr astudiaeth yn **cynnwys** disgyblion o ystod o ddemograffeg er mwyn adlewyrchu lleisiau pobl ifanc yng Nghymru; ystyriwyd rhyw, oedran, yr iaith Gymraeg, lleoliad, a chefndir economaidd-gymdeithasol o fewn y samplu.

Mae’r canfyddiadau a gafwyd hyd yma’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel sail i ddatblygu Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026. Mae’r prosiect ymchwil hwn yn cynrychioli’r cyntaf mewn cyfres o gamau profi gwybyddol ac ymchwil defnyddwyr a drefnwyd i ddigwydd dros y flwyddyn nesaf wrth i ni weithio tuag at yr arolwg nesaf. Yn ogystal, mae’r ymchwil hwn yn ceisio diweddaru canfyddiadau a gafwyd mewn rowndiau blaenorol o brofion gwybyddol a ddefnyddiwyd fel sail i fersiynau cynnar o’r Arolwg Chwaraeon Ysgol.



# Dadansoddiad

Un fenter hanfodol sy'n cyfrannu at yr amcan hwn yw'r Fframwaith Sylfeini, sy'n bodloni'r amcan lles yn llawn. Mae natur **gydweithredol** ei ddatblygiad wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ond bydd sut mae'n cael ei weithredu, ynghyd â'i fonitro a'i werthuso, yn hollbwysig.

Dangosodd rhwydwaith Sefydliad Gwent Actif waith **cydweithredol** gwirioneddol sy'n cael ei arwain gan wybodaeth mewn dull rhanbarthol. Defnyddiwyd defnydd data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol hefyd fel sail ar gyfer dyrannu adnoddau gan Bartneriaeth Chwaraeon ranbarthol – yr enghraifft gyntaf o hyn yn digwydd y tu allan i Chwaraeon Cymru.



## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae'r Fframwaith Sylfeini yn alluogwr hanfodol i gyflawni'r amcan hwn a heb ei lwyddiant, byddai cynnydd yn ymddangos yn her llawer mwy. Nododd yr adolygiad fod angen i ni ystyried sut i barhau i wneud cynnydd lle mae cyfyngiadau cyllido neu heriau eraill i'n partneriaid yn effeithio ar gyflawni prosiectau fel Actif Dyddiol. Ymhellach, o ystyried effeithiau presennol tlodi ac anghydraddoldeb / annhegwch cyfle, efallai y bydd cyfleoedd i wneud mwy ar lefel yr aelwyd.

Mae chwaraeon ysgol ac addysg gorfforol gwricwlaidd yn chwarae rhan allweddol wrth roi dechrau gwych i bob person ifanc. Gallai creu partneriaethau gyda sefydliadau chwaraeon lleol neu grwpiau cymunedol gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae archwilio modelau fel Actif Dyddiol yn cynnig cyfle i **integreiddio** symud yn ystod ac o amgylch y diwrnod ysgol. Gall datblygu elfen arweinyddiaeth disgyblion mewn addysg gorfforol gyfrannu at ymdeimlad gwell o berchnogaeth, hyder a pherthyn. Gallai mwy o bwyslais ar rôl addysg gorfforol i feithrin cymhelliant, hyder a dealltwriaeth gynyddu ymgysylltu hefyd.

# #3 Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

## Grymuso Oedolion Hŷn: Menter Ddringo Abertawe

Yn Abertawe, mae'r Cynllun Hamdden Actif 60+, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, yn cynnig sesiynau dringo i helpu unigolion dros 60 oed i oresgyn ofnau a meithrin cysylltiadau cymdeithasol.

Nododd Sarah McCoubrey, Rheolwr Iechyd a Llesiant yng Nghyngor Abertawe: "Mae stereoteipio penodol ynghylch gweithgareddau antur fel dringo yn addas ar gyfer grwpiau oedran iau yn unig, ond nid yw 60 oed yn hen ac mae dringo'n weithgaredd hwyliog iawn sy'n fuddiol i'ch lles corfforol a meddyliol."

Mae cyfranogwyr fel Ron Jenkins wedi rhannu profiadau cadarnhaol: "Rydw i'n cael amser gwych yn y sesiynau Dringo Creigiau 60+. Mae dringo yn ffurf dda ar ymarfer corff, ac mae'n gwella fy nghryfder, fy nghydbwysedd, fy hyder a fy lles cyffredinol i."



Mae'r fenter hefyd yn mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol. Esboniodd Alan Pritchard: "Rydw i wedi mwynhau'r sesiynau dringo dan do am ddim yn fawr iawn. Roedd yn dda cwrdd â phobl eraill a sgwrsio gyda nhw cyn ac yn ystod y sesiynau."

Ychwanegodd cyfranogwr arall, Angela Howells: "Doeddwn i ddim yn disgwyl ei fwynhau a dweud y gwir gan fod gen i ofn uchder a dydi fy nghymalau i ddim yn dda oherwydd fy oedran i ac arthritis, ond rydw i wedi mwynhau'r sesiynau dringo."

Gyda chyllid wedi'i sicrhau tan 2025, mae'r cynllun yn parhau i ddarparu gweithgareddau hygyrch i oedolion hŷn yng Nghymru.

# Buddsoddiadau

## Cyllid Cyfalaf

Y llynedd, fe wnaethom ni barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau ledled Cymru fel rhan o'r cyllid cyfalaf mae'n ei ddosbarthu. Gan adeiladu ar ddysgu a thystiolaeth y blynyddoedd blaenorol, canolbwyntiodd y cyllid ar sicrhau cyfleusterau chwaraeon cynhwysol, hygyrch ac effeithlon o ran ynni yn y cymunedau oedd eu hangen fwyaf.

Ar draws y gwahanol gynlluniau cyfalaf, gwnaed cyfanswm o 166 o ddyfarniadau gwerth £8,668,247. Ymhlith y dyfarniadau hyn roedd 109 o fuddsoddiadau newydd i helpu i ddadgarboneiddio'r sector chwaraeon drwy gyllid i glybiau cymunedol nid-er-elw fel rhan o'r Grant Arbed Ynni. Nid yn unig mae'r buddsoddiadau hyn yn helpu gyda chynaliadwyedd amgylcheddol y sector chwaraeon, ond hefyd maent yn helpu i leihau biliau ynni sefydliadau chwaraeon lleol, gan wneud gwahaniaeth mewn rhai achosion rhwng cyfleuster cymunedol ffyniannus ac un sydd mewn perygl o orfod cau.

## Cronfa Stormydd

Eleni, yn ogystal â'r cynlluniau cyfalaf rheolaidd, fe wnaethom ymateb ar frys i'r stormydd a wynebwyd ledled Cymru. Llwyddodd clybiau yr oedd eu hoffer a'u cyfleusterau wedi cael eu difrodi oherwydd Storm Bert i gael mynediad at hyd at £5,000 mewn cymorth brys. Daethpwyd â'r gronfa ar-lein o fewn ychydig wythnosau ar ôl y storm a llwyddodd i gefnogi cyfanswm o 231 o brosiectau gwerth £538,253. Helpodd y cyllid hwn y clybiau i atgyweirio a newid offer hanfodol a sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon cymunedol a ddinistriwyd gan y gwynt a'r llifogydd yn gallu dychwelyd yn gyflym i gynnig cyfleoedd lleol i fod yn actif.

## Cronfa Cymru Actif

Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf rydym yn ei ddosbarthu, cafwyd blwyddyn wych arall o lwyddiant o ran dyfarnu cyllid y Loteri Genedlaethol i sicrhau buddion cymunedol. Ers 1994, mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu rhoi i glybiau chwaraeon, grwpiau cymunedol a sefydliadau ledled Cymru. Ac yn briodol, wrth i'r Loteri Genedlaethol ddathlu ei phen-blwydd yn 30 oed, fe wnaethom ddyfarnu ein 30,000fed grant i Glwb Rygbi Cadair Olwyn Scarlets ac Aberystwyth. Derbyniodd y clwb £37,589 i ateb y galw am fwy o gyfleoedd a mynediad at chwaraeon anabledd yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru.

Roedd y dyfarniad hwn yn un o 725 o sefydliadau a elwodd o £4,191,065 mewn buddsoddiadau cymunedol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom dreialu dull newydd o weithredu gyda'r gronfa, gyda ffenestri ymgeisio i ganiatáu gwell ymgysylltu a gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd llwyddiant y dull yma o weithredu'n cael ei ddefnyddio fel egwyddor cyllido yn ystod y flwyddyn ariannol newydd.

## Lle i Chwaraeon: Crowdfunder

Mae cronfa 'Lle i Chwaraeon', sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Crowdfunder UK, wedi parhau eleni, gan fuddsoddi mewn 12 prosiect, gan sicrhau £47,035 gennym ni a £92,687 pellach mewn cyllid ehangach gan y cyhoedd. Mae'r cyfanswm hwn o £139,722 ar gyfer clybiau cymunedol wedi arwain at gyfradd ehangach o £3.02 am bob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus.

Y gronfa hon yw ein mecanwaith ni ar gyfer buddsoddi ym mhob maes nad yw'n darparu chwaraeon yn uniongyrchol ond sy'n cael effaith enfawr ar brofiad cyfranogwyr. Gall hyn gynnwys gwarchod neu wella offer neu gyfleusterau neu wella gwasanaethau i wneud clybiau'n fwy cynaliadwy yn ariannol neu'n amgylcheddol.

Mae'r gronfa'n gweithio ar sail cronfa cyllid cyfatebol ac felly mae pob cais llwyddiannus yn dangos bod ymrwymiad gwirioneddol gan y gymuned leol.

Unwaith y byddwn yn cefnogi unrhyw addewid cais rhwng 30% a 50% o gyfanswm costau'r prosiect, daw'r symiau sy'n weddill gan gefnogwyr unigol. Mae pen uchaf yr addewid wedi'i dargedu'n benodol at ardaloedd o amddifadedd, fel y mesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cymunedau hynny mewn angen mwyaf yn y ffordd orau.

## Grymuso Merched Drwy Bêl-droed: Arian y Loteri Genedlaethol yn rhoi hwb i glwb

Mae Clwb Pêl-droed Merched Coity Chiefs ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi profi twf a llwyddiant rhyfeddol, diolch yn rhannol i arian y Loteri Genedlaethol sy'n cael ei weinyddu gan Chwaraeon Cymru. Wedi'i sefydlu i ddarparu amgylchedd croesawgar i ferched 7 i 15 oed, mae'r clwb wedi gweld cynnydd o 45% mewn cyfranogiad ers 2021, gan adlewyrchu'r cynnydd ehangach mewn pêl-droed merched a genethod ledled Cymru.

Yn 2023, o dan arweinyddiaeth newydd, wynebodd y clwb heriau oherwydd diffyg offer. Galluogodd grant o £7,471 brynu eitemau hanfodol fel peli, goliau, bibiau, citiau cymorth cyntaf a chyllid ar gyfer cyrsiau datblygu hyfforddwyr.

Dywedodd y Trysorydd Leeann Bekker: "'Fydden ni ddim wedi goroesi heb arian y Loteri Genedlaethol a ddyfarnwyd gan Chwaraeon Cymru."

Mae ymrwymiad y clwb i gynhwysiant yn amlwg, gyda thîm arweinyddiaeth sy'n cynnwys merched yn bennaf, gan ddarparu modelau rôl i'r chwaraewyr ifanc. Nododd Leeann: "Mae'n anhygoel i'r genethod weld bod merched yn gallu gwneud pob rôl mewn pêl-droed, o hyfforddi i ddyfarnu, a hefyd rôl weinyddol fel fy un i." Mae'r gynrychiolaeth hon yn meithrin ymdeimlad o berthyn a dyhead ymhlith y cyfranogwyr.

Mae effaith gadarnhaol y cyllid yn ymestyn y tu hwnt i offer a modelau rôl. Mae adnoddau gwell y clwb wedi arwain at brofiadau hyfforddi a chwarae gwell, gan ddenu mwy na 130 o ferched yn wythnosol.

Cydnabuwyd eu hymdrechion gyda gwobr Clwb Cymunedol y Flwyddyn yng Ngwobrau Pêl-droed Ar Lawr Gwlad McDonald's FA Cymru. Meddai Leeann: "Roedden ni wrth ein bodd yn cael ein cydnabod yn y digwyddiad mawreddog yma."

Mae'r stori lwyddiannus hon yn enghraifft o sut gall cyllid y Loteri Genedlaethol, sy'n cael ei hwyluso gan Chwaraeon Cymru, drawsnewid chwaraeon ar lawr gwlad, gan ddarparu cyfleoedd, meithrin cynhwysiant a grymuso'r genhedlaeth nesaf o athletwyr benywaidd.

## Chwaraeon Ramadan Hanner Nos

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym wedi **cydweithredu** gyda CIC Foundation 4 Sports Coaching i ddylunio a chyflwyno Chwaraeon Ramadan Hanner Nos, gan gynnig ffordd i Fwslimiaid sy'n ymprydio dorri eu hympryd gyda'i gilydd a chadw'n actif yn ystod mis sanctaidd Ramadan. Mae hyn wedi sicrhau bod y gweithgareddau'n **arloesi** i ddiwallu anghenion y gymuned.

Fe wnaethom ddatblygu darpariaeth y rhaglen, gyda sesiynau Sadwrn pwrpasol i ferched a genethod, gan gynnig lle diogel, cynhwysol a pharchus yn ddiwylliannol i fod yn actif yn ystod Ramadan. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys badminton, pêl-fasged, a chryfder a chyflyru, a gyflwynwyd mewn gofod gwarchodedig gan hyfforddwyr a gwirfoddolwyr benywaidd a thua 15 o wirfoddolwyr o bob rhan o Chwaraeon Cymru.

Mynychodd mwy na 200 o ferched a genethod, llawer ohonynt am y tro cyntaf. Cynigiodd y sesiynau fwy na chwaraeon, gan greu gofod lle'r oedd merched a genethod yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u grymuso.

Mae llwyddiant Chwaraeon Ramadan Hanner Nos yng Nghaerdydd wedi dod yn fodel cenedlaethol, gan ysbrydoli cymunedau eraill ledled Cymru i fabwysiadu mentrau tebyg. O ganlyniad:

- Mae mwy o safleoedd ledled Cymru wedi lansio eu prosiectau Ramadan Hanner Nos eu hunain, dan arweiniad grwpiau cymunedol a Chyrff Rheoli Cenedlaethol.
- Mae mwy o amlygrwydd drwy gyfryngau lleol a llwyfannau cymdeithasol wedi gosod Chwaraeon Ramadan Hanner Nos fel digwyddiad chwaraeon Ramadan mwyaf Cymru.
- Cynyddu ymgysylltiad staff gwirfoddol Chwaraeon Cymru, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sefydliad a'r gymuned leol.




# Datblygu Partneriaethau Chwaraeon

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y 12 mis diwethaf i gwblhau sefydlu a chefnogi gweithredu'r pum partneriaeth chwaraeon. Y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer Partneriaethau Chwaraeon oedd trawsnewid y ffordd mae chwaraeon cymunedol yn cael eu creu, eu cyflwyno, eu harwain a'u cyllido ledled Cymru.

Nod y partneriaethau hyn yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyfranogiad chwaraeon a sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fwynhau gweithgarwch corfforol gydol oes. Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous i bob un o'r partneriaethau wrth iddynt esblygu yn eu gallu i **gydweithredu** mewn partneriaeth, datblygu strategaeth a deall anghenion eu rhanbarthau.

## Ar draws y rhanbarthau...

**Gogledd Cymru:** Mae Actif North Wales, a sefydlwyd yn 2021-22, wedi parhau i ganolbwyntio ar brosiectau a phartneriaethau arloesol i gynyddu gweithgarwch corfforol. Eleni mae Actif North Wales wedi datblygu eu dull o Weithio Seiliedig ar Le.



**Gorllewin Cymru:** Mae Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru (PChGC), a sefydlwyd yn 2023, yn gweithio tuag at ddatblygu gweledigaeth strategol a fframwaith llywodraethu a chynhaliodd ddiwrnod **arloesi** llwyddiannus ym mis Chwefror 2025.

**Canolbarth Cymru:** Mae Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru wedi symud i weithrediadau byw gyda Chyfarwyddwr Rhanbarthol newydd ei benodi yn dechrau yn ei swydd ym mis Ionawr 2025.

**Canolbarth De Cymru:** Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at ddod yn weithredol yn 2025, gyda phenodiad bwrdd o ymddiriedolwyr a chadeirydd annibynnol.

**Gwent:** Mae camau cadarnhaol ymlaen wedi cael eu cymryd yng Ngwent i ddod â'r Bartneriaeth Chwaraeon yn fyw drwy gytundeb sefydliad cynnal.

# Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif – Canlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ers 2016, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cael ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a thri chorff (Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru), gan ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel am ystod eang o bynciau. Mae'n cael ei gynnal i'r safonau uchaf, fel ystadegau swyddogol, gan gynnwys sampl a ddewisir ar hap o bobl ledled Cymru i sicrhau bod y canlyniadau mor gynrychioliadol â phosibl.

Mae gwaith maes 2024-25 ar droed, gyda'r canlyniadau i'w cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025. Wrth gyflwyno'r arolwg hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi heriau o ran pwysau cost a chynnal cyfraddau ymateb, gyda chyfradd ymateb derfynol o 9,000 neu is yn cael ei rhagweld. Gall hyn effeithio ar i ba raddau y gellir dadansoddi data yn ddaearyddol neu ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth. Fodd bynnag, gall mesur dangosyddion allweddol neu fonitro polisi fel Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddigwydd o hyd.

Oherwydd hyn, ni fydd gwaith maes 2025-26 yn digwydd fel y cynlluniwyd, a bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei ailgynllunio o dan gontract newydd.

Rydym yn adolygu ac yn monitro effeithiau'r ystadegau hyn yn barhaus o ystyried y rôl bwysig maent yn ei chwarae wrth ddeall cyfranogiad a galw chwaraeon y genedl, yn ogystal â sut maent yn ein helpu i gynllunio a chyfeirio ein cefnogaeth gyllido.

Mae swyddogion yn edrych ar opsiynau i sicrhau bod yr arolwg yn parhau i ddarparu data cadarn fel sail i wneud penderfyniadau. Mae'n debygol y bydd yr arolwg nesaf yn digwydd yn 2026-27 a bydd yn cael ei weinyddu ar-lein, gyda disgwyl isafswm o 12,000 o ymatebion.

Mae hyn yn cynnig cyfle **arloesi** i addasu'r cwestiynau, ac mae'r gwaith ar adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif ddiwygiedig wedi dechrau eisoes. Mae'r newidiadau'n cynnwys lleihau, neu fireinio, y gweithgareddau chwaraeon a restrir yn benodol yn yr arolwg, eu trefn a'u grŵp, ac adrodd ar amlderau wythnosol ar gyfer cyfranogiad. Gofynnir cwestiwn 'hyd' ychwanegol i ddod â'r cwestiynau hyn yn agosach at ganllawiau cyffredinol ar weithgarwch corfforol, gan alluogi dangos cyfraniad pob gweithgaredd chwaraeon unigol mewn perthynas â lefelau gweithgarwch corfforol cyffredinol y genedl. Bydd cwestiynau am fathau eraill o weithgarwch corfforol cymedrol (garddio, glanhau'r tŷ, hwfro neu olchi'r car) yn cael eu cynnwys.

# Map Data Cymru

Gan **gydweithredu** â Llywodraeth Cymru, fe wnaethom helpu i greu adnodd newydd sbon ar gyfer y sector chwaraeon yng Nghymru drwy Fap Data Cymru. Cafodd ei gynllunio i gefnogi'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth gyfoes am gaeau artiffisial yng Nghymru. Nod yr **integreiddio** yw dod â data presennol at ei gilydd, a pharhau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fyw ac yn weithredol, er mwyn hysbysu'r cyhoedd yn well am eu cyfleusterau lleol a helpu i wella penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

Gall unrhyw un edrych am leoliad ac argaeledd eu cae chwaraeon artiffisial agosaf nawr drwy Fap Data Cymru. Mae'n cyfeirio pobl at lawer o'r cyfleusterau y mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ynddynt drwy Chwaraeon Cymru ac yn cefnogi darparu cyfleoedd cynhwysol, hygyrch a chynaliadwy i bawb ledled Cymru fwynhau manteision iechyd corfforol a meddyliol chwaraeon.

Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad rhwydwaith caeau artiffisial y wlad. Mae sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ble mae'r cyfleusterau hynny i gynllunio eu defnydd a sicrhau'r manteision gorau posibl i chwaraeon cymunedol yn ystyriaeth bwysig. Mae'r adnodd newydd hwn yn gam cadarnhaol wrth gysylltu'r dotiau hynny.

# Llofnodi Datganiad Brighton

Llofnododd y Farwnes Tanni Grey-Thompson, ein Cadeirydd, a Brian Davies OBE, ein Prif Swyddog Gweithredol, Ddatganiad Brighton a Helsinki, gan ymrwymo Chwaraeon Cymru yn ffurfiol i 10 egwyddor y cytundeb rhyngwladol ar gyfer chwaraeon merched a genethod, ar ddydd Gwener 21 Chwefror 2025, yng Nghyfarfod Bwrdd Chwaraeon Cymru. Mae'r datganiad wedi cael ei lofnodi gan bron i 600 o sefydliadau ledled y byd a'i nod yw gweithio tuag at system decach o chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n gwbl gynhwysol i ferched a genethod.

Dros gyfnod preswyl pedair blynedd y Gweithgor Rhyngwladol ar Ferched a Genethod yn y DU, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'i thîm i sicrhau ein bod yn ystyried chwaraeon drwy lens rhywedd ac i geisio sicrhau bod y problemau sy'n wynebu merched a genethod mewn chwaraeon yng Nghymru yn rhan o'n hegwyddorion gwaith a chyllido craidd.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi Uwchgynhadledd Fyd-eang nesaf yr IWG, a fydd yn cael ei chynnal yn Birmingham ym mis Gorffennaf 2026.



Mae'r gynhadledd bob pedair blynedd yma'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r byd yn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau i wella ac **integreiddio** profiadau merched mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i systemau gwell sy'n anelu at gau'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng y rhywiau.

# Dadansoddiad

Adolygwyd ac adnewyddwyd ein grwpiau cynllun busnes ar ddechrau 2024-25. Diwygiwyd blaenoriaeth y cynllun busnes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh), gan gydnabod bod diwylliant sefydliadol cynhwysol yn creu amgylchedd lle mae cynhwysiant yn ffynnu. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r rôl hanfodol y mae diwylliant yn ei chwarae mewn llywodraethu da.

Wrth fynd ar drywydd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon, rydym wedi mynd ar drywydd gwneud y system chwaraeon yn fwy cynhwysol ac aethom ati i ail-lunio 'system chwaraeon gynhwysol' fel elfen gyffredinol y mae blaenoriaethau eraill y cynllun busnes yn cyfrannu ati yn hytrach na fel blaenoriaeth cynllun busnes annibynnol. Daeth dau grŵp i gymryd lle grŵp cynllun busnes y System Chwaraeon Gynhwysol:

1. Mabwysiadu Dull Person-Ganolog o Weithredu
2. Sicrhau Bod Pobl Ifanc yn Cael Profiad Cadarnhaol o Chwaraeon

Mae'r dull mireinio hwn yn cryfhau ein hymrwymiad i gynhwysiant, gan ymgorffori ystyriaethau CACh ym mhob agwedd ar ein gwaith ar draws y sefydliad.

Mae'n ofynnol i bartneriaid sy'n cael eu cyllido gyfarfod â'u Rheolwr Perthnasoedd bob chwarter i rannu'r dysgu a'r cynnydd o'u gwaith. Dechreuodd yr Adolygiad Cynnydd a Dysgu Partneriaid yn 2023-24, ac o'r adolygiad hwn cynhyrchir adroddiad yn manylu ar arferion neu heriau nodedig a dysgu. Cyflwynwyd sesiynau a gafodd dderbyniad da yn arddangos hyn fel 'Dysgu Carlam' eleni.

Tynnodd yr adroddiadau sylw at fwy o **gydweithredu**. Un enghraifft oedd partneriaeth StreetGames a sefydliad Pêl-rwyd Cymru ar raglen Blitz Netball Activator: addysg hyfforddwyr pobl ifanc. Buddsoddodd Pêl-rwyd Cymru yn StreetGames i gefnogi datblygiad a chyflenwi'r cynnyrch, ac mae'n enghraifft o bartneriaeth yn seiliedig ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni. Mae'r cynnyrch hefyd wedi cael ei gydgynhyrchu gan gynnwys pobl ifanc, sydd wedi darparu cyfle rhagorol i bawb sy'n gysylltiedig ddysgu.

Roedd Grŵp Cynghori ar Dlodi Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Sir Benfro yn **gydweithrediad** nodedig arall. Grŵp amlasiantaeth yw hwn sy'n cynnwys aelodau o'r ALl, Cyrff Rheoli Cenedlaethol (gan gynnwys Criced Cymru), StreetGames, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Trydydd Sector), Milford Youth Matters (elusen) a Sefydliad Dinas Abertawe ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Maent yn darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth i gefnogi darpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol gynhwysol drwy gydol y flwyddyn.




Gyda'i gilydd, maent wedi nodi'r rhaglen 'Fit and Fed' (sy'n darparu gweithgarwch corfforol a phrydau maethlon i bobl ifanc) fel maes gwaith lle gallant i gyd gyfrannu ar y cyd. Mae hyn wedi osgoi dyblygu er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl o ran cefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n profi tlodi.

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo cyllid a chyllideb yn y dyfodol i wella hygyrchedd y cyfleuster yn ogystal â dysgu o 'Archwiliad Perthyn' a amlygodd yr angen am fynd i'r afael â rhwystrau i deimlo croeso ymhlith cymunedau Du ac Asiaidd a phobl sy'n anabl. Yn dilyn hyn, fe wnaethom ailosod lifft a diweddaru'r delweddau ledled y ganolfan i adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Datgelodd gwerthusiad o Gronfa Cymru Actif (haf 2024) gynnydd sylweddol yn amrywiaeth y ceisiadau gyda chynnydd o 61% mewn ceisiadau o'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

Nodwyd angen i ni ystyried a yw ein naratif bob amser yn berthnasol. Mae angen i ni ddangos i bobl pam eu bod eisiau mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, nid dim ond dweud wrthyn nhw pam y dylent wneud hynny. Mae gan ein cydweithwyr ni brofiadau a phwyntiau mynediad gwahanol i ddysgu a hyfforddiant. Mae angen i ni sicrhau bod yr iaith mor hygyrch â phosibl.

# #4 Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir

Mae sector chwaraeon **cydweithredol**, cynaliadwy a llwyddiannus, sy'n cael ei arwain gan ddirnadaeth a dysgu ar y cyd.

**Astudiaeth Achos:**

## Campfa Bocsio Joe Calzaghe yn elwa o Grant Arbed Ynni

Dychwelodd Grant Arbed Ynni Chwaraeon Cymru am yr ail flwyddyn ac i gampfa Joe Calzaghe yn Nhrecelyn, mae'r gefnogaeth wedi newid y gêm.

Mae Academi Calzaghe, campfa sy'n cael ei gweithredu gan deulu, yn un o 78 o glybiau chwaraeon i dderbyn hyd at £25,000 drwy'r cynllun grant. Galluogodd y cyllid i'r academi osod paneli solar yn eu lle ac uwchraddio'r inswleiddio, gan leihau biliau ynni hirdymor yn sylweddol a sicrhau sefydlogrwydd ariannol i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o focswyr.

Dywedodd Joe: "Rydyn ni wedi hyfforddi llawer o bencampwyr, ond y dyddiau yma ein ffocws ni yw cefnogi amaturiaid a phobl ifanc lleol. Bocsio oedd popeth i mi fel plentyn. Fe gefais i amser caled yn yr ysgol, fe gefais i fy mwlio ac roeddwn i'n eithaf mewnblyg. Roedd dod i gampfa'n rhoi hunan-werth i mi a dyna beth yw ein holl bwrpas ni - darparu rhywle i blant gael hwyl, dod yn heini a theimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain. Bydd y grant gan Chwaraeon Cymru wir yn ein helpu ni i leihau cost rhedeg y gampfa ac yn rhoi amgylchedd gwell i'r plant hyfforddi ynddo."

Mae'r grant yn helpu clybiau i fod yn fwy effeithlon o ran ynni drwy gyllido gwelliannau fel goleuadau LED, systemau gwresogi gwell a ffynonellau dŵr cynaliadwy.

Esboniodd Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru:

"Bydd clybiau sy'n llwyddiannus gyda'u ceisiadau nid yn unig yn elwa o filiau cyfleustodau is fel eu bod yn gallu dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ond, yr un mor bwysig, byddant hefyd yn gwneud eu rhan dros yr amgylchedd drwy leihau ôl troed carbon chwaraeon yng Nghymru."

Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd, Lesley Griffiths:

"Rydyn ni eisoes wedi gweld pa mor bwysig y mae'r Grantiau Arbed Ynni gan Chwaraeon Cymru wedi bod wrth helpu clybiau i ymdopi â heriau costau cynyddol ac rydw i'n falch y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r fenter hon."




# Fframwaith Gwerthuso Partneriaethau Chwaraeon

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dull **cydweithredol** o weithio wedi cael ei fabwysiadu i ddatblygu Fframwaith Monitro a Gwerthuso newydd ar gyfer y Partneriaethau Chwaraeon. Mae'r fframwaith wedi bod yn ddarn o waith a gyd-luniwyd rhwng Chwaraeon Cymru, Social Change Ltd, a'n cydweithwyr ni yn y Partneriaethau Chwaraeon. Mae'r Fframwaith yn nodi'r adnoddau a'r dulliau a all helpu i nodi'r newid sy'n seiliedig ar systemau y gall Partneriaethau Chwaraeon **arloesol** ei ysgogi fel rhan o ddull traws-sector o ddatgloi manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae'r Fframwaith yn symud oddi wrth strwythur gwerthuso traddodiadol 'metrigau yn unig' ac yn cyfuno data ac adrodd dadansoddol gyda dulliau ansoddol a damcaniaethol sy'n ystyried y newidiadau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n dod o wahanol sefydliadau a phartneriaid ar draws ôl troed rhanbarthol yn cydweithio.

Defnyddir amrywiaeth o adnoddau, fel modelau damcaniaeth newid, y '5 pam', mapio systemau, Dadansoddiad Cymharol Ansoddol, mapio tonnau a llawer mwy. Yr egwyddor yw creu canllaw pwrpasol, sy'n caniatáu i bob partner weld pa effaith a newid sy'n cael ei wneud ac sydd hefyd yn caniatáu gwerthusiad cyson. Er enghraifft, efallai nad yw'r dulliau sy'n gweithio i Bowys yn addas i Bwllheli. Gall sut mae'r setiau sgiliau, y capasiti a'r adnoddau'n cael eu defnyddio i ddeall newid yng Nghaerdydd fod yn wahanol i Gonwy. Mae pob rhanbarth Partneriaeth Chwaraeon yn gweithredu ar lefel wahanol o aeddfedrwydd hefyd.

Gellid defnyddio'r math hwn o ddull gwerthuso ar draws ystod ehangach o bartneriaethau hefyd, y tu hwnt i Bartneriaethau Chwaraeon a hyd yn oed Chwaraeon Cymru.

# Gwydnwch Sector

Yn dilyn adborth gan y cyrff rheoli cenedlaethol, fe wnaethom ddechrau edrych ar gyfleoedd o amgylch effeithlonrwydd presennol, cyfleoedd **cydweithredu** a meithrin gallu a chapasiti o fewn y partneriaid hyn. Nododd y gwaith dair thema allweddol a grëwyd ar y cyd â Phrif Weithredwyr:

## Ffrwd 1 - Cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau a rennir.

Mae'r maes gwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi mwy o gyfleoedd **cydweithredol** i rannu gwasanaethau gan arwain at effeithlonrwydd a chyfleoedd o fewn y sector.

Comisiynwyd dadansoddiad ariannol o'r cyrff rheoli cenedlaethol oedd eisiau cymryd rhan yn y prosiect hwn. Tynnodd yr adroddiad terfynol sylw at y ffaith bod cyfleoedd i rai CRhC ddefnyddio gwasanaethau a rennir ar gyfer meysydd fel cyflogres, cyfrifeg ac yswiriant, ac mae rhai o'r rhain yn becynnau presennol a gynigir drwy Gymdeithas Chwaraeon Cymru. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod canrannau sylweddol o wariant yn gysylltiedig â chyflogau.

## Ffrwd 2 - Gweithgarwch cynhyrchu incwm

Mae'r ffrwd cynhyrchu incwm yn canolbwyntio ar gefnogi sefydliadau i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, gan edrych ar gyfleoedd i weithio'n **gydweithredol**. Mae'r gweithgarwch wedi cynnwys ffyrdd o arallgyfeirio incwm, a deall a gwneud y mwyaf o asedau a strwythurau cyfreithiol a allai gefnogi cynhyrchu incwm yn haws.

Mae'r ffrwd hon wedi cefnogi CRhC drwy weithdai fel deall asedau sefydliadol a chynnig gwerth a deall strwythurau llywodraethu sefydliadau elusennol. Cynhaliodd Orchard Communications ddadansoddiad manwl o dirlun nawdd presennol y CRhC a darparodd wybodaeth yn ôl i sefydliadau i'w hystyried. Mae archwiliad ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer trefniant nawdd **cydweithredol** gydag Orchard a fydd yn ystyried thema y cytunwyd arni ar y cyd i sefydlu potensial nawdd.

## Ffrwd 3 - Model gweithredu newydd posibl

Wedi'i sefydlu gan, a'i gomisiynu ar ran CRhC, mae hwn yn archwiliad o opsiynau a allai gefnogi model gweithredu / seilwaith mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Roedd yn cydnabod bod tirlun y CRhC wedi gweithredu yn yr un ffordd ers nifer o flynyddoedd, er bod newidiadau cymdeithasol, strwythurol a pholisi sylweddol wedi bod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Nod y gwaith hwn yw ystyried dull mwy radical o weithredu o ran yr hyn a allai fod yn bosibl ac yn hyfyw, ac edrych a oes ffordd wahanol i'r sector weithredu yng Nghymru. Cynhyrchodd Human Engine, a gomisiynwyd i ymgymryd â'r gwaith hwn, gyfres o opsiynau i brocio'r meddwl i bartneriaid a Chwaraeon Cymru eu hystyried. Bydd y gwaith yn parhau i flwyddyn ariannol 2025-26.

# Pweru Dyfodol Chwaraeon yng Nghymru: Grant Arbed Ynni yn cael effaith barhaol

Yn 2023, dyfarnodd Chwaraeon Cymru bron i £1.4 miliwn mewn Grantiau Arbed Ynni i 79 o glybiau chwaraeon ledled Cymru, gan eu helpu i leihau costau ynni a'u heffaith amgylcheddol. Mae'r grantiau hyn wedi caniatáu i glybiau osod amrywiaeth o fesurau arbed ynni yn eu lle, fel paneli solar, goleuadau LED, storfeydd batri ac inswleiddio gwell, gan arwain at arbedion ariannol sylweddol a chynaliadwyedd hirdymor.

Derbyniodd Clwb Criced Llanelwy grant o £7,323 i osod storfa batri yn ei lle ar gyfer ei baneli solar. Dywedodd Gareth Williams: "Mae'r prosiect eisoes wedi gweld y clwb yn cyflawni gostyngiad sylweddol yn ein costau rhedeg misol yn ogystal â'n helpu ni hefyd i sicrhau ein bod yn lleihau ein hôl troed carbon."

Yng Nghastell-nedd, dyfarnwyd £22,902 i Glwb Bechgyn a Merched Giants Grave i osod paneli solar yn eu lle. Esboniodd Chris McKenzie: "Mae'r Grant Arbed Ynni yma wedi gwarchod dyfodol ein clwb ni a nawr gallwn ganolbwyntio ar anghenion pobl ifanc eto heb boeni am gostau ynni cynyddol bob blwyddyn."

Defnyddiodd Clwb Golff yr Wyddgrug grant o £13,666 i osod 16 o baneli solar ychwanegol yn eu lle. Meddai Deborah Barton: "Mae cael cyllid Chwaraeon Cymru wedi lleihau'r pwysau ac wedi ein galluogi ni i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithredu o ran ein hamgylchedd a hefyd, o ran arbedion cost ac effeithlonrwydd ynni."

Yng Nghlwb Hwylio'r Felinheli, cyllidodd grant o £21,003 baneli solar a goleuadau sy'n effeithlon o ran ynni. Dywedodd Noel Bristow:

"Mae'r paneli solar wedi bod yn bwnc trafod yn y clwb ac wedi gwneud i bobl feddwl am sut gallant leihau eu hôl troed carbon eu hunain."

Mae'r dystiolaeth yma'n tynnu sylw at sut mae'r Grant Arbed Ynni yn helpu clybiau chwaraeon ledled Cymru i fod yn hyfyw yn ariannol, a hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda hinsawdd.



# Sefydliad Gwyddor Perfformio Cymru (WIPS)

Mae WIPS yn bartneriaeth **gydweithredol** tair ffordd rhwng Chwaraeon Cymru, gwyddonwyr chwaraeon academaidd blaenllaw Cymru a phartneriaid perthnasol yn y diwydiant. Diben WIPS yw cynnal prosiectau gwyddor perfformiad cymhwysol amlddisgyblaethol, sy'n arwain y byd, yn unol â strategaethau Chwaraeon Cymru i wella perfformiad athletwyr a busnesau Cymru, gwella'r llwybr perfformiad, a meithrin capasiti yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, nod WIPS yw hyfforddi gwyddonwyr y dyfodol, a chynyddu **cydweithredu** strategol rhwng chwaraeon, y byd academaidd, a busnesau yng Nghymru yn y **tymor hir.**

Yn 2024, mae WIPS wedi gweithio ar brosiectau gyda chwaraeon ledled Cymru, fel y canlynol:

- **'Archwiliad o Effaith Platfform Maeth Digidol ar Wybodaeth Faeth ac Ymddygiad Maeth mewn Athletwyr'** - Gan ystyried egwyddorion datblygu athletwyr Chwaraeon Cymru, mae'r prosiect hwn yn edrych ar roi sylw i sut gallwn ni **arloesi** i ddarparu cefnogaeth faeth effeithiol i ystod ehangach o chwaraeon ac athletwyr gan ddefnyddio technoleg ddigidol i weithredu ymyriadau mewn ffordd amser-effeithiol a chost-effeithiol.
- **'Ymyriad addysg i wella gwybodaeth athletwyr chwaraeon tîm benywaidd am gylch y mislif a'u hymddygiad yn ystod y cylch'** - Mae hyd at 78% o athletwyr benywaidd yn teimlo bod eu cylch y mislif yn effeithio'n negyddol ar eu perfformiad mewn hyfforddiant a / neu gystadleuaeth. Canfu'r prosiect hwn y gallai addysg wella gwybodaeth athletwyr am gylch y mislif ond nad yw hyn ar ei ben ei hun yn effeithiol wrth newid ymddygiadau. Efallai y bydd angen i ymyriadau eraill, fel ffocws ar greu amgylchedd agored a chefnogol o amgylch cylch y mislif, gyd-fynd ag addysg er mwyn creu newid ymddygiad yn y **tymor hir.**
- **Llwybr datblygu talent merched a genethod: gwerthuso rhaglen yr academi merched.** Gwelwyd canlyniadau perfformiad cadarnhaol, cynnydd mewn datblygiad corfforol, a chwaraewyr mwy annibynnol, hyderus a gwydn yn rhaglen datblygu talent merched **arloesol** CBDC. Cafodd timau academi a ddewiswyd yn rhanbarthol eu **hintegreiddio** mewn cystadlaethau academi trwyddedig gwrywaidd priodol i oedran er mwyn cynyddu maint a lefel y gystadleuaeth y mae chwaraewyr benywaidd talentog yn ei phrofi ac i hwyluso cynnydd chwaraewyr i lefelau uwch y gêm.

# Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr Llwybr

Ar ôl diwedd llwyddiannus i Raglen Datblygu Hyfforddwyr Llwybr **arloesol** Chwaraeon Cymru, **cydweithrediad** dwy flynedd rhyngom ni a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, grŵp o saith hyfforddwr o'r byd badminton, marchogaeth, gymnasteg, rygbi, tennis a thriathlon fydd y Datblygwyr Hyfforddwyr cyntaf yn y DU i fod yn siartredig. Statws siartredig yw'r gydnabyddiaeth broffesiynol uchaf mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae rôl Datblygwr Hyfforddwyr yn elfen annatod o ddatblygu arferion hyfforddi. Rydym i gyd yn gwybod bod darparu hyfforddiant gwych yn sgil ac yn hanfodol i sut mae pobl ifanc yn profi chwaraeon. Er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc mewn llwybrau perfformiad yng Nghymru, mae angen hogi ein sgiliau hyfforddi, ein penderfyniadau a'n hymddygiadau yn fanwl. Bydd eu harbenigedd mewn 'hyfforddi hyfforddwyr' ar gael i chwaraeon eraill yng Nghymru bellach, i helpu hyfforddwyr i greu amgylcheddau llwybr a pherfformiad sy'n galluogi pobl ifanc i ffynnu.

# Dadansoddiad

Mae **cydweithredu** sylweddol â phartneriaid ac arbenigwyr allanol yn creu cydlynu gwell, canlyniadau a rennir a chyllid sy'n cael ei roi i sicrhau'r effaith fwyaf.

Ymgysylltwyd yn gadarnhaol ag adolygiad a datblygiad y Fframwaith Gallu gan ystod eang o randdeiliaid. Yn yr un modd, archwiliodd Prosiect Gwydnwch y Sector Chwaraeon gyfleoedd noddi ar y cyd â nifer o bartneriaid, i sicrhau adnoddau cyfunol i gael mwy o effaith. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau capasiti a gallu yn parhau i fod yn her i lawer o sefydliadau wrth iddynt ddatblygu'r gwaith hwn ar raddfa.

Mae gennym bedair Partneriaeth Chwaraeon sydd bellach yn gweithredu'n llawn. Er eu bod i gyd mewn gwahanol gamau yn eu datblygiad, mae'r partneriaethau'n ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eu rhanbarth, yn datblygu eu strategaethau, yn datblygu model comisiynu ac yn ymgysylltu â ffyrdd newydd o weithio.

Sicrhaodd Actif North Wales, y mwyaf datblygedig o'r rhain, gyllid o Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF) Llywodraeth y DU i brofi dull gweithredu sy'n seiliedig ar le ar gyfer gweithgarwch corfforol. Bydd hyn yn golygu gweithio gydag ystod eang o bartneriaid lleol. Mae'r dull o weithio'n ystyried y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu o ran cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, chwaraeon a symudiad yn eu hardaloedd lleol. Drwy symud pŵer o wasanaethau a sefydliadau, mae'n rhoi dinasyddion wrth galon sbarduno newid.



Gwnaethpwyd cynnydd cadarnhaol gyda'n gwaith eiriolaeth a **chydweithredol** ar chwaraeon ar gyfer iechyd **ataliol tymor hir**. Sefydlodd cyswllt ag Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfeiriad cliriach ar gyfer cydweithio. Mae'r ddau dîm arweinyddiaeth yn **cydweithredu** i gyflwyno memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer y gwaith hwn, sy'n cynnwys papur tystiolaeth a rennir ac amserlen ar gyfer eiriolaeth ar y cyd.

Gwelodd y dysgu o flwyddyn un yr ESG **gydweithredu** cynnar â Chyrff Rheoli Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol, a thrwy ddefnyddio'r model buddsoddi a dangosyddion daearyddol ac amddifadedd, mae'r cynllun wedi cefnogi 175 o glybiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda £3.1m o gyllid.

Mae'r cynnydd gyda'r amcan hwn wedi cyflymu yn 2024-25 ac roedd mwy o enghreifftiau da gyda'r potensial ar gyfer effaith fawr dros y **tymor hir.**

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae her i ni ddangos sut rydym yn **cydweithredu** â phartneriaid a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys sut i fod yn fodelau rôl da ar gyfer gweithio ar y cyd.

Mae angen i ni ystyried sut rydym yn cefnogi partneriaid i ddatblygu ymddiriedaeth a pheidio â thybio ei bod yn bodoli, er mwyn sicrhau **cydweithredu** ystyrlon.

Mae rhannu dysgu yn ffocws allweddol ar gyfer cyfathrebu o fewn Chwaraeon Cymru a gyda phartneriaid. Mae amrywiaeth o wahanol ddulliau yn eu lle, i gefnogi rhannu'r dysgu. Gyda'r cynnig llawer mwy estynedig hwn, y cam allweddol nesaf yw ystyried sut rydym yn galluogi'r rhai rydym yn gweithio gyda hwy i gael mynediad at eu dysgu mwyaf gwerthfawr eu hunain.

Wrth i ffynonellau data gynyddu a gwybodaeth gael ei defnyddio a'i gwerthfawrogi'n well, bydd angen i ni ystyried sut mae gwybodaeth mewn gwahanol gyfryngau yn cael ei chadw'n ddiogel a'i bod yn hygyrch neu a yw'n cael ei dileu yn seiliedig ar bolisi agored a thryloyw.

# #5 Arddangos manteision chwaraeon

Mae tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu'n llawn ledled Cymru.

**Astudiaeth Achos:**

## CIC Reel Minds: Taflu Lein, Dal Heddwch

Yn CIC Reel Minds, mae pysgota'n llawer mwy na champ - mae'n achubiaeth. Diolch i gefnogaeth gan gyllid y Loteri Genedlaethol, mae'r grŵp ar lawr gwlad hwn yn creu gofod diogel ledled de Cymru, lle gall unigolion ddod o hyd i iachâd, cymuned a phwrpas drwy'r weithred syml, sylfaenol o daflu lein.

Mae'r fenter hon yn enghraifft bwerus o sut mae modd ffrwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gefnogi iechyd meddwl. Drwy gynnig amgylchedd hygyrch, heb feirniadaeth, mae Reel Minds yn helpu cyfranogwyr i ailgysylltu - nid yn unig â byd natur, ond â hwy eu hunain a'i gilydd.



Rhannodd un cyfranogwr, **Robert Murphy:**

"Fe wnaeth dŵr fy helpu i i gadw'n iach. Mae'n anhygoel beth all cerdded allan gyda chriw o ffrindiau a hen wialen ei wneud – byd o wahaniaeth. Dyna beth yw pysgota i mi. Dim ond tawelwch meddwl ydw i eisiau ei ddal. Rydw i wedi cyflawni mwy mewn blwyddyn nag yn fy mywyd cyfan cyn hyn."

Dyma'r cyd-sylfaenydd **Dave Williams** yn adlewyrchu:

"Pysgota yw'r cyfrwng rydyn ni'n ei ddefnyddio i ddod â phobl at ei gilydd. Mae wedi rhoi pwrpas iddyn nhw… rhywbeth i edrych ymlaen ato."

Ychwanegodd **James Powderhill**, sydd hefyd yn gyd-sylfaenydd:

"Mae'n eich tynnu chi oddi wrth bopeth. Rydych chi'n gweld dynion yn dod at ei gilydd ac yn helpu ei gilydd fel un gymuned."

Disgrifiodd y cyfranogwr **Shane Tucker** y profiad fel un:

"Adfywiol".

# Gwerth economaidd chwaraeon

Eleni, gan **gydweithredu** ochr yn ochr â Sport England, Sport Northern Ireland, Sport Scotland, UK Sport a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), comisiynwyd adroddiad Gwerth Economaidd Chwaraeon newydd sbon. Cofnododd yr astudiaeth, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, yr effaith y mae chwaraeon yn ei chael yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar economïau'r DU.

Yng Nghymru, mae'r cyfraniad gwerth gros ychwanegol (GVA) uniongyrchol drwy chwaraeon yn cyfateb i **£1.9 biliwn** o bunnoedd. Gan gynnwys yr effeithiau ar i fyny yn y gadwyn werth (effaith anuniongyrchol chwaraeon ar ddiwydiannau economaidd ehangach), mae hyn yn cynyddu i **£2.9 biliwn** o bunnoedd. O gymharu, dangosodd y ffigurau blaenorol oedd ar gael o astudiaethau blaenorol Chwaraeon Cymru bod y GVA cysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru tua **£1.195 biliwn** o bunnoedd.

Mae effaith luosog nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chwaraeon (sy'n cofnodi faint mae'r effaith gyfan yn fwy na'r effaith uniongyrchol o ran gwerth) yn dangos bod pob punt a gynhyrchir mewn chwaraeon yn sbarduno 61 ceiniog arall yng ngweddill economi Cymru, sydd heb gysylltiadau uniongyrchol â chwaraeon. Mae hyn yn dangos y gwerth sydd gan yr economi chwaraeon i economi ehangach yn y genedl.

Amlygodd yr adroddiad hefyd bod gan Gymru **38,345** o unigolion **cyfwerth ag amser llawn** sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn chwaraeon. Amcangyfrifodd y ffigurau blaenorol yn 2019 bod y ffigur hwnnw'n 31,100 cyfwerth ag amser llawn, gan ddangos twf pwysig ar draws y sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Pan ystyrir cyflogaeth anuniongyrchol hefyd, h.y. swyddi nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chwaraeon ond sy'n dibynnu ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chwaraeon, mae **20,652** o swyddi pellach wedi'u nodi, gan ddangos bod y ffigurau cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru yn **58,997.**

Mae'r gwaith hwn wedi adeiladu ar astudiaethau yn y gorffennol yng Nghymru i roi darlun o werth economaidd cyfredol chwaraeon a sut mae hynny wedi dod i'r amlwg dros amser. Mae'r astudiaeth hefyd yn ategu'r astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a gynhyrchwyd yn 2023, gan sefydlu darlun cadarn a chyflawn o'r rôl annatod y mae chwaraeon yn ei chwarae ym mywyd Cymru.



# Traciwr Gweithgarwch Cymru

Mae Traciwr Gweithgarwch Cymru yn parhau i roi gwybodaeth werthfawr am dueddiadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled y wlad, gan ein helpu i ddeall lefelau cyfranogiad, cymhellion a rhwystrau oedolion. Mae canlyniadau 2024-25 wedi dangos cynnydd calonogol ochr yn ochr â heriau parhaus.

**Tueddiadau Cadarnhaol:**

Mae 29% o oedolion yn gwneud ymarfer corff ar bum diwrnod neu fwy yr wythnos – cynnydd o 24% ym mis Ionawr 2024. Mae'r gyfran nad yw'n gwneud unrhyw ymarfer corff wedi gostwng hefyd o 19% i 13%. Mae nifer cyfartalog y dyddiau actif yr wythnos wedi cynyddu o 2.86 ym mis Ionawr 2024 i 3.31 ym mis Ionawr 2025.

Mae cyfranogiad mewn campfeydd a dosbarthiadau ffitrwydd (28%) a rhedeg (23%) wedi codi, gan ragori ar nofio (20%). Mae cyfran yr oedolion sy'n nodi nad ydynt wedi gwneud unrhyw weithgarwch yn ystod y tri mis diwethaf yn 10%, y ffigur isaf a gofnodwyd hyd yma.

## Lefelau Cymhelliant a Hyder Cynyddol:

Mae'r hyder i fod yn actif wedi cyrraedd ei lefel uchaf, gyda 74% o oedolion yn teimlo eu bod yn gallu ymarfer. Mae iechyd yn parhau i fod yn ffactor pwysig, gyda 62% yn crybwyll manteision corfforol a 61% yn tynnu sylw at lesiant meddyliol.

Mae gosod nodau yn chwarae rhan allweddol ar ddechrau 2025, gyda 37% yn canolbwyntio ar reoli pwysau, 29% yn cynyddu camau dyddiol, a 28% yn gwella lefelau gweithgarwch cyffredinol. Mae hyn yn awgrymu cyfle i'r sector gefnogi gosod nodau strwythuredig ac atebolrwydd i gynnal ymgysylltu.

## Rhwystrau i gyfranogiad:

Mae llai o bobl bellach yn crybwyll diffyg amser fel rhwystr, gan ostwng o 34% ym mis Ionawr 2024 i 27% ym mis Ionawr 2025, gyda'r gwelliant mwyaf arwyddocaol ymhlith pobl 16 i 34 oed (i lawr o 51% i 36%). Fodd bynnag, pwysau amser sy'n dal i effeithio fwyaf ar oedolion iau a rhieni.

Mae cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn bryder, gyda 39% yn dweud bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar eu gallu i fod yn actif. Mae merched, oedolion iau, a rhieni – yn enwedig y rhai mewn ardaloedd mwy difreintiedig – yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

## Ystyriaethau sy'n Dod i'r Amlwg:

- **Digwyddiadau tywydd difrifol:** Adroddodd 41% am lai o weithgarwch oherwydd tywydd garw dros fisoedd y gaeaf, er bod 34% yn dweud nad oedd eu trefn arferol yn newid.
- **Technoleg ac Ymgysylltu:** Mae 63% yn defnyddio technoleg ffitrwydd (teclynnau i'w gwisgo, apiau a dyfeisiau eraill), gyda 77% yn dweud ei fod yn rhoi hwb i gymhelliant. Mae'r defnydd ar ei uchaf ymhlith oedolion iau, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch.

- **Pryderon Diogelwch:** Mae ymarfer corff yn ystod oriau tywyllach yn parhau i fod yn rhwystr, yn enwedig i ferched (28% o gymharu ag 8% o ddynion). Er nad yw 57% yn nodi unrhyw effaith, mae 15% wedi lleihau eu cyfranogiad oherwydd pryderon diogelwch.

### Edrych Ymlaen:

Mae'r data'n tynnu sylw at newid cadarnhaol mewn ymgysylltu a chymhelliant, gyda llai o rwystrau sy'n gysylltiedig ag amser. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol, pryderon diogelwch a heriau tymhorol yn parhau.

Gan edrych ymlaen, mae gan y sector gyfle i adeiladu ar y wybodaeth hon - manteisio ar dechnoleg, cefnogi cyfranogiad fforddiadwy, a rhoi sylw i bryderon diogelwch - i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n cael y cyfle i fod yn actif.

Drwy barhau i dracio'r tueddiadau hyn, gallwn weithio ar y cyd i greu amgylchedd sy'n cefnogi mwynhad gydol oes o chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bawb.



## Gweithio gyda Senedd Cymru



Cyflwynwyd ymatebion gennym i sawl ymgynghoriad eleni gyda'r ymchwiliadau'n amrywio o effaith toriadau mewn cyllid i strategaeth Iechyd Meddwl newydd Llywodraeth Cymru, cyflyrau cronig a mwy.

Mae ymateb i ymgynghoriadau'n rhoi cyfle i ni fel sefydliad fwydo i drafodaethau polisi lle gallwn eiriol dros y sector a thynnu sylw at ble gall chwaraeon wneud gwahaniaeth drwy gyfrwng ein bwriadau strategol a'n dyheadau polisi a ddatblygwyd gan ddefnyddio'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Rhai uchafbwyntiau allweddol o'r flwyddyn hon:

### Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi: Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Buom yn gweithio'n agos gyda sawl partner a gyllidir cyn cyflwyno ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y 'Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi'. Buom yn **cydweithredu** â phartneriaid sydd â'r arbenigedd a'r profiad perthnasol sydd eu hangen i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Dyma un o'r troeon cyntaf i ni lwyddo i ymgysylltu'n agos â phartneriaid perthnasol i gyflwyno ymateb **integredig** sy'n adlewyrchu barn y sector ac mae'n rhywbeth yr hoffem wneud mwy ohono yn y dyfodol.

## Ymchwiliad i ordewdra

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i ddatblygu perthnasoedd ag Aelodau Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, a'r clercod. Yn aml, rydym yn gweld chwaraeon yn cael eu hystyried yn y termau symlaf yn unig, yn hytrach nag o ran yr ateb polisi gwirioneddol ataliol ac **integredig** y gallant fod.

Cawsom wahoddiad i roi tystiolaeth lafar yn eu hymchwiliad i 'Anghydraddoldebau Iechyd: Gordewdra' yn dilyn ein tystiolaeth a'n hymgysylltu â'r ymchwiliad. Ar 29 Ionawr, buom yn cynrychioli'r sector yn y sesiwn dystiolaeth ochr yn ochr â Chwaraeon Anabledd Cymru.

Canolbwyntiodd trafodaethau allweddol ar yr angen am i chwaraeon a gweithgarwch corfforol fod wrth galon polisi; gwneud dewisiadau iach yn fwy hygyrch, pŵer iaith wrth hyrwyddo gweithgarwch, gwybodaeth o Draciwr Gweithgarwch Cymru, y dull ysgol gyfan o weithredu, modelau rhyngwladol fel mentrau dan arweiniad ysgolion Seland Newydd, a mwy.

Drwy ymddangos gerbron y Pwyllgor, nod Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru oedd sicrhau bod chwaraeon yn cael eu cydnabod fel ateb allweddol i iechyd **ataliol**, gan ddylanwadu ar bolisïau a buddsoddiad yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd dull unedig o weithredu sy'n sicrhau mwy o fynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bawb yn argymhelliad allweddol o'r ymchwiliad.

## Cyllideb Ddrafft ac effaith toriadau cyllido

Yn 2024-25, cawsom doriad cyllideb o 10.5% yn ystod y rownd gyllideb anodd iawn. Ym mhwyllgorau'r Senedd, treuliwyd cryn dipyn o amser yn craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ac yn gwerthuso effaith y toriadau cyllid blaenorol. Fe wnaethom ymateb i ymchwiliad y pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i 'effaith toriadau cyllid ar y celfyddydau a chwaraeon' gyda'n Cadeirydd a'n Prif Swyddog Gweithredol yn rhoi tystiolaeth lafar.

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor sylw at rai argymhellion allweddol, gan gynnwys llinell gyllideb **ataliol** a fyddai'n tynnu sylw at ddiwylliant a chwaraeon am y manteision rydym yn gwybod y gallant eu sicrhau i greu cenedl iachach a hapusach yn y **tymor hir**. Aethant ati hefyd i fesur cyllid diwylliannol yn erbyn gwledydd eraill o faint tebyg a chanfod bod Cymru'n cael ei chyllido islaw'r lefelau hyn.

Darparwyd tystiolaeth gennym hefyd i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, a oedd yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau bwrdd crwn rhanddeiliaid a chyflwyno ymateb ystyriol i'r ymgynghoriad, gan dynnu sylw at yr effaith bellach y byddai unrhyw doriadau cyllido yn y dyfodol yn ei chael ar y sector.

## Trafodaeth Iechyd Ataliol y Senedd

Ym mis Hydref, cynhaliodd Chwaraeon Cymru ddigwyddiad ar draws y sector yn y Senedd yn gofyn 'Sut mae defnyddio chwaraeon i fod yn adnodd iechyd ataliol gorau'r genedl?'




Croesawodd y digwyddiad, a noddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Aelodau'r Senedd, Partneriaid a ariennir, buddiolwyr buddsoddiad, Byrddau Iechyd, ALlau, staff Chwaraeon Cymru, y Trydydd Sector a mwy.

Cadeiriodd y newyddiadurwr, Rob Osborne, banel a oedd yn cynnwys yr Athro Larissa Davies a dynnodd sylw at ei gwaith ar elw cymdeithasol ar fuddsoddiad, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Derek Walker a siaradodd am yr angen am gyllidebu wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd **ataliol**, Claire Beynon o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a eiriolodd dros yr agenda **ataliol** a'n Cadeirydd ni, Tanni Grey-Thompson, a eiriolodd dros y sector, ond a ddefnyddiodd hefyd ei gwybodaeth am y pwnc o'i phrofiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Rydym wedi cydweithredu â'r sector a phartneriaid eraill i adolygu canlyniadau'r trafodaethau yn y digwyddiad ac wedi defnyddio'r dysgu a'r dyhead i chwaraeon a gweithgarwch corfforol fod wrth wraidd trafodaethau polisi yn y maes hwn i siapio ein gwaith eiriolaeth wrth edrych ymlaen at etholiadau'r Senedd yn 2026.

## Ymgysylltu ag aelodau

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i gefnogi Aelodau'r Senedd a Senedd y DU i ymweld â chlybiau yn eu hetholaeth leol er mwyn iddynt weld effaith ein cyllid. Roedd aelodau fel arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, Jane Dodds (a ymwelodd â Chanolfan Gymunedol Ystradgynlais) wrth eu bodd yn gweld manteision ein cyllid drostynt eu hunain ac roeddent yn awyddus i eiriol dros chwaraeon cyn y ddadl ar gyllideb 2025-26.

Cafodd AS Llafur San Steffan a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, Ruth Jones, y cyfle i weld sut roedd cyllid ar gyfer Clwb Pêl-rwyd Gorllewin Casnewydd wedi helpu i gynyddu nifer y merched ifanc sy'n cymryd rhan a sut roeddent wedi targedu eu darpariaeth at bobl sy'n byw mewn ardaloedd gyda lefel uchel o amddifadedd.

Yn ogystal ag ymweliadau â chlybiau, fe wnaethom hefyd fynychu cynadleddau Gwanwyn y pleidiau a mynychu cyfarfodydd un i un gydag ASau i gynyddu eu gwybodaeth am Chwaraeon Cymru a'n rôl a'n cyfrifoldebau fel corff cyhoeddus, i drafod pynciau penodol fel iechyd **ataliol** neu i ddilyn ymholiadau penodol.

# Gwirfoddoli: Calon Athletau Cymru

Ym Mhencampwriaethau Dan Do Cymru D13, D15, D20 a Phara 2025, a gynhaliwyd gan Athletau Cymru, roedd ysbryd y gwirfoddoli yr un mor ysbrydoledig â'r perfformiadau ar y trac. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud digwyddiadau fel hyn yn bosibl – gan roi eu hamser, eu hegni a'u hangerdd i sicrhau bod pob manylyn yn rhedeg yn esmwyth.

O feithrin sgiliau newydd i greu cyfeillgarwch a rhoi yn ôl i'r gymuned, mae manteision gwirfoddoli'n bellgyrhaeddol.

I **Gareth Robbins**, mae dyfarnu'n destun balchder aruthrol:

"Dydi'r digwyddiadau yma ddim yn digwydd heb wirfoddolwyr. Mae bod yn rhan o dîm Cymru fel gwirfoddolwr yn rhoi cymaint o falchder i mi ag unrhyw gyflawniadau rhedeg pan oeddwn i'n iau."

Dyma sut mae **Avi Madhav**, gwirfoddolwr ystafell alwadau, yn adlewyrchu:

"Rydw i'n credu ei fod yn rhyw fath o ymwybyddiaeth ofalgar. Rhoi yn ôl i'r gymuned a bod gyda phobl. Mae'n rôl anhunanol iawn."

Tynnodd **Zoe Holloway**, y Cydlynydd Swyddogion a Gwirfoddolwyr, sylw at y canlynol:

"Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i gynnal y digwyddiad, yn y cyfnod cyn y digwyddiad, yn ystod y paratoi... Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn athletau a hebddyn nhw, 'fydden ni ddim yn gallu cynnal unrhyw ddigwyddiadau."

Ychwanegodd **David Hillier,** sy'n rheoli'r Canlyniadau Maes Byw:

"Nid dim ond yr athletwyr ydyn ni'n eu helpu... mae bod yma i mi yn hynod bwysig. 'Fyddwn i ddim yn ei newid am y byd."

Mae eu hymroddiad yn parhau i bweru llwyddiant Athletau Cymru.

# Dadansoddiad

Rydym wedi gwneud ymrwymiad lefel uchel i eiriol dros fanteision **ataliol** chwaraeon i gefnogi gwelliant yn iechyd y genedl yn y **tymor hir.** Gyda ffocws ar weithio gyda chyrff fel Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r ymgysylltu cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol, ond bydd y wir effaith yn dod i'r amlwg yn ystod y 12 mis nesaf drwy gyfrwng y canlynol:

- Cryfhau partneriaethau ar draws sectorau.
- Sbarduno canlyniadau gwell yng nghyfraniad chwaraeon at strategaethau iechyd ataliol.
- Ymrwymiadau i argymhellion Chwaraeon Cymru mewn maniffestos Pleidiau yn arwain at etholiadau Senedd Cymru 2026.

Cynhaliodd Chwaraeon Cymru ddigwyddiad llwyddiannus i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn y Senedd ar 1 Hydref 2024, yn edrych ar 'sut gall chwaraeon fod yn adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol y genedl.' Dilynwyd hyn gan feithrin perthnasoedd pellach gyda sefydliadau a all fod yn eiriolwyr a chydweithredwyr ar gyfer negeseuon iechyd ataliol.

Roedd ein cyflawni **arloesol** ar ymrwymiadau'r Llywodraeth, fel y gofynion i ni yn y cynllun 'Balch o'r Mislif', yn gyfres o drafodaethau bwrdd crwn lle buom yn gweithio gyda'r Llywodraeth i hyrwyddo ac ymestyn y sgwrs y tu hwnt i'r sector chwaraeon i drafodaethau polisi ehangach. Mae hyn yn tynnu sylw at gryfder y bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru, gan ddangos sut gall **cydweithredu** traws-sector sbarduno newid ystyrlon.

Mae cam cyntaf arddull newydd o werthuso ar gyfer y rhaglen waith 60+ wedi bod yn llwyddiannus. Gan weithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Iechyd, Gweithgarwch a Llesiant (Prifysgol Fetropolitan Caerdydd), mae ymchwil wedi dechrau i fapio systemau a chasglu gwybodaeth ansoddol. Mae partneriaid wedi dangos ymrwymiad i brofi dulliau newydd a rhannu dysgu.

Arweiniodd yr ymarfer **cydweithredu** mawr gyda holl Gynghorau Chwaraeon y DU a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) at adroddiad Gwerth Economaidd Chwaraeon newydd a luniwyd ar sail yr astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a gynhyrchwyd yn 2023, gan sefydlu darlun cadarn a chyflawn o'r rôl annatod y mae chwaraeon yn ei chwarae ym mywyd Cymru.

Drwy gydol y cylch adolygu, gofynnwyd a oedd enghreifftiau o sefydliadau eraill yn defnyddio negeseuon Chwaraeon Cymru yn eu rhwydweithiau, gan ddangos ein bod wedi dadlau bod eraill yn gwerthfawrogi chwaraeon. Roedd yr enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynlluniau Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru yn nodi Chwaraeon Cymru fel partner cyflawni allweddol, y Fframwaith Sylfeini a grybwyllir yn Adolygiad Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Chwarae, defnyddiau lluosog o wybodaeth Chwaraeon Cymru yn Senedd Cymru a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn hyrwyddo barn y Prif Swyddogion Meddygol, sef 'pe bai gweithgarwch corfforol yn gyffur, byddai'n cael ei ystyried yn gyffur rhyfeddol'.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

A yw ein negeseuon yn ddigon clir? Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i wella ein negeseuon er mwyn ceisio gwella eiriolaeth ar y cyd.

Mae'r adroddiadau ar fudd cymdeithasol ac elw economaidd ar fuddsoddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata oedolion. Mae angen i Chwaraeon Cymru ystyried a ddylid gwneud mwy i ddangos beth yw'r budd i blant a phobl ifanc.

# #6 Sefydliad o werth mawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch, sy'n ymdrechu i orgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf drwy ein staff gwerthfawr.

**Astudiaeth Achos:**

## Hwb Dadansoddi Perfformiad Tîm Prydain Fawr yn dychwelyd i Gaerdydd

Yr haf diwethaf, daeth Ystafell Taf yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd yn Hwb Dadansoddi Perfformiad Tîm Prydain Fawr unwaith eto yn ystod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Paris 2024.

O 26 Gorffennaf, darparodd chwe dadansoddwr perfformiad yng Nghaerdydd, gan gynnwys dau o Athrofa Chwaraeon Cymru, sef Carys Jones a Jen Roach, adborth fideo byw a chymorth technegol i athletwyr a hyfforddwyr a oedd yn cystadlu ym Mharis. Mae'r gwaith hwn y tu ôl i'r llenni yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu Tîm Prydain Fawr i berfformio ar ei orau ar lwyfan chwaraeon mwyaf y byd.

Dyma'r ail dro i Chwaraeon Cymru gynnal yr hwb, yn dilyn gwneud hynny am y tro cyntaf yn ystod Gemau Tokyo 2021.

Ar y pryd, eglurodd **Carys:**

"Roedd y Gemau diwethaf yn ystod cyfnod pan oedd cyfyngiadau COVID yn parhau i fod yn eu lle. O gyfuno hynny gyda'r gwahaniaeth amser, gallai fod yn dawel iawn ar adegau! Bydd yn wych gallu cael mwy o bobl yn cymryd rhan eleni – byddwn yn gallu gweithio'n agosach gyda'n gilydd ac yn agosach at y cynrychiolwyr o'r chwaraeon hefyd. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at amgylchedd mwy cymdeithasol."

Roedd **Jen** hefyd yn rhan o'r Gemau Paralympaidd diwethaf a dywedodd ar y pryd:

"Rydw i'n gyffrous iawn am fod yn cefnogi gyda dadansoddi perfformiad yn ystod y Gemau Paralympaidd eleni hefyd. Fe fyddaf yn mynd i Lundain i gefnogi ein para-athletwyr ni ym Mharis yn nes ymlaen ym mis Awst."

Mae cyflwyno'r hwb yn gofyn am gynllunio, offer a gwaith tîm helaeth. Ychwanegodd **Carys:**

"Rhaid i mi ddweud diolch yn fawr iawn i'n cydweithwyr ni yn y tîm arlwyo, pawb yn Tech Solutions a'r tîm yn y Ganolfan Genedlaethol. Heb eu gwaith caled nhw, 'fydden ni ddim yn gallu cynnal yr Hwb Dadansoddi yma, ac mae'n golygu llawer i bawb yn y tîm ein bod ni'n cael eu cefnogaeth."



# Bioamrywiaeth yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Mae tîm tiroedd Chwaraeon Cymru yn awyddus i gynyddu bioamrywiaeth ein safle yng Ngerddi Sophia a bod yn fodelau rôl wrth arwain chwaraeon i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur ac **atal** colledion pellach i'n hamgylchedd naturiol.

Gan **gydweithredu** mewn partneriaeth ag arbenigwyr amgylcheddol o Wasanaeth Parciau Cyngor Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, mae tîm y tiroedd wedi gosod 10 bocs nythu newydd mewn nifer o leoliadau ar y safle, sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys gwenoliaid duon a chnocell y coed.

Er mwyn gwella'r ardal bresennol o flodau gwyllt, bydd gwestai trychfilod yn cael eu lleoli a bydd gwelliannau eraill i'r cynefin a hygyrchedd y safle, fel creu pentyrrau o goed a llwybrau mynediad i famaliaid bach.

Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo sut gall y sector chwaraeon gefnogi byd natur a chyfrannu at fioamrywiaeth. Mae cynlluniau ar droed ar gyfer ardal ger derbynfa Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru i fod yn arddangosfa o'r gwaith bioamrywiaeth gwych ar y safle ac i roi gwybod i bawb sy'n ymweld â'r ganolfan sut gallant hwy a'u clybiau a'u sefydliad cenedlaethol wneud newidiadau bach i roi hwb i fyd natur. Bydd yr ardal ymarferol hon gyda byrddau gwybodaeth cyhoeddus yn cysylltu â thudalen we hefyd gyda mwy o wybodaeth a chefnogaeth.

# Datblygu Fframwaith Gallu diwygiedig

Gan **gydweithredu** â'r holl bartneriaid sy'n derbyn cyllid blynyddol, fe wnaethom adolygu'r Fframwaith Gallu. Fel rhan annatod o'n Dull Buddsoddi, sy'n darparu cyllid blynyddol o fwy na £20 miliwn, nod y Fframwaith yw adeiladu ar y fersiwn flaenorol drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gennym hyder mewn sefydliadau wrth fuddsoddi arian cyhoeddus.
- Cefnogi gwelliant parhaus o ran llywodraethu partneriaid, fel eu bod yn gynaliadwy ac wedi'u paratoi yn y ffordd orau i gyflawni eu potensial; a
- Cefnogi datblygiad byrddau ac arweinwyr i greu diwylliannau cadarnhaol a chynhwysol.

Rhoddodd mwy na 25 o sefydliadau partner adborth craff drwy weithdai a thrafodaethau i gynorthwyo gyda datblygu un fframwaith unigol a symlach ar gyfer y sector chwaraeon yng Nghymru. Gwnaed cyfraniadau gwerthfawr hefyd gan arbenigwyr pwnc ac ymgynghorwyr sy'n cefnogi'r sector, a thrwy ddefnyddio dysgu gan sefydliadau sydd wedi profi heriau llywodraethu proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r fframwaith newydd ac wedi'i ddiweddaru yn cydnabod rôl hanfodol bwysig diwylliant, ymddygiadau ac arweinyddiaeth. Mae diwylliant yn rhan greiddiol o'r fframwaith ac yn thema drawsbynciol sy'n hyrwyddo manteision 'pobl dda yn gwneud pethau da'.

Mae'r Fframwaith yn annog sefydliadau partner i ddangos bod ganddynt werthoedd ac ymddygiadau wedi'u hymgorffori ledled y sefydliad, a fydd, yn ei dro, yn sbarduno diwylliant cadarnhaol a chynhwysol sy'n amlwg mewn sefydliadau hynod lwyddiannus.

Mae'r Fframwaith newydd yn cynnwys pum egwyddor allweddol, pob un â meysydd craidd o'r risg fwyaf, y dylai pob sefydliad eu cael yn eu lle, a meysydd arfer da i gefnogi gwelliant parhaus fel bod sefydliadau'n gallu anelu at fod yn well fyth. Mae pob un o'r elfennau craidd a datblygiadol wedi'u hategu gan 'Pam', 'Beth' a 'Sut' i helpu i egluro'r ddealltwriaeth ar gyfer pob elfen. Mae'r pum egwyddor allweddol yn cwmpasu'r canlynol:

1. Cydymffurfiaeth Sefydliadol a Chyfreithiol
2. Pobl a Diwylliannau
3. Dirnadaeth, Ymgysylltu a Strategaeth
4. Sefydliad sy'n Cael ei Reoli'n Effeithiol
5. Cyllid

Rydym yn edrych ymlaen nawr at barhau i weithio gyda phartneriaid yn 2025-26 i weithredu'r fframwaith newydd a chefnogi eu datblygiad a'u gwelliant.

# Llywodraethu a Datblygu Pobl: Dyrchafu Rhagoriaeth

Mae'r Panel Arbenigol Llywodraethu ac Arweinyddiaeth **arloesol**, sy'n cynnwys ymgynghorwyr arbenigol ac a sefydlwyd i gynnig cymorth rhagweithiol ac adweithiol i bartneriaid Chwaraeon Cymru, yn cynnig llawer mwy o wasanaethau bellach. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar y Fframwaith Gallu, gan gynnwys ailddrafftio erthyglau, cynllunio strategaeth, ac arsylwadau a datblygiadau bwrdd.

Yn 2024-25, mae ymgynghorwyr arbenigol wedi cyflawni 21 o brosiectau yn llwyddiannus, pob un yn cyfrannu at ddatblygiad sefydliadau unigol neu'r sector cyfan drwy arferion gorau. Mae'r gefnogaeth gynhwysfawr hon wedi cyrraedd 15 o bartneriaid drwy ymgysylltu un i un ac wedi effeithio ar y sector cyfan ar brosiectau grŵp niferus.

### Astudiaeth Achos: Rhagolygon Ariannol

Un enghraifft nodedig o'n cefnogaeth effeithiol yw'r cymorth un i un a ddarperir i bartner ym maes rhagolygon ariannol. Cynigiodd Landsker, arbenigwr ariannol o'n panel, 24 awr o gefnogaeth benodol. Grymusodd yr ymgynghorydd arbenigol y partner gyda hyder a hyfedredd newydd drwy gyd-greu a defnyddio ei adnodd cynllunio ariannol pwrpasol, gan ei alluogi i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

### Astudiaeth Achos: Mentrau Datblygu Byrddau

Yn ogystal, mae pedwar CRhC wedi elwa'n fawr o gyfarwyddyd personol ymgynghorwyr unigol sy'n gweithio'n agos gyda'u Prif Swyddogion Gweithredol a'u Cadeiryddion i wella eu byrddau. O ystyried mai gan fyrddau mae'r awdurdod gwneud penderfyniadau eithaf mewn sefydliadau, mae'n hanfodol sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithlon, yn gytbwys, ac yn ymgorffori amrywiaeth. Cafodd y pedwar prosiect pwrpasol hyn eu teilwra i fynd i'r afael â heriau unigryw pob sefydliad, gan ddarparu adlewyrchu craff ar swyddi a swyddogaethau presennol y bwrdd, cynnig argymhellion strategol ar gyfer datblygu, a chyflwyno persbectif annibynnol ar gyfleoedd twf.

## Effaith Gadarnhaol ac Adborth

Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd wedi casglu adborth hynod gadarnhaol gan bob partner, gan ddatgelu gwybodaeth werthfawr a allai fod wedi'u hanwybyddu fel arall. O ganlyniad, mae partneriaid Chwaraeon Cymru yn ffynnu bellach gyda strategaethau datblygu clir sydd wedi'u hanelu at welliant parhaus.

# Cefnogaeth a Sicrwydd Diogelu i bartneriaid

Rydym yn gweithio'n agos gydag, ac yn comisiynu, arbenigwyr diogelu i sicrhau bod gan ein partneriaid fynediad at y cyngor a'r gefnogaeth briodol sy'n berthnasol i'w gweithgaredd chwaraeon. Rydym yn comisiynu'r Uned Diogelu Plant mewn Chwaraeon (CPSU) ac Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT) i helpu i gefnogi a datblygu safonau ac arferion diogelu ein partneriaid.

Mae'r ddau sefydliad hefyd yn rhoi sicrwydd i Chwaraeon Cymru fel ein bod yn gallu buddsoddi arian cyhoeddus gyda hyder yn ein sefydliadau partner.

Rydym yn cyllido CPSU ac ACT i hwyluso Fforwm Cefnogi Swyddogion Arweiniol (LOSF) rheolaidd ar y cyd. Pwrpas y fforwm hwn yw cynnig lle diogel i Swyddogion Diogelu Arweiniol o'n sefydliadau partner rannu dysgu ac arfer gorau, trafod heriau a rhwystrau yn ogystal â chael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a DPP. Mae'r Fforwm yn cynnig dull mwy unedig i'r sector o ran diogelu plant ac oedolion mewn chwaraeon.

Mae'r gefnogaeth a'r datblygiad cynyddol o ran diogelu partneriaid wedi bod yn flaenoriaeth i ni dros y 2 i 3 blynedd diwethaf. Roedd angen lleihau risg ar draws y sector a sicrhau bod pawb yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r angen hwn yn parhau, ac mae diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

**O ganlyniad, rydym wedi gwneud y canlynol:**

- ☑ Cynyddu cyllid i'n partneriaethau gyda CPSU ac ACT.
- ☑ Sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael i bartneriaid fel eu bod yn gallu rheoli a datblygu diogelu i safon uwch.
- ☑ Blaenoriaethu proses sicrwydd lem i ddeall capasiti, gallu a hyder partneriaid yn well.
- ☑ Gweithio gydag ACT i godi proffil a chynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion, gan sicrhau bod ein partneriaid yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymru.
- ☑ Sylwi ar gynnydd yn y flaenoriaeth i ddiogelu yn ein sefydliadau partner.
- ☑ Cydweithredu'n gadarnhaol ar draws cynghorau chwaraeon y gwledydd cartref, yn enwedig Lloegr ac UK Sport.

Rydym eisiau sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â chwaraeon yn cael profiad diogel a phleserus. Rydym yn gwybod nad yw hyn bob amser yn wir, ac mae gwaith yn cael ei ystyried ar lefel y DU yn y ffordd y mae chwaraeon diogel yn cael eu cyflwyno ar draws y gwledydd cartref. Byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r gwaith hwn a'i fonitro.

Ar hyn o bryd rydym mewn cyfnod cwmpasu a datblygu a byddwn yn parhau i archwilio'r ffyrdd gorau o gefnogi ein partneriaid i ddatblygu arferion diogelu.

Mae hyn yn cynnwys ehangu ein cylch gwaith i weithio gyda'n Partneriaid Cenedlaethol a Phartneriaethau Chwaraeon. Rydym yn craffu ar y sicrwydd sydd ei angen i fuddsoddi arian cyhoeddus yn ddiogel, a sut byddwn yn gweithio gyda chynghorau chwaraeon y gwledydd cartref eraill fel bod gwell cydweithio'n cael ei fabwysiadu yn ein dull o ddiogelu'r sector.



## Dyma ein hamcanion:

- Sicrhau bod yr holl bartneriaid sy'n cael eu cyllido'n cynnal a / neu'n datblygu lefelau hanfodol o sicrwydd sy'n gymesur â chapasiti a gallu'r sefydliad.
- Cefnogi partneriaid i greu cynlluniau gweithredu diogelu effeithiol a chadarn sy'n datblygu ac yn gwella eu darpariaeth diogelu.
- Gweithio gyda phartneriaid cyn unrhyw newidiadau posibl i sicrwydd a datblygiad diogelu mewn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar yng Nghymru a Lloegr, a gwaith Chwaraeon Diogel y DU, er mwyn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth.



# Fframwaith Symud at Gynhwysiant

Mae Symud at Gynhwysiant yn fenter **gydweithredol** gan Gynghorau Chwaraeon y DU i ddarparu adnoddau a chefnogaeth i sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Nod y Fframwaith Symud at Gynhwysiant yw cefnogi'r sefydliadau hyn i symud tuag at sector mwy amrywiol, cynhwysol a chyfrifol yn gymdeithasol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys 5 colofn (Diwylliant, Arweinyddiaeth, Cyfathrebu, Profiad, Perthynas) ac adnodd diagnostig sy'n cefnogi sefydliadau i hunanadlewyrchu a gwella'n barhaus.

Lansiodd Cynghorau Chwaraeon y DU Fframwaith Symud at Gynhwysiant yn haf 2023 ac fel rhan o'r gefnogaeth a ddarperir drwy'r fframwaith, gall sefydliadau gael mynediad at fentora dros gyfnod o 12 mis gan arbenigwr CACh.

Yng Nghymru, derbyniodd ein criw cyntaf o 7 partner[1] gyfnodau sefydlu yn y fframwaith a neilltuwyd mentoriaid iddynt ym mis Chwefror 2024. Gosodwyd rhai mewn grwpiau a derbyniodd rhai gefnogaeth fentora un i un i dreialu gwahanol ddulliau. Elwodd y sefydliadau'n fawr o weithio gyda'u cyfoedion ac mae hynny wedi siapio'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid a'n mentoriaid yn y dyfodol.

Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnal 'Dathlu Cynhwysiant' – ffordd i bartneriaid arddangos yr holl arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gwych maent yn eu hymgorffori yn eu sefydliad. Caiff eu mentrau eu cofnodi a'u cyflwyno i sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'u rhannu ar draws sector chwaraeon y DU. Bydd yr Urdd yn cael sylw yn yr ail ddarn Dathlu Cynhwysiant ym mis Ebrill 2025 o dan y golofn Arweinyddiaeth a gwahoddir sefydliadau ledled y DU i fynychu a dysgu am yr holl arferion gwych maent wedi'u hymgorffori.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno gweithdai ar sut i ymgysylltu â'r fframwaith, o ddull hunangyfarwyddo a sut i greu a defnyddio EQIAs i sicrhau bod sefydliadau'n ystyried cynhwysiant ym mhob maes o'u gwaith. Mae hyn yn cael ei droi'n adnodd a fydd yn cael ei rannu a'i ychwanegu at y wefan Symud at Gynhwysiant.

Mae'r wefan yn cynnal y fframwaith, yn ogystal â mentrau eraill a rennir fel TRARIIS a'r Cyfarwyddyd ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol mewn Chwaraeon. Bydd y wefan yn dod yn hwb ar gyfer adnoddau a chefnogaeth CACh i'r sector wrth i'r Cynghorau Chwaraeon barhau i ddatblygu ei chynnwys a'i swyddogaeth sy'n cael eu harwain gan ddata, gwybodaeth ac adborth o'r sector.

Mae 12 sefydliad yng Nghymru wedi cwblhau'r adnodd diagnostig hunanadlewyrchu hyd yma, gan gynnwys Chwaraeon Cymru fel sefydliad. Rydym hefyd yn mynd drwy'r fframwaith ochr yn ochr â'n partneriaid. Byddwn yn dechrau defnyddio'r data hyn i greu adnoddau a chefnogaeth bellach i'n partneriaid a'r sector, yn ogystal ag ystyried ffyrdd y gallwn annog mwy o gydweithredu.

[1] Athletau Cymru, Tennis Cymru, Bocsio Cymru, Yr Urdd, Chwaraeon Anabledd Cymru, Nofio Cymru, Criced Cymru.

Bydd ein criw nesaf o 12 partner[2] yn gweithio mewn parau a neilltuwyd eu mentoriaid iddynt ym mis Ionawr 2025.

Gan gyfeirio at y Model ar gyfer Mesur Effaith a Llwyddiant, rydym ni a'n partneriaid yn parhau i weithredu yn y camau tymor byr ar hyn o bryd, gyda rhai heb ymgysylltu a dangos ymrwymiad gwirioneddol i CACh eto, tra bo eraill sydd wedi cael mynediad at y gefnogaeth fentora wedi dechrau gwella eu cysylltiadau ar draws y sector.

**Model ar gyfer Mesur Effaith a Llwyddiant**

**Tymor byr**

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 |
| --- | --- | --- | --- |
| Ymgysylltu ac ymrwymiad | Cynnydd gyda gwelliant a datblygiad | Dysgu a rhannu (arfer gorau) | Cysylltiadau gwell ar draws y sector |

**Tymor hir**

| Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
| --- | --- | --- | --- |
| Arfer gorau a fabwysiadwyd gan bartneriaid | 'Sector cynhwysol' cyfunol a chydweithredol | Cynnydd mewn cyfranogiad a chadw athletwyr | Arfer parhaus a chynaliadwy |

# Canfyddiadau Allweddol o'r Adnodd Diagnostig

I gwblhau'r adnodd diagnostig, fe wnaethom sefydlu gweithgor gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad. Tynnodd canlyniadau'r adnodd diagnostig sylw at sawl maes o gynnydd:

- **Arweinyddiaeth:** Mae aelodaeth a'r gwaith o recriwtio i'r bwrdd yn deg, yn agored, ac yn weddol gynrychioliadol, gyda rhywfaint o brofiad byw. Mae recriwtio arweinyddiaeth yn llai cynrychioliadol, gyda llai o enghreifftiau o brofiad byw.
- Mae penderfyniadau strategol yn defnyddio tystiolaeth ac ymgynghori â'r gymuned, ond mae angen gwella'r ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac asesiadau effaith cynharach. Mae canlyniadau CACh wedi'u hymgorffori mewn cynllunio, ond mae angen atebolrwydd cliriach, cyfathrebu arweinyddiaeth gwell, a chanlyniadau mwy diriaethol.
- **Diwylliant:** Rydym yn meithrin cynhwysiant drwy arolygon, adborth, a mentrau dan arweiniad staff fel Adlewyrchu a Chysylltu.

[2] Badminton Cymru, Golff Cymru, Paddle Cymru, Rygbi'r Gynghrair Cymru, Sboncen Cymru, Y Bartneriaeth Awyr Agored, Pêl-rwyd Cymru, Gymnasteg Cymru, Beicio Cymru, Pêl-fasged Cymru, Gemau'r Gymanwlad, Tennis Bwrdd Cymru.

Mae polisïau'n cefnogi amgylchedd diogel, ond mae rhai staff yn petruso cyn adrodd am ddigwyddiadau. Mae angen gwella hyder wrth godi materion a dangos camau a gymerwyd. Mae CACh wedi'i ymgorffori yn ein gwerthoedd, ond byddai integreiddio dyfnach yn rhan o arferion dyddiol yn gwella amlygrwydd. Mae recriwtio wedi amrywio ein gweithlu, er bod y gynrychiolaeth anabledd yn parhau i ddangos bwlch. Rydym yn gwella'n barhaus gan ddefnyddio dirnadaeth ond gallem ganolbwyntio ar feysydd CACh penodol i gael mwy o effaith.

- **Profiad:** Mae arolygon ac ymgysylltu â'r gymuned yn helpu i nodi rhwystrau mynediad a llywio penderfyniadau. Mae rhaglenni a mentrau gweithredu cadarnhaol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Er bod ymdrechion yn sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant mewn amgylcheddau darparu, gellir gwneud mwy i ddeall anghenion amrywiol ein poblogaeth. Mae ein diwylliant dysgu yn sbarduno gwelliannau cynhwysiant, ond mae angen ymgysylltu'n ddyfnach â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- **Perthnasoedd:** Rydym yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i sbarduno newid CACh, gan ddefnyddio buddsoddiad fel catalydd. Er ein bod yn herio arferion gwael, mae angen eglurder ar ein rôl o ran darparu cyfleoedd dysgu. Rydym yn hyrwyddo CACh, yn dileu rhwystrau, ac yn hyrwyddo partneriaethau llwyddiannus drwy ddysgu ar y cyd. Byddai cynyddu ymwybyddiaeth o rwydweithiau rhanddeiliaid ac ehangu'r dysgu ar draws staff yn gwella'r effaith.
- **Cyfathrebu:** Mae ein cyfathrebu corfforaethol yn cyd-fynd â strategaeth a dull CACh Chwaraeon Cymru o weithredu, gan sicrhau bod negeseuon wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd a llwyfannau. Mae gennym nifer o randdeiliaid a chynulleidfaoedd ac mae'n bwysig ein bod yn deall y cynulleidfaoedd rydym eisiau eu targedu gyda'n prosiectau a'n meysydd gwaith penodol a'r gwahanol swyddogaethau y mae gwahanol grwpiau'n eu chwarae i sicrhau bod ein cyfathrebu craidd mor effeithiol â phosibl. Rydym wedi cynyddu delweddaeth o brosiectau a gefnogir i wella'r cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar CACh. Mae ein canllaw iaith gynhwysol yn bodoli ond mae angen cyfathrebu a diweddariadau ehangach arno wrth i'r iaith esblygu.

## Camau Gweithredu yn y Dyfodol a'r Camau Nesaf

Mae cwblhau Adnodd Diagnostig Symud at Gynhwysiant wedi bod yn ymarfer gwerthfawr i Chwaraeon Cymru, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i greu tirlun chwaraeon cwbl gynhwysol. Bydd y wybodaeth a geir yn sbarduno camau gweithredu ystyrlon, gan sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru yn groesawgar, yn hygyrch, ac yn gynrychioliadol o bob cymuned. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu mewn polisïau, buddsoddiadau a phartneriaethau yn y dyfodol, wrth i Chwaraeon Cymru barhau i hyrwyddo cynhwysiant ar draws y sector.

## Caffi Adlewyrchu a Chysylltu

Ail-lansiwyd y Caffi Adlewyrchu a Chysylltu **arloesol** ym mis Ionawr 2025, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd eto â'i nod gwreiddiol - darparu gofod i gydweithwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon ar bynciau sy'n effeithio ar eu bywydau proffesiynol a phersonol.

Er bod y cofrestriadau cychwynnol yn addawol, roedd y presenoldeb wedyn yn is nag a ragwelwyd, gyda mwyafrif y cyfranogwyr yn dod o blith y rhai oedd eisoes yn gweithio o amgylch diwylliant sefydliadol. Tynnodd yr adborth sylw at rwystrau allweddol:

- Ansicrwydd ynghylch perthnasedd: Roedd rhai cydweithwyr yn ansicr a oedd y sesiynau o fudd iddynt.
- Gwrthdaro amserlennu: Roedd staff gweithredol yn ei chael yn anodd mynychu oherwydd patrymau shifftiau.
- Baich gwaith ychwanegol ymddangosiadol: Roedd rhai yn ei weld fel "rhywbeth arall i'w wneud" yn hytrach na chyfle i ddatblygu.

I roi sylw i hyn, bydd y sesiynau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar bynciau pwerus a pherthnasol ac yn cyfathrebu manteision clir i gydweithwyr. Mae ymgysylltu ag arweinwyr yn allweddol hefyd, fel y gwelir mewn mentrau eraill. Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon wyth wythnos ymlaen llaw o leiaf i wella amserlennu a phresenoldeb.

## Llyfrgell Ddynol

Wedi'i lansio ym mis Chwefror 2025, mae'r Llyfrgell Ddynol wedi bod yn fenter drawsnewidiol, gan feithrin empathi, cysylltiad a dealltwriaeth ymhlith cydweithwyr. Mae'n caniatáu i unigolion rannu straeon personol tra bo eraill yn cymryd rhan fel "darllenwyr" mewn gofod diogel, sgyrsiol.

Daeth mwy nag 20 o gyfranogwyr i'r sesiwn gyntaf, gyda'r adborth yn tynnu sylw at ei heffaith emosiynol:

"Doeddwn i erioed yn gwybod hynny amdanat ti, ac rydw i'n dy adnabod di ers tro byd."

"Doeddwn i ddim yn gwybod dy fod di wedi mynd drwy gymaint; rwyt ti'n ysbrydoledig ac mor gryf."

Un ffactor llwyddiant allweddol oedd trefnu bod y sesiwn yn cyd-fynd â diwrnod cynllunio strategol, gan ddangos bod cynnwys arweinyddiaeth yn rhoi hwb sylweddol i gyfranogiad. Fodd bynnag, roedd rheoli amser yn her, ac roedd rhai cydweithwyr yn betrus am fynychu oherwydd pryderon ynghylch rhannu profiadau personol. Bydd y sesiynau yn y dyfodol yn cynnwys fformat mwy strwythuredig, a bydd y negeseuon yn pwysleisio bod rhannu yn ddewisol.

Yn y dyfodol, bydd y Llyfrgell Ddynol yn cael ei chynnal bob deufis, am yn ail ag Adlewyrchu a Chysylltu. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i edrych ar fersiwn ar-lein i wella hygyrchedd, er bod fformat hybrid yn cyflwyno heriau technegol.

# Y dull o weithredu ar draws y system gyda pherfformiad

Yn 2024, mae AChC wedi miniogi ei ffocws, gan ailddiffinio ei phwrpas i sbarduno newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau gwyddoniaeth a meddygaeth chwaraeon (SSSM) yn effeithio ar chwaraeon llwybr a perfformiad yng Nghymru. Rydym nid yn unig yn darparu cefnogaeth i athletwyr – ond hefyd rydym yn mynd i'r afael â'r heriau systematig sy'n eu hatal dro ar ôl tro rhag cyflawni eu potensial.

Mae ein huchelgais yn syml ond yn feiddgar: creu'r system chwaraeon fwyaf gwybodus ar sail gwyddoniaeth yn y byd, gan alluogi pob athletwr yng Nghymru i ffynnu a gwneud 'ennill yn dda' yn fwy tebygol. Mae hyn yn golygu esblygu o fodel sy'n darparu cefnogaeth un i un i athletwyr yn bennaf i un sy'n mynd i'r afael â phroblemau sy'n codi dro ar ôl tro mewn chwaraeon perfformiad - heriau a allai, o gael eu datrys, drawsnewid yr amgylcheddau hyfforddi ar gyfer cannoedd o athletwyr ar draws nifer o chwaraeon.

Mae'r newid hwn mewn dull o weithredu'n cael effaith eisoes. Rydym yn **cydweithredu'n** agosach â phartneriaid cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar brosiectau sy'n gwella gwybodaeth hyfforddi, strwythurau cefnogi athletwyr, a strategaethau perfformiad ar draws y system. Rydym hefyd yn herio normau hen ffasiwn, gan wthio am ddiwylliant chwaraeon lle nad yw anafiadau'n cael eu derbyn fel dim ond rhan o'r broses, lle nad yw lleisiau athletwyr yn cael eu clywed yn unig ond bod gweithredu yn eu cylch, a lle mae cefnogaeth perfformiad yn rhagweithiol, nid yn adweithiol. Nid cynnal y status quo yw nod ein gwaith ni, ond ysgogi newid ystyrlon, **tymor hir.**

Wrth i ni barhau â'r siwrnai hon, mae ein hyder yn tyfu. Drwy gamu i'r gofod hwn, rydym nid yn unig yn mireinio sut rydym yn gweithio ond hefyd yn diffinio sut dylai system berfformiad o'r radd flaenaf edrych. Mae'r gwaith hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer system sy'n ddoethach, yn fwy cynhwysol, ac yn fwy effeithiol – system lle mae gan bob athletwr yng Nghymru y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn.

# System Archebu'r Ganolfan Genedlaethol

Aethom ati i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid a'r profiad gyda'n system archebu yn y ganolfan genedlaethol, gyda'r nod ychwanegol o gyflawni achrediad Cyber Essentials Plus, a oedd yn angenrheidiol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru a sicrhau bod y system wedi'i **hintegreiddio** ar gyfer anghenion cwsmeriaid mewnol ac allanol yn y dyfodol, ar gyfer y **tymor hir**.

Bydd defnyddwyr newydd a phresennol yn gallu sefydlu aelodaeth, archebu cyfleusterau a rheoli eu cyfrif ar-lein. Ar ôl ei ffurfweddu a'i phrofi'n llawn, cytunir ar ddyddiad "mynd yn fyw" a bydd yn darparu gwerth ar unwaith. Mae'r nodweddion ar-lein newydd hyn yn gyfeillgar i ffonau symudol, yn ddwyieithog ac yn gwbl addasadwy. Bydd y cam nesaf yn cynnwys sefydlu ap symudol.




Mae'r system archebu llety yn fyw bellach, gan arwain at broses lyfnach a mwy effeithlon. Mae cysylltiadau â sianeli trydydd parti ar-lein, fel Booking.com, Expedia a Hotels.com, ar gael a byddant yn ystyriaeth ar gyfer cam nesaf y prosiect hwn.

Nid uwchraddio, datgomisiynu a chaffael systemau archebu'r ganolfan oedd yr unig ragofynion ar gyfer achrediad Cyber Essential Plus llwyddiannus. Roedd angen i'r tîm datrysiadau technegol wneud newidiadau llwyr i'r seilwaith, gan ddadgomisiynu gweinyddion, uwchraddio gwasanaethau, mudo platfformau gwaddol a threfnu i gyfnewid tua 150 o liniaduron, a hynny i gyd gan sicrhau cyn lleied â phosib o darfu ar wasanaethau.

Mae'r ymdrechion i gyflawni achrediad Cyber Essentials Plus yn adlewyrchu ymrwymiad i welliannau cadarn i ddiogelwch a seilwaith, gan sicrhau stad ddigidol ddiogel a gwydn.

# Adnewyddu brand

Rydym eisiau i'n brand fod mor hygyrch â phosibl i bawb. Yn 2023, cynhaliwyd adolygiad brand a amlygodd rai cyfleoedd ar gyfer gwneud addasiadau i'r brand presennol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael profiad cadarnhaol a chynhwysol wrth ymgysylltu â'n sefydliad. Yn 2025, aethom ati i **arloesi** er mwyn gwneud newidiadau i'n teipograffeg drwy gael gwared ar brif lythrennau a llythrennau italig er mwyn sicrhau darllen haws, ehangu ein palet lliw gyda dewisiadau cyferbyniad gwell i fodloni safonau hygyrchedd yn well, a mabwysiadu logo un lliw ar gyfer eglurder a symlrwydd.

I gefnogi cyflwyno'r newidiadau hyn, datblygwyd cyfres frandio **integredig**, ganolog ar gyfer staff lle gallant gael mynediad at ganllawiau brand, templedi ac adnoddau wedi'u diweddaru. Rydym wedi bod yn ymgysylltu'n agos â staff i'w cefnogi i ddeall beth sydd ar gael, ble gallant ddod o hyd iddo a sut i'w ddefnyddio yn eu gwaith bob dydd.

# Cynaliadwyedd yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Un o'n mentrau allweddol yn ein darpariaeth arlwyo yw cyflwyno Leanpath©, system sy'n ein helpu i dracio a lleihau gwastraff bwyd. Yn ogystal, gosodwyd system monitro tymheredd Navitas ym mhob oergell a rhewgell. Mae'r cyfuniad o'r adnoddau hyn eisoes wedi arwain at ostyngiad amlwg yn faint o fwyd rydym yn ei daflu.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i leihau gwastraff mewn meysydd eraill. Yng nghaffi Hwb, rydym wedi newid cwpanau tafladwy am rai tsieina, sy'n lleihau gwastraff.

Gan weithio'n agos gyda'n cyflenwyr bwyd, rydym wedi llwyddo i leihau nifer y danfoniadau bob wythnos yn sylweddol. Mae'r newid hwn yn helpu i leihau ein hôl troed carbon drwy leihau'r allyriadau o drafnidiaeth. Yn ogystal, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad i gaffael yn lleol. Drwy ffurfio partneriaeth â chyflenwr bwyd allweddol, rydym bellach yn gallu prynu ein holl lysiau gan ffermwyr Cymru a chael 80% o'n cynhyrchion cig o Gymru, gan leihau ein hallyriadau.

Yn ein cyfleusterau llety, rydym hefyd wedi cyfnewid nwyddau ymolchi untro am opsiynau y mae posib eu hail-lenwi ac wedi cael gwared ar gwpanau tafladwy.

# Pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed

Ers 1994, mae'r Loteri Genedlaethol wedi chwarae rhan allweddol wrth alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu. Dros y tri degawd diwethaf, mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi mwy na £353m o gyllid y loteri mewn 30,264 o brosiectau, gan wella bywydau cymaint o bobl drwy chwaraeon.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn cyllido athletwyr elitaidd Cymru yn uniongyrchol, yn cefnogi'r clybiau ar lawr gwlad maent yn dod drwyddynt, ac mae'r arian hefyd wedi cael ei fuddsoddi mewn creu cyfleusterau chwaraeon o safon byd.

Ym mis Tachwedd 2024, daeth y byd chwaraeon yng Nghymru at ei gilydd i ddathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed. Gweithiodd grŵp o staff gyda'i gilydd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl y Loteri Genedlaethol ledled y sefydliad a gweithio ar y cyd â'n partneriaid i edrych ar sut i ddefnyddio'r dathliadau pen-blwydd yn 30 oed i ddatblygu dull mewnol o gydnabod a hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol sy'n gynaliadwy y tu hwnt i fis Tachwedd 2024 ar gyfer y **tymor hir.**

Roedd y gweithgarwch i nodi'r pen-blwydd yn cynnwys y canlynol:

- Mwy na 120 o staff a phartneriaid yn mynychu digwyddiad dathlu ar thema'r Loteri Genedlaethol yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.
- Amrywiaeth o gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwefan yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol y Loteri Genedlaethol ar chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys fideo yn dangos y bocsiwr Lauren Price yn ymweld â dau glwb sydd wedi cael cyllid gan y Loteri Genedlaethol ger ei thref enedigol, Caerffili, erthygl gan Tanni Grey-Thompson yn adlewyrchu ar bwysigrwydd cyllid y loteri, ac erthygl yn rhestru 30 ffordd y mae chwaraeon Cymru wedi elwa o gyllid y Loteri Genedlaethol.
- Mwy o bartneriaid yn rhannu negeseuon allweddol y Loteri Genedlaethol ac yn arddangos logo'r loteri ar eu deunyddiau drwy gydol y flwyddyn.
- Defnyddio Gemau Paris 2024 i dynnu sylw at sut mae cyllid y Loteri Genedlaethol yn cefnogi athletwyr Cymru, o lawr gwlad i'r lefel uchaf.
- Cefnogi digwyddiad pen-blwydd yn 30 oed **cydweithredol** yn y Senedd a threfnu ymweliadau i Aelodau'r Senedd â phrosiectau sydd wedi cael cyllid gan y Loteri Genedlaethol, gan dynnu sylw at y gwariant a'r effaith ar lefel etholaeth.
- Gwnaed darn sylweddol o waith i lanhau data cyllido hanesyddol.
- Ymweliadau gan staff â phrosiectau sydd wedi cael cyllid gan y Loteri Genedlaethol ledled Cymru i weld y gwahaniaeth mae'r cyllid yn ei wneud.

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y dathliadau, mae pob rhan o'r sefydliad wedi ymrwymo i barhau ag amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau bod y cynnydd sylweddol a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn ddechrau ar ddull mwy rhagweithiol, wedi'i gynllunio o gydnabod y Loteri Genedlaethol ar draws y sefydliad a gyda'r partneriaid rydym yn eu cyllido. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y platfform y disgwylir i'r gweithredwr newydd Allwyn ei ddarparu, sydd wedi'i gynllunio i adrodd stori bwysig am effaith cyllid y Loteri Genedlaethol.

# Dadansoddiad

Rydym yn parhau i holi am safbwyntiau allanol ac annibynnol ar ein gwasanaethau i sicrhau gwelliant parhaus a safonau llywodraethu uchel. Un enghraifft nodedig yw'r adolygiad annibynnol o broses recriwtio Chwaraeon Cymru, a gomisiynwyd i asesu cynhwysiant a hygyrchedd. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i welliant yn seiliedig ar ddata ac adborth ac ymgorffori egwyddorion CACh ym mhob agwedd ar ddatblygiad sefydliadol.

Casgliad yr adolygiad oedd bod "sylfaen gadarn ond ... sawl maes sydd angen gwelliannau strategol."

Mae mwyafrif yr argymhellion wedi cael eu derbyn a'u cynllunio i'w gweithredu naill ai yn y tymor byr neu ganolig. Darperir goruchwyliaeth gan y Pwyllgor CACh, sy'n is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd.

Darparodd archwiliad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o aelodau'r Senedd adborth cadarnhaol ar rôl Chwaraeon Cymru fel dosbarthwr dibynadwy'r Loteri Genedlaethol, gyda mwy o ymwybyddiaeth o effaith y cyllid.

Drwy ofyn am a defnyddio gwybodaeth a dirnadaeth berthnasol, mae ein tîm arlwyo wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella cynaliadwyedd. Cyflawnwyd hyn drwy leihau gwastraff drwy weithredu'r system Leanpath a thrwy ymgysylltu â chyflenwyr i ddeall eu milltiroedd bwyd a'u hallyriadau trafnidiaeth yn well.

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi parhau i ddefnyddio cwmni allanol i roi adborth yn seiliedig ar ymweliadau siopwyr dirgel. Roedd sgoriau cyfartalog 2024-25 yn 90%, ychydig yn is na chyfartaledd y flwyddyn flaenorol o 95%, ac roedd ambell sgôr wedi ymweliadau unigol ychydig o dan 85%. Cynhaliodd y tîm gynllun gwella gwasanaeth a chafodd gwaith adnewyddu ei wneud yn yr ystafelloedd llety yn seiliedig ar yr adborth.

Rydym eisiau deall barn ein partneriaid am Chwaraeon Cymru yn well yn 2025-26. Mae arbrawf wedi dechrau i rannu'r wybodaeth sydd gennym gyda phob partner, gyda'r nod o wella ein gwaith partneriaeth a'n perthnasoedd.

Yn 2024, cwblhawyd Holiadur Cydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg ('CyG') gennym. Roedd yr adborth gan CyG yn gadarnhaol gyda dim ond mân argymhellion a nodwyd bod Chwaraeon Cymru yn gweithio'n barhaus gyda CyG i gynnal a chynyddu ein gwasanaethau iaith Gymraeg.

Mae prosiect wedi dechrau i fapio ein holl wasanaethau. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar ofynion cydymffurfio neu oherwydd bod rhywbeth wedi torri. Bydd yr ymarfer hwn yn helpu i ystyried anghenion strategol mewn gwelliannau gwasanaeth.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi barn flynyddol gadarnhaol, gan gynnal y duedd hon ers 2015-16.

Drwy gydol y cylch adolygu, gwelwyd mwy o enghreifftiau o ddulliau systematig o geisio a defnyddio barn annibynnol ar ddarparu gwasanaeth nag yn 2023-24.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae angen i ni ystyried, pan fydd craffu wedi bod ar wasanaethau, sut byddwn yn gwybod a yw'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn llwyddiannus.

Mae cael asesiad allanol o wasanaeth fel Safonau'r Iaith Gymraeg yn ddefnyddiol, ond byddai hefyd yn helpu i ddeall lefelau hyder staff wrth gymhwyso'r safonau hynny.

Pa brosesau sydd eu hangen i olrhain cynnydd dros amser?



# Amcanion Cydraddoldeb

Ystyriodd y cylch adolygu hefyd y cynnydd y mae Chwaraeon Cymru wedi'i wneud tuag at ein hamcanion cydraddoldeb.

## Ymgorfforі gwerthoedd cydraddoldeb yn niwylliant y sefydliad yn Chwaraeon Cymru

Rydym wedi parhau i ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh) yn greiddiol yn ein diwylliant sefydliadol. Mae lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024–28 wedi nodi cyfres newydd o flaenoriaethau, gan gynnwys ymrwymiadau ar draws y sector fel yr Adolygiad Recriwtio o'r Dechrau i'r Diwedd. Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn sail eisoes i gynlluniau i gryfhau arferion recriwtio cynhwysol ar draws Chwaraeon Cymru ac i rannu arfer da mewn perthynas â recriwtio cynhwysol gyda'r sector chwaraeon ehangach.

Un datblygiad allweddol eleni oedd datblygu a chyflwyno hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth, wedi'i wreiddio yn yr egwyddorion a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru ('ARWAP'). Rydym wedi mabwysiadu dull "hyfforddi'r hyfforddwr" o weithredu, gan alluogi staff i hwyluso sesiynau yn fewnol a helpu i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gynaliadwy, yn hygyrch, wedi'i wreiddio yn ein cyd-destun a bod y sgiliau a'r wybodaeth hyfforddi'n cael eu cadw'n fewnol. Mae'r sesiynau hyn wedi derbyn adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr.

Fe wnaethom hefyd gynnal hunanasesiad gan ddefnyddio'r Fframwaith Symud at Gynhwysiant, gan helpu i nodi cryfderau presennol a meysydd i'w datblygu ymhellach. Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd ag ymweliadau meincnodi â Gwledydd Cartref eraill, gan gynnwys ymweliad gwerthfawr ag Inverclyde, a amlygodd ddulliau o ddarparu cynhwysol a hygyrch - yn enwedig mewn cyfleusterau pwrpasol.

Rydym wedi gwneud cynnydd gyda diwallu gofynion y Model Cymdeithasol o Anabledd, drwy archwiliadau hygyrchedd corfforol ac Archwiliad Perthyn ehangach. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'n gwefan a'n cyfathrebu digidol, lle mae hygyrchedd digidol wedi dod yn ffocws allweddol.

**Dangosyddion Cadarnhaol o Gynnydd:**

- Hyrwyddo profiadau gyrfa i blant a phobl ifanc o gymunedau dan anfantais yn hanesyddol.
- Cydweithredu â Llywodraeth Cymru i wella amrywiaeth mewn recriwtio i fyrddau.
- Parhau i fonitro amrywiaeth y gweithlu a recriwtio i nodi tueddiadau cadarnhaol a meysydd o dangynrychiolaeth.

**Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:**

- Sicrhau bod gwerthoedd cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio'n llawn i wneud penderfyniadau ar draws pob agwedd ar y sefydliad.
- Annog ymgysylltu cadarn â mentrau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth CACh.
- Ymestyn arfer cynhwysol y tu hwnt i dimau mewnol i ddylanwadu ar bartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector.
- Ystyried y budd posibl o gael arweinydd pwrpasol ar gyfer diwylliant sefydliadol, i helpu i yrru a chydlynu'r gwaith hwn wrth iddo gael ei ymgorffori ar draws y sefydliad.

## Dileu bylchau cyflog

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog a sicrhau strwythur cyflog teg a chyfiawn ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Nododd adroddiad bwlch cyflog y rhywiau ym mis Mawrth 2025 fwlch cyflog canolrifol o 8.7%, a bwlch cymedrig o 8.3%, y ddau ohonynt yn cynrychioli cynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (canolrif o 8.0%, cymedr o 7.4%). Er bod ein bwlch yn parhau i fod yn is na chyfartaledd cenedlaethol y DU, mae'r newid hwn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu parhaus, wedi'i dargedu.

**Dangosyddion Cadarnhaol o Gynnydd**

- Mae'r opsiynau gweithio hyblyg wedi'u gwella ar draws y sefydliad, gan gefnogi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a helpu i gadw a denu talent amrywiol - yn enwedig merched a gofalwyr.
- Mae rhaglenni graddedigion a rhaglenni gyrfa gynnar, fel y Cynllun Graddedigion Gwyddoniaeth Chwaraeon, yn darparu pwyntiau mynediad strwythuredig i swyddi lle mae rhai grwpiau wedi cael eu tangynrychioli'n hanesyddol.
- Mae datblygu arweinyddiaeth wedi'i dargedu, gan gynnwys mentora, ar gyfer cydweithwyr benywaidd yn cefnogi cynnydd ac yn helpu i greu cyflenwad o arweinwyr mwy cynrychioliadol.

**Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:**

- Mynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth barhaus o dalent amrywiol mewn uwch swyddi arwain.

- Datblygu ac ymgorffori strategaethau tymor hir sy'n cefnogi cynnydd teg a gwelliant cynaliadwy mewn cydraddoldeb cyflog.
- Cydnabod bod newid ystyrlon yn y maes hwn yn gymhleth ac y bydd angen ymdrech gyson a chyfunol ar draws y sefydliad.

## Ymgorfforі caffael cymdeithasol gyfrifol yn Chwaraeon Cymru

Rydym wedi cymryd camau sylweddol tuag at ymgorffori gwerth cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant yn ein prosesau caffael. Mae datblygu Strategaeth Gaffael newydd, sy'n cyd-fynd â Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Gaffael (2023), wedi atgyfnerthu'r ymrwymiad i lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

**Dangosyddion Cadarnhaol o Gynnydd:**

- Adolygiad Aeddfedrwydd Caffael Cynaliadwy (SPMR), a gynhaliwyd gyda WRAP Cymru, a helpodd i nodi cryfderau a chyfleoedd ar gyfer gwella.
- Adolygiad o'r rhwystrau y mae busnesau bach ac amrywiol yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â phrosesau caffael Chwaraeon Cymru.
- Datblygu canllawiau caffael newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd.
- Secondiad tymor byr wedi'i gynllunio i gryfhau arbenigedd caffael mewnol a chefnogi gweithredu'r dulliau newydd hyn.
- Profi defnyddwyr cychwynnol, sydd wedi darparu adborth gwerthfawr ar gyfer mireinio prosesau a dogfennaeth.
- Mae'r camau hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer ymgorffori caffael cymdeithasol gyfrifol yn ddyfnach yn ein sefydliad. Unwaith y bydd y ddogfennaeth newydd wedi'i chwblhau gyda mewnbwn gan y sawl a benodir i'r secondiad, bydd rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff yn cael ei chyflwyno i gefnogi cymhwyso cyson ar draws y sefydliad.

**Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:**

- Sicrhau mynediad at gyfleoedd caffael i gyflenwyr bach, lleol ac amrywiol.
- Ymgorffori meini prawf gwerth cymdeithasol ystyrlon yn gyson ar draws pob gweithgaredd caffael.
- Cydbwyso arloesedd â chydymffurfiaeth a thryloywder mewn arferion caffael.

## Meithrin diwylliant o welliant parhaus o fewnChwaraeon Cymru a gyda sefydliadau partner

Rydym wedi parhau i gryfhau diwylliant o welliant parhaus, o fewn y sefydliad ac ar draws sector chwaraeon ehangach Cymru. Adlewyrchir hyn yn ein defnydd parhaus o'r Fframwaith Symud at Gynhwysiant, sy'n helpu i arwain ein harferion, ochr yn ochr â chwblhau adroddiad monitro ARWAP, sy'n parhau i lywio ein gwaith gwrth-hiliaeth ac ymgysylltu.

Eleni, rydym wedi cyd-greu Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer Partneriaethau Chwaraeon mewn cydweithrediad ag Actif North Wales, gan gynnig casgliad o adnoddau i'r partneriaethau rhanbarthol eu teilwra i'w cyd-destunau penodol. Mae hyn yn adlewyrchu ein nod i gefnogi dysgu a rennir a darpariaeth hyblyg, leol.

Rydym hefyd wedi ymgorffori prosesau gwella drwy strwythurau mewnol, gan gynnwys cylchoedd cynllunio busnes sy'n cefnogi cydweithredu ar draws timau, dolenni adborth parhaus, a chofnodion dysgu, gan alluogi timau i adlewyrchu ac adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith. Mae'r dulliau hyn o weithredu'n ein helpu ni i fireinio'r ddarpariaeth a'r broses o wneud penderfyniadau ar draws y sefydliad.

**Dangosyddion Cynnydd Cadarnhaol:**

- Profi defnyddwyr a gwelliannau hygyrchedd i'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, gan sicrhau casglu data mwy cynhwysol a chynrychioliadol gan bobl ifanc.
- Cyhoeddi a hyrwyddo'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Recriwtio Cynhwysol, a gynhyrchwyd i gefnogi dysgu a gwelliant ledled y sector.
- Datblygiad parhaus rôl y Cynghorydd Buddsoddi Cymunedol, sydd bellach wedi'i ehangu i ddwy rôl, gan helpu cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli i gael mynediad gwell at gyllid Chwaraeon Cymru — gan gynnwys cyngor ar gyfleoedd cyllido rhaglenni a chyfalaf. Mae sefydliadau a chymunedau wedi cael eu cefnogi ym mhob rhanbarth o Gymru ac ar gyfer sefydliadau amrywiaeth cenedlaethol gyda nifer o geisiadau llwyddiannus wedi'u cyflawni gan y rhai y mae'r cynghorwyr wedi gweithio gyda hwy.
- Twf menter Ramadan Hanner Nos, a esblygodd yn seiliedig ar lais y cyfranogwyr i gynnig sesiynau i ferched yn unig mewn lleoliadau ychwanegol y tu hwnt i Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Arweiniodd hyn hefyd at wella'r cydweithredu â Chyrff Rheoli Cenedlaethol wrth ddarparu gweithgareddau wedi'u teilwra i ferched.
- Rydym hefyd yn datblygu ein harfer mewnol drwy waith fel datblygu'r Fframwaith Gallu, a gynlluniwyd ar y cyd â phartneriaid i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y byd real. Mae hyn yn ein helpu i fod yn fodel rôl o arfer cynhwysol ac adlewyrchol ac rydym yn rhannu ein dysgu fwyfwy gyda'r sector, gan gynnwys yr hyn rydym wedi'i wneud yn dda a lle mae angen gwaith pellach.

**Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach:**

- Cefnogi ymgorffori arfer da yn gyson ar draws y sector chwaraeon ehangach yng Nghymru.
- Cynnal ymgysylltu tymor hir gan bartneriaid â gwaith amrywiaeth a chynhwysiant.
- Cydbwyso diwylliant gwella â gofynion cyflawni ar draws timau a phartneriaid.

# Adrodd ar safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i bennu dyletswyddau i bersonau gydymffurfio â safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Disodlodd y Safonau Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer Chwaraeon Cymru ar 25 Ionawr 2017.

Mae'r adran hon yn asesu ein perfformiad yn erbyn ein Safonau Cymraeg, ac yn rhoi manylion y gwaith partneriaeth rydym wedi'i gwblhau dros y 12 mis diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n cael eu pennu i ni ac yn cydnabod y rôl bwysig y gall chwaraeon ei chwarae wrth gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

## Y Gymraeg mewn Chwaraeon

Rydym wedi parhau â'n partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg (CCG) i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ymestyn eu darpariaeth yn y Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru yn gweld y gwaith hwn fel rhan bwysig o'n dyletswyddau iaith Gymraeg drwy annog datblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i gymryd rhan mewn chwaraeon. Cyflawnodd y CRhC cyntaf yng Nghymru gydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg yn 2023.

Cyflawnodd Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru y dyfarniad i nodi eu hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac i ymestyn eu gwasanaethau Cymraeg.

Mae chwe CRhC a Phartner Cenedlaethol yn gweithio tuag at yr achrediad hwn gyda chefnogaeth gan y tîm Hybu. Mae staff Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r broses Beth Sy'n Bwysig gyda'n partneriaid i olrhain parodrwydd ac i gefnogi gwaith mewn partneriaeth â chydweithwyr CyG.

**Yr Urdd:**

Fel elfen allweddol o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni helaeth yr Urdd ac yn buddsoddi ynddynt i ddarparu cyfleoedd yn y Gymraeg mewn chwaraeon a hamdden. Dyma grynodeb o rai o gyflawniadau'r Urdd yn 2024-25:

- Darpariaeth gyflwyniadol ar ôl ysgol: Agor darpariaeth i ysgolion newydd wrth i'r cronfeydd gwirfoddolwyr dyfu.
- Clybiau Cymunedol a darpariaeth yn ystod y Gwyliau: ehangu ar y cynnig o ddarpariaeth gymunedol benodol drwy gynnwys gweithgareddau chwaraeon haf; Ffocws parhaus ar chwaraeon a chanlyniadau wedi'u targedu fel merched genethod.

- Gwirfoddolwyr a hyfforddwyr: hyfforddiant parhaus a datblygu hyfforddwyr a gwirfoddolwyr newydd; Mae rôl prentis newydd wedi dechrau i gefnogi digwyddiadau.
- Gweithio gyda'r ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach ('AB') mewn ardaloedd penodol i greu gweithlu ifanc o wirfoddolwyr a all gefnogi twf prosiectau cynhwysiant. Mae gwersi Cymraeg wedi dechrau bellach ar gyfer y gwirfoddolwyr newydd cyn iddynt gael eu cyfeirio i gefnogi darpariaeth gymunedol.
- Cydweithio â'r sector AB wrth gyflwyno digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol
- Cystadlaethau Rhanbarthol a digwyddiadau Cenedlaethol: Parhau i gynnal sawl cystadleuaeth ranbarthol gyda'r lefelau cyfranogiad yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae ysgolion a cholegau yn parhau i fod ag awydd mawr i gymryd rhan mewn cystadlaethau cynhwysol, sy'n cael eu cynnal yn dda. Mae digwyddiadau wedi'u cynllunio i gysylltu â digwyddiadau chwaraeon mawr, proffil uchel.
- Gweithio mewn partneriaeth i alluogi rhaglen o gefnogaeth un i un yn y pwll sydd wedyn yn gwneud rhaglenni addysgu nofio yn gwbl gynhwysol. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i staff hefyd bellach i alluogi darparu cefnogaeth un i un yn y pwll.
- Datblygu Staff: Parhau i sicrhau bod gan staff gymwysterau perthnasol i gyflwyno safonau uchel o ddarpariaeth; darparu cyrsiau hyfforddi / arweinwyr i staff yn fewnol.

**Cyllid grant**

Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu chwaraeon i bobl yn ddwyieithog drwy ein cynlluniau buddsoddi.

**Cronfa Cymru Actif**

O'r 725 o ddyfarniadau o Gronfa Cymru Actif a wnaed yn 2024-25, mae 57 i sefydliadau sy'n mynd i'r afael â maes blaenoriaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer buddsoddi yn yr Iaith Gymraeg. Roedd y dyfarniadau hyn yn dod i gyfanswm o £394,397 allan o gyfanswm cyllid Cymru Actif o £4.19m.

Newidiwyd sail y dyfarniadau uchod yn erbyn y meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi tua diwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Er mwyn cynyddu hygyrchedd ein dyfarniadau cymunedol a'u gwneud yn fwy cyfeillgar i ymgeiswyr, mae ein tîm buddsoddi bellach yn pennu'r meysydd blaenoriaeth y mae dyfarniad yn mynd i'r afael â hwy ar sail craffu ar y cais a chyswllt â'r ymgeisydd.

## Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg

Mae'r effaith bosibl ar siaradwyr Cymraeg yn cael ei hystyried a'i chrynhoi fel adran safonol o Asesiad Effaith Chwaraeon Cymru a thempledi papurau'r Bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o bob newid newydd, neu newid arwyddocaol, mewn polisi ac fel rhan o ysgrifennu pob papur bwrdd.

Er nad yw'r iaith Gymraeg yn nodwedd warchodedig, mae ein Pwyllgor CACh yn ystyried ein gwaith yn y maes hwn. Mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd amrywiaeth ac mae llawer o synergedd rhwng y camau gweithredu cadarnhaol ar amcanion cydraddoldeb Chwaraeon Cymru a dyletswyddau'r iaith Gymraeg.



Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ('ARAC') Chwaraeon Cymru yn adolygu ein cydymffurfiaeth yn y maes hwn hefyd.

## Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

At ddiben yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu crynodeb o'r camau a gymerwyd i gadw at 'Ddosbarth o Safonau' fel Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol. Nid yw'r adroddiad hwn yn hollgynhwysfawr o gwbl ac nid yw'n darparu diweddariad am sut rydym yn cadw at bob safon sy'n berthnasol i ni ond ei nod yw rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a'r Comisiynydd am y camau sydd wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau.

**Darparu gwasanaethau**

Rydym wedi gohirio gweithredu system archebu Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru nes bod y gallu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn gwbl weithredol, oherwydd heriau technegol y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae ein brand diwygiedig yn weladwy iawn ar arwyddion newydd sy'n cydymffurfio'n llawn â'n safonau gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg.

Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad y bydd unrhyw swyddi gwag yn y dderbynfa yn benodiadau lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Yn ogystal, mae swyddi eraill yn ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid wedi cael y statws hwn hefyd, i gynyddu cwmpas ein darpariaeth Gymraeg wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, hysbysebwyd un swydd Derbynnydd ac un swydd Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y sail hon a llwyddwyd i benodi i'r ddwy gyda siaradwyr Cymraeg.

Rydym wedi datblygu proses i'r holl staff ar sut i weithredu gydag ymholiadau yn y Gymraeg ac mae manylion y broses hon i'w gweld ar dudalennau Cymraeg ein mewnrwyd corfforaethol.

**Llunio polisïau**

Mae'r tîm Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus yn sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a'r Senedd yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.

Gwnaed diwygiadau i'n templed Asesiad o'r Effaith Integredig (AEI) yn ystod 2024-25, yn bennaf i fodloni goblygiadau penderfyniad diweddar y Tribiwnlys Iaith ar y safonau llunio polisïau. Diwygiwyd testun yr adran Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn sylweddol i sicrhau bod yr 'ymdrech gydwybodol' ofynnol yn cael ei hystyried a bod camau gweithredu yn rhan o bob AEI.

Er mwyn gweithredu'r newid hwn, aethom ati i hysbysu'r holl staff am y newidiadau a chynnal 2 sesiwn friffio gyda staff perthnasol a fydd yn cynhyrchu AEIau. Cynhyrchwyd fideo hyfforddi hefyd i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Er mwyn gwella proses a diwylliant yr asesiadau effaith yn Chwaraeon Cymru, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'n dull presennol o weithredu yn 2024-25. Mae hwn wedi dod yn brosiect digidol a dylunio gwasanaethau i sicrhau bod y broses yn haws ei defnyddio ac yn effeithiol. Bydd y newidiadau a wnaed i eiriad y templed i fodloni'r safon llunio polisïau'n cael eu cadw a bydd y prosiect a'i ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff dilynol yn cael eu gwerthuso.

**Gweithredol:**

Yn ystod 2024-25, roedd gan bob un o'r 26 o swyddi gwag ond tair sgiliau dwyieithog / amlieithog wedi'u rhestru fel maen prawf dymunol ar ddisgrifiadau swyddi ac roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer dwy rôl. Ymunodd cyfanswm o 17 o staff newydd â Chwaraeon Cymru yn ystod 2024-25 ar gontractau parhaol neu dymor penodol ac o blith y rhain, disgrifiodd 9 eu sgiliau Cymraeg fel lefel rhugl, rhannol neu ddechreuwr. Yn ystod 2024-25, gofynnwyd i bob aelod newydd o staff a oeddent yn dymuno derbyn gohebiaeth ysgrifenedig ynghylch eu cyflogaeth yn y Gymraeg.

Mae ein holl hysbysebion swyddi yn ddwyieithog ac mae'r holl ddeunyddiau ategol ar gyfer swyddi gwag, fel ffurflenni cais a manylebau swyddi, yn ddwyieithog. Rhoddir y dewis i bob ymgeisydd gael cyfweliad yn y Gymraeg neu yn Saesneg.


Mae ein llawlyfr staff, sy'n manylu ar ein polisïau corfforaethol sy'n cwmpasu popeth o iechyd a diogelwch i berfformiad a rheoli absenoldebau a buddion yn y gweithle, ar gael yn ddwyieithog. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r cyfle i wneud cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd y broses gwyno gyfan yn cael ei chwblhau yn yr iaith o'u dewis.

Gall yr holl staff dderbyn hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod eu horiau gwaith, os mai felly maent yn dewis dysgu. Yn ystod 2024-25, mae wyth o bobl wedi mynychu cyrsiau iaith Gymraeg.

Mae pob llofnod e-bost yn cael ei reoli'n ganolog gan ein Tîm Technoleg ac maent yn ddwyieithog.

**Cadw cofnodion:**

Rydym yn cadw cofnod o'r siaradwyr Cymraeg yng ngweithlu Chwaraeon Cymru. Yn 2024-25, dangosodd y data y manylion canlynol:




Mae'r data uchod yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer yr aelodau o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg o 33% yn 2023-24 i 36% yn 2024-25. Bu gostyngiad bach yn nifer y datganiadau gan staff o 83% yn 2023/24 i 81% yn 2024-25.

**Cwynion:**

Rydym yn cadw cofnod bob blwyddyn o gwynion sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod 2024-25 ni chawsom unrhyw gwynion newydd am ein gwasanaethau Cymraeg.

Daeth y gŵyn ffurfiol a ddechreuodd yn 2022-23 ynghylch gweithredu Plas Menai a'r broses asesu effaith a ddefnyddiwyd yn ystod y broses dendro ar gyfer y bartneriaeth a gomisiynwyd i ben ym mis Rhagfyr 2023. Cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg y gŵyn. Mae mwyafrif y camau gweithredu gofynnol wedi'u cwblhau bellach o fewn cyfnod penodol y cynllun gweithredu hyd at fis Ebrill 2025. Serch hynny, mae dau ofyniad, er gwaethaf pob ymdrech, nad oedd modd eu gweithredu, ac mae un ohonynt y tu hwnt i reolaeth Chwaraeon Cymru a Parkwood Leisure, ac mae'r ddau wedi bod yn destun camau gweithredu i geisio sicrhau cydymffurfiaeth. Ar ôl trafodaeth gyda staff cydymffurfio CyG, rydym wedi cael ein hannog i wneud cais am eithriadau cyfyngedig penodol.

## Safonau atodol: darparu gwasanaethau / llunio polisïau / gweithredol / cadw cofnodion

Mae ein dogfen 'Cynllun Iaith Gymraeg' yn cynnwys ein holl safonau Iaith Gymraeg a gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan. Mae'r ddogfen hon wrthi'n cael ei gwella a'i diweddaru. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda chydweithwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau ac arferion da, gydag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg a'n cyfieithydd mewnol dan gontract. Mae'r gwaith helaeth ar yr Holiadur Cydymffurfiaeth wedi arwain at oedi gyda'r cam olaf, sef y broses ymgynghori â sefydliadau partner allanol a fydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2025. Mae'r ddealltwriaeth well o lefelau cydymffurfiaeth Chwaraeon Cymru ar draws yr holl safonau drwy gwblhau'r Holiadur Cydymffurfiaeth wedi helpu i ddrafftio dogfen bolisi well. Bydd hefyd yn arwain at welliannau yn nogfennau canllaw y staff, y codi ymwybyddiaeth a'r hyfforddiant staff a fydd yn dilyn. Cyhoeddir y polisi diwygiedig yn 2025-26.

Mae manylion ynghylch sut byddem yn rheoli cwyn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith a grybwyllir uchod.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, rydym yn uchelgeisiol ac mae llawer o feysydd rydym eisiau parhau i'w datblygu. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol ar y rhain yn ein cynllunio ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.

## Asesiad Cydymffurfiaeth

Yn ystod 2024-25, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud cynnydd gyda'i nod o newid ei dull i ddull cydreoleiddio gyda'r cyrff cyhoeddus mae'n eu rheoleiddio. Mae wedi ymgysylltu â Chwaraeon Cymru a chyrff cyhoeddus perthnasol ynghylch y dull o wneud hyn ac mae wedi ymgynghori ar gyfres o Ganlyniadau Rheoleiddio a'u gweithredu fel yr egwyddorion ar gyfer y newid hwn.

O ran gwaith CyG ar gydymffurfiaeth, roedd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gwblhau Holiadur Cydymffurfiaeth yn ail hanner 2024. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru hunanasesu, gyda thystiolaeth, pob un o'r 156 o safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sefydliad a phennu camau gweithredu ar gyfer unrhyw safonau heb eu hasesu fel cydymffurfiaeth uchel.

Roedd yr ymarfer yn cynnwys ymgysylltu â phob rhan o Chwaraeon Cymru a sicrhau mewnbwn llawer o staff. Roedd yn ymarfer gwerthfawr i gyflwyno darlun sicrwydd cliriach o'n lefelau cydymffurfio presennol ac roedd yn ddarn sylweddol o waith.

Trefnwyd yr 156 o safonau ar gyfer Chwaraeon Cymru mewn 29 grŵp o safonau cysylltiedig gan CyG. Y crynodeb hunanasesu o'n lefelau cydymffurfio ar draws y 29 grŵp yma oedd: 10 x cydymffurfiaeth uchel; 11 x cydymffurfiaeth ganolig; 6 x cydymffurfiaeth isel; 2 x dim cydymffurfiaeth. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddrafftio gyda 22 o gamau gweithredu.

Roedd yr ymateb gan staff cydymffurfio CyG, sydd hefyd yn cynnal eu hasesiadau eu hunain drwy ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg, yn gadarnhaol gyda dim ond mân argymhellion wedi'u codi. Roeddem yn falch o nodi'r adborth ein bod yn gweithio'n barhaus gyda CyG i gynnal a gwella ein gwasanaethau Cymraeg.

Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i weithredu yn 2025-26 a bydd yn ddogfen allweddol i welliant parhaus ein darpariaeth a'n gwasanaethau Cymraeg.

**Plas Menai**

Yn 2023, comisiynodd Chwaraeon Cymru Parkwood Leisure fel ein partner i weithredu Plas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru.

Mae Plas Menai wedi parhau i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwella gwydnwch ei ddarpariaeth Gymraeg ar draws y rhaglen o gyfranogiad a'r cyrsiau hyfforddwyr ar gyfer gwahanol chwaraeon a lefelau cymhwysedd.

Mae tîm Parkwood Leisure wedi defnyddio sawl dull gwahanol i gynyddu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu. Mae cyn-hyfforddwr ym Mhlas Menai sy'n siarad Cymraeg wedi cael ei uwchsgilio i gyflwyno cyrsiau hyfforddwyr yr RYA. Mae siaradwr Cymraeg iaith gyntaf wedi cael ei recriwtio i ymuno â'r gronfa o hyfforddwyr caiacio. Er mwyn cynyddu nifer y cyfleoedd i recriwtio i'r gronfa o hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg, mae Plas Menai hefyd wedi hysbysebu am hyfforddwyr sydd wrthi'n cyflawni eu cymwysterau. Mae swyddi gwag eraill i hyfforddwyr wedi cael eu hysbysebu fel swyddi lle mae'n hanfodol siarad Cymraeg ar eu cyfer er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gynyddu sgiliau iaith. Mae Plas Menai hefyd yn cysylltu â'i gronfa o hyfforddwyr llawrydd i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg er mwyn gallu hyfforddi yn yr iaith yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r staff dan gontract ar y safle.

Hefyd mae Parkwood wedi cael blwyddyn lwyddiannus o ran datblygiad ei raglen prentisiaeth (Datblygu Hyfforddwyr) gan weithio gyda'r Urdd i gyflwyno. Maent wedi llwyddo i recriwtio 3 siaradwr Cymraeg o Wynedd i ymuno â'r rhaglen 15 mis. Mae un o raddedigion y llynedd, sy'n siaradwr Cymraeg lleol o'r Cwrs Hyfforddwyr Dan Hyfforddiant, yn rhan o'r criw yma. Mae hyn yn dangos y datblygiad o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg heb unrhyw gymwysterau blaenorol yn yr awyr agored a'u gweld yn cychwyn ar siwrnai i'r Diwydiant Awyr Agored, gan eu cefnogi gyda DPP o'r dechrau un.

Astudiaeth Achos:

# Cyfathrebu a digidol – hyrwyddo ein darpariaeth Gymraeg a helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg!

Mae ein tîm Cyfathrebu a Digidol wedi rhoi amcan defnyddiwr-ganolog Chwaraeon Cymru wrth galon ei waith ar y Gymraeg. Mae hyn hefyd wedi cyd-fynd yn dda â nod Comisiynydd y Gymraeg i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar hyrwyddo a defnyddio ein gwasanaethau Cymraeg er mwyn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith.

## Adolygiad o'r Wefan

Ym mis Ebrill 2024, aethom ati i sefydlu prosiect i adolygu ein gwefan, gan ganolbwyntio ar ddadansoddeg gwefannau, ymddygiad defnyddwyr a meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg yn y byd chwaraeon yn y DU a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod fersiwn Gymraeg y wefan yn tanberfformio o gymharu â ffigurau defnyddwyr Cymraeg a'r fersiwn Saesneg. I roi sylw i hyn, comisiynwyd arbenigwyr ymchwil gennym i gynnal astudiaeth fanwl drwy gydol 2024-25.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw welliannau yn y dyfodol yn diwallu anghenion defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, cynhaliwyd profion defnyddioldeb, gan gynnwys sesiynau yn y Gymraeg, ynghyd ag arolygon a phrofion treejack sydd ar gael yn y Gymraeg (mae profion treejack yn gwerthuso effeithiolrwydd pensaernïaeth gwybodaeth ac adnoddau llywio gwefan).

Bydd yr ymchwil yma'n sail i ddiweddariadau mawr i'n gwefan, gan gynnwys gwell swyddogaeth yn y Gymraeg. Mae disgwyl i hyn gael ei lansio yn 2025-26.

## Integreiddio'r Gymraeg ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein dull o weithredu ar y cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i esblygu, gan ymgorffori cynnwys Cymraeg ar draws ein sianeli Saesneg a Chymraeg. Yn hytrach na chyfyngu cynnwys Cymraeg i'n cyfrifon @Chwaraeon_ Cymru pwrpasol, rydym wedi mynd ati i ymgorffori ymadroddion Cymraeg a chynnwys dwyieithog yn ein sianeli prif ffrwd. Mae hyn yn pontio'r bwlch rhwng ein cynulleidfaoedd ar y ddau blatfform ac mae hefyd yn gosod yr iaith yn flaenllaw ac yn ganolog i'n cynulleidfa yng Nghymru, a thrwy hynny'n ehangu cyrhaeddiad yr iaith ac yn annog ei defnyddio bob dydd. Yn ystod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Paris 2024, llwyddwyd i gyrraedd mwy na 2.25m o bobl gyda'n dull dwyieithog o ymdrin â chynnwys, gyda'n post cyntaf yn y Gymraeg am lwyddiant Elinor Barker "Mam Ysbrydoledig" yn uchafbwynt i'n hymgysylltu gyda 3,350 o bobl yn ei hoffi ar draws Facebook ac Instagram.

**Dyma rai enghreifftiau:**

Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2024 – Fe wnaethon ni gynnwys y Gymraeg ym mhob post dathlu ar gyfer Gemau Paris 2024, hyd yn oed ar ein sianeli Saesneg, i fanteisio i'r eithaf ar y sylw a'r ymgysylltu â'n cynulleidfa Gymraeg. Arweiniodd hyn at rai o'n postiadau wnaeth berfformio orau yn ystod y flwyddyn.

Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi – Fe wnaethon ni ddathlu'r dyddiau diwylliannol hyn gyda chynnwys dwyieithog pwrpasol, gan sicrhau bod chwaraeon ac iaith wrth galon dathliadau cenedlaethol.

Annog y Gymraeg mewn Chwaraeon – Drwy ymgyrchoedd fel y Diwrnod Gwirfoddolwyr Rhyngwladol a phen-blwydd y Loteri yn 30 oed, fe wnaethon ni annog clybiau, sefydliadau ac unigolion i integreiddio ymadroddion Cymraeg syml fel "Diolch" a "Pen-blwydd Hapus" yn eu negeseuon.

## Arddangos Siaradwyr Cymraeg mewn Chwaraeon

Lle bo hynny'n bosibl, rydym wedi mynd ati i gynnwys siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn ein cynnwys fideo i dynnu sylw at bresenoldeb yr iaith ar draws cymuned chwaraeon Cymru. Dyma rai enghreifftiau allweddol:

- **Ymweliad Emma Finucane â Towy Riders –** Cofnodi effaith ei llwyddiant yn ei chymuned leol.
- **Prosiect chwaraeon cymunedol Mosg Abertawe –** Yn cynnwys siaradwr Cymraeg iaith gyntaf yn rhannu ei brofiad.
- **Gwirfoddolwyr Athletau Cymru –** Yn arddangos gwerth yr iaith Gymraeg mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

Rydym yn parhau i gynnig CLIP (Rhaglen Gyfathrebu, Dysgu a Dirnadaeth) fel gwasanaeth dwyieithog, gan sicrhau bod profiad cyfartal i gyfranogwyr o'r sector chwaraeon yng Nghymru, os yw'n well ganddynt gymryd rhan yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Yn dilyn y gwelliannau y llynedd i'n darpariaeth Gymraeg o fewn y rhaglen, mae ein cylchlythyrau a chynnwys ein gwefan yn parhau i fod yn ddwyieithog yn safonol. Rydym yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i annog y sector i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac yn tynnu sylw at enghreifftiau da o fewn y sector. Rydym yn gweld bod tynnu sylw at ddyddiau neu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd i ddod wedi cael ymateb da ac mae rhannu adnoddau i gefnogi cynnwys y Gymraeg mewn cynlluniau cyfathrebu a marchnata yn boblogaidd fel rheol.

Yn yr un modd, rydym yn parhau i gynnig ein cylchlythyr Cyhoedd a Chymuned yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gyda'r Gymraeg yn gyntaf yn y cylchlythyr, rydym wedi sylwi bod pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn pori'r cynnwys Cymraeg o bryd i'w gilydd, rhywbeth rydym yn teimlo sy'n cefnogi ein huchelgais i annog defnyddio'r Gymraeg a'i gwneud yn amlycach ymhlith pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Rydym hefyd yn eu hannog i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn clybiau ac wrth hyfforddi ar lawr gwlad. Rydym yn hyrwyddo adnoddau da o'r sector fel gweithdy siarad tairieithog Chwaraeon Anabledd Cymru.

Mae ein cyfathrebu mewnol ar gyfer cydweithwyr Chwaraeon Cymru hefyd wedi cynnwys y Gymraeg drwy gyfleoedd dysgu'r iaith a Diwrnod Shwmae.



# Amcanion Tlodi Plant


Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau o ran Tlodi Plant. Rydym yn cydnabod yr angen am ystyried ein Hamcanion Tlodi Plant sydd wedi'u sefydlu yn flaenorol.

Mae'r gwaith hwn wedi dechrau yn Chwaraeon Cymru ac mae angen iddo gynnwys a defnyddio sefydliadau partner a'u profiadau ar draws y sector chwaraeon.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid drwy gydol 2025-26 er mwyn nodi ein Hamcanion Tlodi Plant yn Adroddiad Blynyddol 2025-26.

# Ystadegau Cydraddoldeb Cyfredol – Gweithlu Chwaraeon Cymru

Ar 31 Mawrth 2025, roedd Chwaraeon Cymru yn cyflogi 168 o bobl mewn swyddi parhaol a thymor penodol.




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.


# Y dynion a'r merched a gyflogwyd yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2025 oedd 8.3% (Cymedr) neu 8.7% (Canolrif). Mae hyn yn gynnydd o 7.4% (Cymedr) ac yn gynnydd o 8% (Canolrif) o gymharu â 31 Mawrth 2024.

| **Graddfa** | **Gwryw** | **Benyw** |
|---|---|---|
| Graddfa 1 | 0% | 100% |
| Graddfa 2 | 64% | 36% |
| Graddfa 3 | 38% | 62% |
| Graddfa 4 | 36% | 64% |
| Graddfa 5 | 67% | 33% |
| Graddfa 6 | 50% | 50% |
| Graddfa 7 | 47% | 53% |
| Graddfa 8 | 67% | 33% |
| Graddfa 9 | 38% | 62% |
| Graddfa 10 | 40% | 60% |
| Graddfa 11 | 50% | 50% |
| Graddfa 12 | 50% | 50% |
| Graddfa 13 | 100% | 0% |
| Graddfa 14 | 100% | 0% |
| **Oriau gwaith** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Llawn amser | 51% | 49% |
| Rhan amser | 27% | 73% |
| **Math o Gontract** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Tymor Penodol | 33% | 67% |
| Parhaol | 44% | 56% |
| **Rhywedd yn ôl Chwartel Cyflog** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Chwartel 1 | 34% | 66% |
| Chwartel 2 | 46% | 54% |
| Chwartel 3 | 55% | 45% |
| Chwartel 4 | 40% | 60% |

# Ystadegau Cydraddoldeb – Aelodau'r Bwrdd


Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Bwrdd Chwaraeon Cymru 2024-25




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o bobl wedi'u cynrychioli, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

# Recriwtio


Yn 2024-2025 derbyniodd Chwaraeon Cymru 758 o geisiadau gan unigolion yn gwneud cais am swyddi gyda Chwaraeon Cymru.




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

# Staff yn Dechrau o'r Newydd


Fe wnaeth 17 aelod o staff ddechrau o'r newydd (ar gontract tymor penodol neu barhaol) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. .




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys

# Staff yn Gadael

Fe wnaeth 13 aelod o staff (ar gontract tymor penodol neu barhaol) adael yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

## Cwynion, Anfodlonrwydd, Disgyblu

Mae gan Chwaraeon Cymru bolisi Gwrth-fwlio, Aflonyddu, Gwahaniaethu ac Erledigaeth sy'n datgan safonau ymddygiad yn glir, gan fanylu ar y rhai y mae'r sefydliad yn eu hystyried yn annerbyniol a'r canlyniadau tebygol os bydd sail i unrhyw achos o fynd yn groes i'r ymddygiadau hyn. Mae prosesau ar gael hefyd ar gyfer cwynion a wneir gan y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn adrodd roedd un anfodlonrwydd a bu'n rhaid disgyblu ddwy waith.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb Penodol

Mae pob aelod o staff sy'n dechrau o'r newydd yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein. Darperir sesiwn sefydlu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff sy'n dechrau o'r newydd. Rydym wedi parhau â'n rhaglen eang o hyfforddiant CACh, ac mae cymorth wedi'i gynnig i'r holl staff a'i ddarparu yn 2024-25. Mae gennym ni gynrychiolwyr ein hunain ar ein Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol ac maent yn cyflwyno Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth i bob aelod o staff ac aelod Bwrdd.

## Adroddiad ar Gyfranogiad Chwaraeon

| Nodwedd | Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022 | Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23 | Nodiadau: |
|---|---|---|---|
| | Cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. | | Dim ond lleoliadau Allgyrsiol neu Glybiau Cymunedol mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn eu cynnwys yn y diffiniad hwn o gyfranogiad. |
| Cyffredinol (pawb) | 39.5% | 39.1% | |
| | | | |
| Genethod; Merched | 36.4% | 35.2% | |
| Bechgyn; Dynion | 43.2% | 43.0% | |
| Rhywedd arall | 28.1% | - | Rydym yn cadw data am blant nad ydynt yn uniaethu â rhywedd 'bachgen' neu 'ferch'. |
| Pobl o Leiafrif Ethnig | 35.9% | 47.4% | Mae'r gallu i archwilio ethnigrwydd yn dibynnu ar faint y sampl. Gallwn ddarparu llawer mwy o fanylion am blant oherwydd maint y sampl (tua 115,000 o bobl). Mae dadansoddiad pellach ar gyfer oedolion yn gyfyngedig oherwydd maint y sampl mwyaf y gellir ei sicrhau (12,000 o bobl). |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig | 30.1% | - | |
| Grwpiau Ethnig Cymysg / Niferus | 42.8% | - | |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig | 38.3% | - | |
| Grŵp Ethnig Arall | 33.1% | - | |
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig) | 41.1% | 38.5% | |
| Gwyn Arall (yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Gwyddelig, Roma, ac unrhyw gefndir Gwyn arall) | 36.0% | 41.7% | |

| Nodwedd | Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022 | Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23 | Nodiadau: |
|---|---|---|---|
| Amddifadedd economaidd-gymdeithasol | 32.3% | - | Ystyrir bod plant sy'n mynychu ysgolion sydd â'r lefelau cymhwysedd uchaf am brydau ysgol am ddim yn 'ddifreintiedig'; defnyddir mesur gwahanol ar gyfer oedolion sy'n byw mewn amddifadedd materol. |
| Anabledd neu nam | - | 30.6% | |
| Anabledd neu nam | 34.9% | 26.3% | Cwestiwn oedolyn: 'Ydi eich cyflwr iechyd neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd naill ai ychydig neu yn fawr?'. |
| Siaradwyr Cymraeg | 46.3% | 45.5% | |

# Adroddiad Buddsoddi

## Cynllun Cyllido Cronfa Cymru Actif (BAWF):

**Yn 2024-25, gwnaeth Chwaraeon Cymru 725 o ddyfarniadau o Gronfa Cymru Actif am gyfanswm buddsoddiad o £4,191,065.00.**

Mae dadansoddiad y dyfarniadau a'r buddsoddiad i feysydd blaenoriaeth yn 2024-25 wedi'i nodi isod:

| Maes blaenoriaeth | Nifer y dyfarniadau | Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd (£) |
|---|---|---|
| Merched a genethod | 310 | 2,309,363 |
| Pobl o Leiafrifoedd Ethnig | 52 | 399,180 |
| Pobl ag anabledd | 83 | 614,847 |
| Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol | 8 | 34,255 |
| Trawsryweddol | 6 | 26,674 |
| Amddifadedd Economaidd Cymdeithasol | 180 | 1,232,199 |
| Yr Iaith Gymraeg | 57 | 394,397 |
| Creu Cynaliadwyedd Tymor Hir | 602 | 3,387,497 |

**Sail ar gyfer y ffigurau uchod:**

Mae tîm buddsoddi Chwaraeon Cymru yn pennu'r meysydd blaenoriaeth y mae'r dyfarniadau'n rhoi sylw iddynt ar sail craffu ar y cais a chyswllt â'r ymgeisydd. Gall y prosiectau fynd i'r afael â mwy nag un maes blaenoriaeth, felly ni fydd cyfanswm y ceisiadau a'r buddsoddiad ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn cyfateb i gyfanswm y dyfarniadau a chyfanswm y buddsoddiad.

# Dadansoddi Data

## Gweithlu:

Ychydig iawn o newidiadau sydd wedi bod yn ystadegau amrywiaeth gweithlu Chwaraeon Cymru yn ystod 2024-25. Mae'n ymddangos bod y cynnydd yn amrywiaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn ystod y 3 blynedd flaenorol wedi sefydlogi ar yr un lefel, sef lefel sy'n uwch na chyfartaleddau poblogaeth Cymru, er yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ardal Caerdydd. Mae'n ymddangos bod amrywiaeth cyfeiriadedd rhywiol ar yr un lefel â'r llynedd, sef ar neu ychydig yn uwch na chyfartaledd poblogaeth Cymru.

Nid yw'r ffigur ar gyfer canran y cyflogeion sydd ag anabledd wedi newid ac mae ymhell islaw cyfartaledd poblogaeth Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn annog ei staff i wneud datganiad amrywiaeth i'n helpu i ddeall ein gweithlu'n well. Nid yw'r tueddiadau cadarnhaol iawn diweddar tuag at ddatganiad llawn o nodweddion gwarchodedig gan ein gweithlu wedi parhau yn 2024-25. Mae cyfraddau heb eu datgan wedi cynyddu ar gyfer 6 o'r nodweddion, ond dim ond o 1% yn y rhan fwyaf o achosion, gyda'r nodweddion eraill heb weld unrhyw newid.

Mae bylchau cyflog rhywedd Chwaraeon Cymru wedi gwaethygu ychydig yn ystod 2024-25 gyda'r cymedr yn cynyddu o 7.4% i 8.3% a'r canolrif yn codi o 8% i 8.7%. I roi rhywfaint o gyd-destun, y ffigur cyfartalog ar gyfer y gweithlu cyfan yn y DU ym mis Ebrill 2024 oedd 13.1% ar gyfer yr holl gyflogeion, roedd yn 7.0% ar gyfer cyflogeion llawn amser yn unig a -3.0% ar gyfer cyflogeion rhan amser yn unig (Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Bwlch cyflog rhywedd yn y DU: 2024).

## Cyfranogiad mewn chwaraeon:

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Arolwg Chwaraeon Ysgol nac Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau am chwaraeon rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Felly, mae'r canlyniadau yn yr adran hon yr un fath â'r rhai a amlinellwyd yn adroddiad 2023-24 ac maent yn cael eu cyflwyno i'n hatgoffa ni o'r canlyniadau blaenorol a'r problemau parhaus sydd i'w canfod mewn chwaraeon a chymdeithas.

Dangosodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 ostyngiad brawychus yn ffigur cyffredinol yr ieuenctid oedd yn cymryd rhan deirgwaith yr wythnos o leiaf - gan ostwng 8.1 pwynt canran (pc) i 39.5% o bobl ifanc.

Mae'n debygol bod y newid hwn mewn ymddygiad wedi cael ei effeithio'n fawr gan ddigwyddiadau'n gysylltiedig â phandemig Covid-19. Roedd yr arolwg blaenorol yn 2018.

Mae'r grwpiau y mae eu data'n dangos y lefelau mwyaf o anfantais yn cynnwys y canlynol:

## Ethnigrwydd

- Disgyblion Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig (9.4 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.5 pc ar y data blaenorol yn 2018).
- Disgyblion Du / Du Cymreig / Du Prydeinig (gostyngiad o 12.2 pc ar y data blaenorol yn 2018. Mae hyn wedi symud y grŵp o un a oedd 2.9 pc uwchlaw'r cyfartaledd cyffredinol i fod 1.2 pc islaw nawr).
- Grwpiau Ethnig Eraill (fel y'u diffinnir yng Nghyfrifiad 2021) (6.4 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 12.6 pc ers 2018).

## Anabledd

- Pobl ag anabledd neu nam (4.6 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 11.7 pc ers 2018).

## Amddifadedd economaidd-gymdeithasol

- Y plant hynny sy'n mynychu ysgolion gyda'r cymhwysedd uchaf i gael prydau ysgol am ddim (7.2 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.9 pc ers 2018).

## Hunaniaeth Rhywedd

- Cyfranogiad merched (3.1 pwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.3 pc ers 2018).

Cwblhaodd tua thraean o'r holl ddisgyblion yng Nghymru yr arolwg ac felly gellid esbonio newidiadau bach ers 2018 drwy amrywiad ystadegol, gan nad oedd pob disgybl yng Nghymru wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, mae newidiadau mwy yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yn ymddygiad y boblogaeth.

### Arolwg Cenedlaethol Cymru ('ACC'):

Canlyniadau ACC 2022-23 yw'r diweddaraf i gael eu rhyddhau. Nid oedd unrhyw ACC yn 2023-24 a disgwylir canlyniadau 2024-25 yn Haf 2025.

I atgoffa, dangosodd canlyniadau 2022-23 mai'r lefelau mwyaf o anfantais cyfranogiad oedd y canlynol:

- Mewn perthynas ag anabledd a nam (12.8 pc islaw'r cyfartaledd cenedlaethol cyffredinol, bwlch sydd wedi cynyddu ers 2021-22) ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol (8.5 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol, mae'r bwlch wedi cau ers 2021-22).
- Mae'r ffigurau ar gyfer cyfranogiad benywaidd yn bryder hefyd, sef 3.9 pc islaw'r cyfartaledd cyffredinol (gwahaniaeth heb newid ers 2021-22).
- Ar nodyn mwy cadarnhaol, parhaodd siarad Cymraeg i fod â chydberthynas gadarnhaol â chyfranogiad ar gyfer oedolion a phlant (Arolwg Chwaraeon Ysgol: 6.8 pc uwchlaw'r cyfartaledd ac ACC: 6.4 pc uwchlaw'r cyfartaledd).

Sefydlwyd cyfres o becynnau gwaith yn Chwaraeon Cymru i archwilio'r canfyddiadau hyn ymhellach a phenderfynu sut gallwn ni a phartneriaid gydweithio yn y ffordd orau i wneud gwahaniaeth yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.

# Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

### Y camau mae'r awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio ymchwil o ansawdd uchel fel sail i bolisi a strategaeth a, lle mae hynny'n bosibl, mae'n ymdrechu i ddefnyddio dirnadaeth i gynghori'r sector chwaraeon, partneriaid, rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol, ac eraill ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt.

### Arolygon Cymdeithasol:

Bob tro bydd Chwaraeon Cymru yn cynnal yr Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY) cynhelir cylch adolygu ac ymgynghori eang. Mae'r broses hon eisoes wedi dechrau wrth baratoi ar gyfer Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026. Drwy holi am farn a gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr niferus, mae'r arolwg yn cael ei wella'n barhaus a'i gadw'n berthnasol. Does dim modd gwneud pob newid o fewn pob cylch arolygu, ond rydym yn ymdrechu i wneud newidiadau graddol i'r cyfeiriad cywir i roi arfer da ar waith yn y tymor hir. Mae newid yr arolwg i fod yn 'hawdd ei ddarllen' yn enghraifft gadarnhaol o sut mae'r arolwg wedi'i wella'n flaenorol. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus bob amser rhwng sicrhau cydweddoldeb a chymaroldeb dangosyddion allweddol dros amser ynghyd â sicrhau bod y cwestiynau'n cynrychioli'r wybodaeth ddiweddaraf am gymdeithas a sut dylid gofyn cwestiynau mewn arolwg.

Bydd datblygiad yr AChY nesaf yn cynnwys proses ymgynghori ffurfiol a threialu'r arolwg i ddeall y math o wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu, ac ym mha ffyrdd. Hefyd, bydd cynllun cynnwys yr Arolwg Chwaraeon Ysgol nesaf wedi bod drwy broses drylwyr o brofi gwybyddol helaeth. Gan adeiladu ar ymchwil blaenorol, bydd y diweddariad hwn yn helpu i asesu dealltwriaeth a dehongliad pobl ifanc – o rai lluniadau, cwestiynau ac opsiynau ymateb yn yr arolwg. Nod y gwaith hwn yn y pen draw fydd cryfhau gallu'r arolwg ymhellach i ddarparu tystiolaeth fanwl gywir a pherthnasol i ddeall pobl ifanc yn well, gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar draws y sector, a thargedu buddsoddiad.

Er mwyn parhau i fod yn wybodus am faterion cyfoes sy'n effeithio ar ymddygiadau cyfranogiad oedolion, mae pymtheg o gylchoedd 'Traciwr Gweithgarwch Cymru' (TGC) wedi cael eu cynnal ers mis Mai 2020. Dyma arolwg tracio poblogaeth o 1,000 o oedolion yng Nghymru, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Savanta ComRes. Gofynnir cwestiynau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, gan roi cipolwg ar weithgarwch corfforol a chwaraeon, yn ogystal ag agwedd pobl Cymru tuag at ymarfer corff. Mae'r data sy'n cael eu casglu'n gynrychioliadol o'r genedl yn ôl rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol. Wrth i wybodaeth cod post gael ei chasglu, gellir cysylltu'r canfyddiadau hefyd â mesurau ar gyfer natur wledig a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

Galluogodd Traciwr Gweithgarwch Cymru i dueddiadau cenedlaethol ac anghydraddoldebau mewn agweddau ac ymddygiadau oedolion gael eu monitro drwy gydol pandemig Covid-19 (pan gafodd arolygon wyneb yn wyneb rheolaidd eu hatal) ac mae wedi parhau i dracio'r prif dueddiadau hyn ers hynny.

Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC)** yn arolwg cenedlaethol sy'n cynrychioli aelwydydd o 12,000 o oedolion yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys mwy na deuddeg gwaith yn fwy o bobl na TGC sy'n galluogi plymio'n ddyfnach i bynciau yn ôl nodweddion gwarchodedig, fodd bynnag, mae hefyd ddeg gwaith yn llai na'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ac felly mae dyfnder y dadansoddiad yn gyfyngedig ar gyfer rhai nodweddion a phynciau.

Canlyniadau ACC 2022-23 yw'r diweddaraf i gael eu rhyddhau o'r arolwg cenedlaethol. Nid oedd unrhyw ACC yn 2023-24 oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi newid darparwyr contract yr arolwg. O ganlyniad, nid yw canlyniadau'r ACC nesaf i'w cyhoeddi tan Haf 2025.

Bydd maint sampl yr ACC nesaf yn llawer llai, a bydd hyn yn effeithio ar y mathau o ffactorau y gellir adrodd arnynt yn hyderus. Mae Llywodraeth Cymru yn symud i ddull ar-lein o arolygu, a disgwylir iddo ddychwelyd sampl o 12,000 neu fwy.

Mae adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif yr arolwg yn cynnwys canfyddiadau cyffredinol sy'n gadarn yn ystadegol am gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a hamdden gorfforol, gwirfoddoli mewn chwaraeon, cyfleusterau chwaraeon, ac agweddau tuag at weithgarwch corfforol a chyfranogiad yn y dyfodol mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gyfres graidd o gwestiynau'r arolwg a chynnwys unrhyw fodiwlau penodol i bynciau ychwanegol a gynhwysir bob blwyddyn y cynhelir yr arolwg (e.e. Amgylchedd, Iechyd, Lles, Gofal Cymdeithasol, Diwylliant a Chwaraeon).

Mae'r cwestiynau craidd yn cynnwys oedran; rhyw; ethnigrwydd; cyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol; amddifadedd materol; a defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn aml, mae'r arolwg yn cynnwys canfyddiadau yn ôl cyfansoddiad aelwydydd, statws priodasol / partneriaeth sifil, cenedligrwydd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol a llawer mwy. Gellir dod o hyd i gyfres lawn o bynciau ar dudalen we ACC.

Mae canlyniadau'r arolwg ar gael ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol (gan gynnwys ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru) ac ar gyfer dosbarthiadau sy'n seiliedig ar ardaloedd bach fel y MALlC, a dosbarthiad trefol / gwledig.

Defnyddir yr arolwg fel sail i Ddangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38 – 'Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos'. Defnyddir ystadegau o arolygon cenedlaethol a data perfformiad yn benodol gan Chwaraeon Cymru i ddyrannu buddsoddiad i Gyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaethau Chwaraeon.

Mae hyn yn galluogi dull tryloyw a gwrthrychol o fuddsoddi ac yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar bartneriaid i ddarparu data a thystiolaeth i ni. Er enghraifft, mae meini prawf cyllido wedi'u rhannu'n elfennau cyfranogiad a pherfformiad, gyda sgôr gyllido gyffredinol ar gyfer pob Corff Rheoli Cenedlaethol yn cael ei sefydlu pan fydd y ddwy adran yn cael eu dwyn at ei gilydd. Defnyddir canlyniadau cyfranogiad a galw am chwaraeon ar gyfer oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac amddifadedd ac maent yn cyfrannu at sgôr gyffredinol ar gyfer pob camp.

Defnyddir meini prawf ar wahân i bennu'r cyllid ar gyfer Partneriaethau Chwaraeon, yn seiliedig ar boblogaeth, ffactorau economaidd-gymdeithasol a gwledigrwydd. Dangosir dadansoddiad llawn o'r data a ddefnyddir yn yr adran Adnoddau ar ein gwefan.

## Unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.

Mae angen samplu a phwysoli'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn seiliedig ar ffynonellau data cenedlaethol (fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion PLASC sy'n cyfrif nodweddion disgyblion fesul ysgol). Nid yw pob nodwedd wedi'i chynnwys yn y ffynonellau data eilaidd hyn felly efallai nad ydynt yn gwbl gynrychioliadol. Mae'r dull samplu'n cael ei gyfyngu yn y pen draw gan y derminoleg a ddefnyddir yn y ffynonellau eilaidd hyn.

Mae angen cynllunio rhai cwestiynau'n ofalus hefyd i sicrhau eu bod yn gweithio i bob plentyn ac ar gyfer cwestiynau newydd mae angen amser ychwanegol i ymgynghori, profi a threialu. Nid yw rhai cwestiynau'n briodol i'w gofyn i bawb.

Mae maint y sampl hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei adrodd yn ystadegol hyderus, hyd yn oed os bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu fel rhan o'r arolwg.

## Datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

Fel sefydliad, rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig hanfodol ar gyfer elfennau cydraddoldeb allweddol gyda ffocws penodol ar rywedd, anabledd, oedran, ethnigrwydd ac amddifadedd. Mae'r data hyn yn cael eu casglu'n bennaf drwy ein hadnoddau arolygu cenedlaethol (Arolwg Chwaraeon Ysgol; Arolwg Cenedlaethol Cymru; Traciwr Gweithgarwch Cymru) sy'n cael eu gweithredu'n achlysurol i gyd. Mae'r adnoddau casglu data hyn yn rhoi data pwysig i ni ar gyfer monitro tueddiadau cyfranogiad ac agwedd a, gyda'i gilydd, yn cwmpasu trigolion Cymru sy'n saith oed a hŷn.

Os nad yw meintiau samplau'r arolygon yn ddigonol, ein nod ni yw cynnal ymchwil ansoddol gyda grwpiau penodol ar bynciau manwl i gael gwybodaeth bellach. Rydym yn casglu ac yn cadw data cyfyngedig am y canlynol: priodas neu bartneriaeth sifil (nodwedd warchodedig mewn cyflogaeth yn unig); beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae modd ymchwilio ymhellach drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Nid yw'n cael ei ystyried yn briodol ar hyn o bryd i gasglu rhywfaint o'r wybodaeth sensitif hon drwy ein Harolwg Chwaraeon Ysgol.

Mae maint y sampl hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynrychioli mewn arolygon tracio llai.

Hefyd mae natur dymhorol chwaraeon yn gofyn am gwmpasu data yn ystod y flwyddyn gyfan i gynrychioli pob math o weithgarwch ac ymddygiad yn llawn. Yn yr ystyr hwn mae'r canfyddiadau wedi'u cyfyngu gan ddull yr arolwg a gallu'r ymatebydd i gofio gwybodaeth.

Rydym wedi ein cyfyngu mewn rhai ffyrdd gan waith Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Er enghraifft, y gallu i newid cwestiynau mewn arolygon aml-randdeiliaid. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cwestiynau arolwg yn cael eu cysoni a'u trawsnewid yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o arfer da, lle bynnag y bo modd, ac yn hyrwyddo cyswllt ac ymgynghori ar ddata a materion ystadegol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn casglu ystod ehangach o wybodaeth drwy arolygon llai a rhai adroddiadau pwrpasol. Mae lefel y manylder y gellir ei ddarparu yn dibynnu ar faint y sampl (sydd yn ei dro yn dibynnu ar y gyllideb) neu'n canolbwyntio ar faterion thematig penodol yn fanwl, gan wneud rhai canlyniadau yn archwiliadol yn hytrach na chynrychioliadol. Mae gwallau o fewn dulliau sy'n seiliedig ar arolygon yn gwneud cymariaethau'n anodd yn aml, ac mae angen dadbacio data ar gyfer dimensiynau dadansoddi niferus. Gall hyn gyfyngu ar ddadansoddiad ar sail thema a chroestoriad pellach y themâu hyn. Gall dadansoddiad is-genedlaethol o'r wybodaeth hon fod yn anodd hefyd gyda daearyddiaeth lai.

Rydym yn ymdrechu i ailadrodd a gwella ein dulliau gweithredu lle bo modd. Yn ogystal, mae prosiect ar y gweill i sefydlu piblinell ddata gyflawn sy'n cynnwys cysylltiadau data, mewnlifiad, storio a rheoli data a chynhyrchu allbynnau defnyddiol a hygyrch.

Mae'r Tîm Dirnadaeth wedi datblygu dull dangosfwrdd o weithredu a fyddai'n helpu i ddarparu'r math hwn o drosolwg gan ddefnyddio meddalwedd Power BI.

Mae hwn wedi cael ei brofi gan ddefnyddwyr a chafodd ei lansio i'w ddefnyddio gan staff yn Chwaraeon Cymru yn 2024.

Bydd cwestiynau'r arolwg yn cael eu hadolygu'n fanwl wrth baratoi ar gyfer yr Arolwg Chwaraeon Ysgol nesaf a bydd dangosfwrdd ystadegol wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd ag ef, gan alluogi archwilio canfyddiadau manwl ar groestoriad o bynciau ymhellach.

# Rhestr o bartneriaid sy'n cael eu cyllido gan Chwaraeon Cymru

## Cyrff Rheoli Cenedlaethol

- Athletau Cymru
- Badminton Cymru
- Pêl-fasged Cymru
- Bowlio Cymru
- Paddle Cymru
- Criced Cymru
- Beicio Cymru
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Golff Cymru
- Gymnasteg Cymru
- Hoci Cymru
- Pêl-rwyd Cymru
- Rhwyfo Cymru
- Undeb Rygbi Cymru
- Royal Yachting Association (RYA)
- Sboncen Cymru
- Nofio Cymru
- Tennis Bwrdd Cymru
- Tennis Cymru
- Triathlon Cymru
- Cymdeithas Jiwdo Cymru
- Rygbi'r Gynghrair Cymru
- Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru
- Codi Pwysau Cymru
- Pysgota Cymru
- Saethyddiaeth Cymru
- Cymdeithas Cyrlio Cymru
- Ffensio Cymru
- Lacrosse Cymru
- Cymdeithas Cyfeiriannu Cymru
- Snwcer Cymru
- Chwaraeon Eira Cymru
- (SLSA) Cymdeithas Achub Bywyd Syrff Cymru
- Reslo Cymru

## Partneriaid Cenedlaethol

- Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru
- SportsAid
- Sefydliad Gwyddor Perfformio Cymru Prifysgol Abertawe (Rhagfyr 2024)
- Y Gymdeithas Nofio i Bobl Dduon
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Girl Guides
- Leadership Skills Foundation
- U Do It
- WCVA
- Youth Sport Trust
- Colegau Cymru
- StreetGames
- Y Bartneriaeth Awyr Agored
- Yr Urdd

## Partneriaethau Chwaraeon

- Actif North Wales

## Awdurdodau Lleol

- Powys
- Ceredigion
- Bro Morgannwg
- Pen-y-bont ar Ogwr
- RhCT
- Merthyr Tudful
- Caerdydd
- Sir Fynwy
- Caerffili
- Blaenau Gwent
- Casnewydd
- Torfaen
- Castell-nedd Port Talbot
- Abertawe
- Sir Gaerfyrddin
- Sir Benfro

# Canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn

Roedd gwariant net Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn gyfanswm o £33,697,000 (2023/24 £32,098,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn (tudalen 150), ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn £1,403,000 (2023/24 £2,455,000). Nodwyd y gostyngiad o £1,052,000 ar ôl codi £611,000 o ddibrisiant (2023/24 £667,00).

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

## Cynaliadwyedd (Yn cynnwys yr Adroddiad Bioamrywiaeth)

### Grantiau Arbed Ynni (ESG)

Parhaodd y rhaglen ESG ar ôl ei blwyddyn gyntaf lwyddiannus yn 2023-24. Gwnaed 108 o ddyfarniadau yn 2024-25 gan ddarparu cyllid o ychydig dros £2 filiwn. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm y gefnogaeth dros y ddwy flynedd i £3.4 miliwn gyda 186 o glybiau a safleoedd yn cael eu cefnogi. Mae'r rhaglen yn cael effaith wirioneddol ar ddadgarboneiddio'r sector chwaraeon yng Nghymru ac mae wedi cael ei gordanysgrifio yn ystod y ddwy flynedd o weithredu.

Amlinellir isod ddadansoddiad y prosiectau cynaliadwyedd o fewn y 108 o ddyfarniadau yn 2024-25 (mae rhai prosiectau'n cynnwys mwy nag 1 elfen):

| Rhif | Disgrifiad |
|---|---|
| 84 | Paneli solar (gan gynnwys storfeydd batri) |
| 33 | Gwresogi / dŵr poeth mwy effeithlon |
| 1 | Ffaniau dadhaenu (i gydbwyso'r tymheredd mewn gofod mwy) |
| 15 | Prosiectau inswleiddio |
| 26 | Goleuadau LED |
| 3 | Systemau cynaeafu dŵr glaw |
| 1 | Twll turio |
| 7 | Ffenestri / drysau UPVC |

Gyda rhai o'r prosiectau ESG wedi bod ar waith ers dros flwyddyn, mae arwyddion clir bellach o fanteision ac effeithiau'r rhaglen. Dyfarnwyd Grant Arbed Ynni gwerth £20,473 gan Chwaraeon Cymru i Glwb Rygbi'r Rhyl ym mis Hydref 2023, er mwyn iddo osod paneli solar yn eu lle i leddfu straen yr argyfwng costau byw a gwneud ei ran dros yr amgylchedd hefyd. Roedd ei filiau ynni misol wedi codi o tua £1,800 i £4,500 bob mis, ond mae'r clwb yn amcangyfrif y bydd y paneli solar yn arbed tua £20,000 y flwyddyn iddo. Mae'r arbedion a gynhyrchir gan y newid i ynni solar yn fudd anuniongyrchol rhagorol o'r rhaglen gan eu bod yn cael eu defnyddio i gyllido sawl gwelliant ac uwchraddio o amgylch eu maes i wneud eu camp yn fwy pleserus a chynaliadwy. Gosodwyd pyst rygbi newydd yn eu lle yn ogystal â ffens newydd i wylwyr.

Yn hollbwysig, o ran cynaliadwyedd ychwanegol ac effaith ar fioamrywiaeth, mae arbedion cost y prosiect hefyd wedi cefnogi darparu rhandir garddio i fyfyrwyr lleol ddysgu sut i arddio a safle ailgylchu newydd i leihau ôl troed carbon y clwb ymhellach.

Roedd stiward y clwb, Lee Blackmore, yn gadarnhaol iawn am y cynllun. "Mae wedi lleihau nid yn unig ein gwariant misol ni yn aruthrol ond hefyd ein hôl troed carbon. Oni bai am y Grant Arbed Ynni, ni fyddem yn gallu gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud." O fis Hydref 2023 tan haf 2024 mae'r paneli solar wedi gwneud gostyngiad sylweddol yn ôl troed carbon y clwb, ar ôl arbed 2,948kg o Allyriadau CO2 – sy'n cyfateb i blannu 178 o goed.

## Buddsoddi mewn partneriaethau

Mae buddsoddiad Chwaraeon Cymru yn ein partneriaid yn seiliedig ar y Fframwaith Gallu. Nod y fframwaith llywodraethu hwn yw sicrhau bod gennym hyder mewn sefydliadau wrth fuddsoddi arian cyhoeddus. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus yn llywodraethu'r partneriaid, fel eu bod yn gynaliadwy ac mewn sefyllfa dda i gyflawni eu potensial. Ar ôl cyd-greu ymgysylltu â mwy na 25 o sefydliadau partner, cytunwyd y bydd gofynion cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Gallu am y tro cyntaf yn 2025-26.

## Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru yn adeiladu'r achos dros gyfleuster cenedlaethol newydd. Ein gweledigaeth yw creu 'patrwm o ganolfan amgylcheddol gynaliadwy ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, gan gysylltu unigolion a sefydliadau â'i gilydd mewn canolfan chwaraeon sydd wedi'i chynllunio i feithrin diwylliant o ragoriaeth, arloesi, dysgu, datblygu a lles'. Mae ein huchelgeisiau ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol yr un mor uchel â'n huchelgeisiau chwaraeon. Rydym eisiau datblygu canolfan genedlaethol a fydd yn gosod y safon yn y DU a thu hwnt, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd a bioamrywiaeth am flynyddoedd i ddod. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer y cyfleuster hwn yn 2025-26.

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi lleihau ei gwastraff bwyd yn sylweddol drwy gyflwyno system Leanpath© i olrhain a lleihau gwastraff bwyd. Yn ogystal, gosodwyd system monitro tymheredd Navitas ym mhob oergell a rhewgell i leihau'r risg o wastraff ymhellach.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i leihau gwastraff mewn meysydd eraill. Yng nghaffi Hwb, rydym wedi newid cwpanau tafladwy am rai tsieina, i leihau gwastraff ymhellach.

Gan weithio'n agos gyda'n cyflenwyr bwyd, rydym wedi lleihau nifer y danfoniadau bob wythnos yn sylweddol. Mae'r newid hwn yn helpu i leihau ein hôl troed carbon drwy leihau'r allyriadau o drafnidiaeth.

Yn ogystal, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad i ffynonellau lleol. Drwy ffurfio partneriaeth gyda chyflenwr bwyd allweddol, rydym bellach yn gallu prynu ein holl lysiau gan ffermwyr Cymru a chael 80% o'n cynhyrchion cig o Gymru. Mae hyn yn cefnogi amaethyddiaeth leol, yr economi gylchol ac yn lleihau effaith amgylcheddol cludo bwyd dros bellteroedd hir.

Yn ein cyfleusterau llety, rydym wedi cyfnewid deunyddiau ymolchi untro am opsiynau y gellir eu hail-lenwi ac wedi cael gwared ar gwpanau tafladwy.

Mae'r newidiadau hyn wedi lleihau ein gwastraff plastig yn sylweddol.

Ar hyn o bryd mae tîm y tiroedd yn treialu teclynnau pŵer batri gyda'r bwriad iddynt gymryd lle'r rhai petrol.

## Cyfathrebu

Mae tîm cyfathrebu Chwaraeon Cymru wedi chwarae rhan bwysig wrth rannu'r straeon newyddion da am sut mae'r sector chwaraeon yn cynyddu ei gynaliadwyedd. Yn ystod 2024-25, cyflwynwyd saith erthygl a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar bynciau amgylcheddol yn allanol drwy wahanol ddulliau, ac roedd llawer o'r cyfathrebu arall yn cynnwys rhywfaint o gynnwys ar gynaliadwyedd. Rydym yn parhau i gysylltu â Hwb Adnoddau y Sport Environment and Climate Coalition (SECC) i ddarparu deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r sector. Mae Chwaraeon Cymru wedi galluogi dysgu a rennir drwy ddulliau eraill, gyda gweminarau Dysgu Carlam fformat byr ar gyfer ein sefydliadau partner yn dechrau yn 2024-25 a chyflwyniadau gan gynnwys agweddau cynaliadwyedd.

## Caffael

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynhyrchu Strategaeth Gaffael Gyfrifol yn Gymdeithasol ddrafft yn 2024-25 ac mae'n adolygu ei Bolisi Caffael a'i ddogfennau ategol i gryfhau cynaliadwyedd a thegwch. Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod gwerth arbenigedd caffael yn y gwaith hwn ac wedi cytuno ar secondiad tymor byr gyda chorff cyhoeddus arall yng Nghymru i aelod allweddol o staff gwblhau'r ddogfennaeth ac arwain yr hyfforddiant staff. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2025-26.

## Plas Menai

Mae'r gwresogi adnewyddadwy ar gyfer y prif adeiladau gan bwmp gwres ffynhonnell daear (gyda ffynhonnell aer ychwanegol ar gyfer tywydd oer eithafol) yn gwbl weithredol ac mae profion wedi dangos bod ei gyfernod perfformiad yn 3.3.

Mae hwn yn fetrig sy'n mesur effeithlonrwydd pwmp gwres drwy gymharu'r allbwn gwres â'r mewnbwn trydan sydd ei angen i gynhyrchu'r gwres hwnnw. Mae COP o 3.3 yn golygu bod y pwmp gwres yn cynhyrchu 3.3 uned o wres am bob 1 uned o drydan a ddefnyddir.

Yn 2024-25, mae pump o'r tai llety ar y safle wedi cael eu hadnewyddu a'u dadgarboneiddio'n llwyr ar gyfer gwres a dŵr poeth gyda phympiau gwres ffynhonnell aer. Mae rhaglen arfaethedig i drosi'r tai sy'n weddill dros y ddwy flynedd nesaf. Mae gan y ganolfan declynnau gwefru cerbydau trydan (EV) wedi'u gosod yn eu lle bellach, sydd wedi cael croeso da gan ymwelwyr.

Mae Plas Menai yn cael ei weithredu gan Parkwood Leisure fel partner wedi'i gomisiynu. Mae tîm Plas Menai yn cynnal perthynas waith agos gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r cyfleusterau'n rheolaidd, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth a'r pwll nofio, ar gyfer hyfforddiant gwirfoddolwyr mewn rheoli dyfrffyrdd a sesiynau hyfforddi staff wythnosol.

## Cynllun Busnes

Mae Chwaraeon Cymru wedi cadw Cynaliadwyedd Amgylcheddol fel blaenoriaeth Cynllun Busnes gyda'r camau gweithredu allweddol fel a ganlyn:

- Ymgorfforri cynaliadwyedd yn ein proses gaffael mewn partneriaeth â WRAP Cymru.
- Gweithio gyda rhai o'n prif gyflenwyr yn ôl gwerth i nodi cyfleoedd arbed carbon.

- Rhannu cynnydd a straeon gan arloeswyr yn y maes hwn i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni a lledaenu arfer da yn y sector.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag eraill, yn enwedig drwy'r Sport Environment and Climate Coalition (SECC).
- Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad o'r llwybr bwyd.
- Gwella casglu data carbon.
- Hyrwyddo ac annog teithio llesol.

# Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.

| Gwastraff | Disgrifiad | 2024/25* | 2023/24* | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Heb fod yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm KG | 16,418 | 13,418 | 44,370 |

| Nwy Tŷ Gwydr | Disgrifiad | 2024/25* | 2023/24* | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **$CO_2$** | Cyfanswm allyriadau crynswth ($CO_2$) | 392,863 | 411,413 | 439,439 |
| | Cyfanswm allyriadau net ($CO_2$) | 392,863 | 411,413 | 439,439 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 1 (uniongyrchol) | 184,840 | 189,988 | 191,753 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 2 (uniongyrchol) (anuniongyrchol) | 208,023 | 221,425 | 247,686 |
| **Defnydd o Ynni kWh kWhKK** | Trydan (heb fod yn adnewyddadwy) | 1,015,093 | 1,080,333 | 1,280,826 |
| | Trydan (adnewyddadwy) | 0 | 0 | 79,450 |
| | Nwy | 1,003,908 | 1,032,823 | 965,688 |
| | Olew Nwy | 0 | 0 | 64,800 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Gwariant – ynni | 268,813 | 251,458 | 253,118 |

| Adnoddau y mae pen draw iddynt | Dŵr | 2024/25* | 2023/24* | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Heb fod yn ariannol (M3)** | Cyflenwyd | 18,856 | 15,046 | 13,514 |
| | Tynnwyd | 1,295 | 1,318 | 1,981 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Costau cyflenwi dŵr | 51,283 | 52,259 | 40,221 |

| Teithio | Disgrifiad | 2024/25* | 2023/24* | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **$CO_2$** | Rheilffordd | 3,342 | 3,185 | 2,235 |
| | Awyr | 5,550 | 2,306 | 8,304 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 170 | 238 | 123 |
| | Defnydd o Gar Personol | 12,584 | 10,640 | 12,575 |
| | **Cyfanswm** | **21,646** | **16,369** | **23,237** |

| Teithio | Disgrifiad | 2024/25* | 2023/24* | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | Rheilffordd | 24,790 | 22,050 | 15,004 |
| | Awyr | 3,205 | 1,447 | 3,488 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 1,321 | 1,020 | 568 |
| | Defnydd o Gar Personol | 22,468 | 18,829 | 21,735 |
| | **Cyfanswm** | **51,784** | **43,346** | **40,795** |
| **Milltiroedd** | Rheilffordd | 59,503 | 56,721 | 39,361 |
| | Awyr | 13,523 | 5,457 | 30,881 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 722 | 1,007 | 641 |
| | Defnydd o Gar Personol | 49,619 | 41,525 | 47,702 |
| | **Cyfanswm** | **123,367** | **104,710** | **118,585** |

*Data Plas Menai heb eu cynnwys yn dilyn cytundeb partneriaeth gyda Parkwood sy'n rheoli'r gwaith o redeg y safle o ddydd i ddydd ers mis Chwefror 2023.

### Allyriadau $C0_2$

| Blwyddyn | Cwmpas 1 Nwy / Olew |
|---|---|
| 2024/25 | **184,840** |
| 2023/24 | **189,988** |
| 2022/23 | **191,753** |

| Blwyddyn | Cwmpas 2 Trydan |
|---|---|
| 2024/25 | **208,023** |
| 2023/24 | **221,425** |
| 2022/23 | **247,686** |

| Blwyddyn | Cwmpas 3 Teithio |
|---|---|
| 2024/25 | **21,646** |
| 2023/24 | **16,369** |
| 2022/23 | **23,237** |

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2024/25 | **414,509** |
| 2023/24 | **427,782** |
| 2022/23 | **462,676** |

### Dangosyddion Ariannol

| Blwyddyn | Cwmpas 1 Nwy / Olew |
|---|---|
| 2024/25 | **41,087** |
| 2023/24 | **40,480** |
| 2022/23 | **46,388** |

| Blwyddyn | Cwmpas 2 Trydan |
|---|---|
| 2024/25 | **227,726** |
| 2023/24 | **210,978** |
| 2022/23 | **206,730** |

| Blwyddyn | Cwmpas 3 Teithio |
|---|---|
| 2024/25 | **51,784** |
| 2023/24 | **43,346** |
| 2022/23 | **40,795** |

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2024/25 | **320,597** |
| 2023/24 | **294,804** |
| 2022/23 | **293,913** |

# Adroddiad Bioamrywiaeth

## Datblygiadau bioamrywiaeth yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Mae tîm tiroedd Chwaraeon Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr amgylcheddol o Wasanaeth Parciau Cyngor Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru i gynyddu ein bioamrywiaeth.

Mae'r tîm tiroedd wedi gosod 10 bocs nythu newydd mewn sawl lleoliad ar y safle, sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys gwenoliaid duon a chnocell y coed.

Er mwyn gwella'r ardal flodau gwyllt bresennol, bydd gwestai pryfed yn cael eu gosod yno a bydd gwelliannau eraill i'r cynefin a hygyrchedd y safle, fel pentyrrau o bren a llwybr mynediad i famaliaid bach, yn cael eu creu.

Bydd yr un cydweithredu'n rhoi hwb hefyd i rôl bwysig Chwaraeon Cymru i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth am sut gall y sector chwaraeon gefnogi byd natur a chyfrannu at fioamrywiaeth. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer ardal ger derbynfa Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru i fod yn arddangosfa o'r gwaith bioamrywiaeth gwych ar y safle ac i hysbysu'r rhai sy'n ymweld â'r ganolfan am sut gallant hwy a'u clybiau a'u sefydliadau cenedlaethol wneud newidiadau bach i gefnogi byd natur. Bydd yr ardal ymarferol hon gyda byrddau gwybodaeth i'r cyhoedd yn cysylltu hefyd â thudalen we gyda mwy o wybodaeth a chymorth.

## Cyfathrebu a Chlwb Pêl Droed Heol Clarbeston

Mae Clwb Pêl Droed Heol Clarbeston yn gwneud cyfraniad pwysig at fioamrywiaeth leol ar ôl plannu dôl o flodau gwyllt yn llwyddiannus. Cefnogwyd y prosiect gan Chwaraeon Cymru yn 2022-23 fel dull peilot ar gyfer y cynllun Grant Arbed Ynni mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl Droed Cymru. Cafwyd erthygl am y prosiect gan Chwaraeon Cymru yn 2024-25.

Mae clwb o Sir Benfro wedi creu cynefin bywyd gwyllt prysur rhwng ei gaeau pêl droed. Drwy ganiatáu i fyd natur ffynnu, mae'r dolydd yn chwarae eu rhan wrth gefnogi'r ecosystem drwy ddarparu lloches a bwyd i bryfed peillio fel gwenyn a glöynnod byw.

Rhannodd Steve Brown, Cadeirydd Clwb Pêl Droed Heol Clarbeston, y canlynol:

"Rydyn ni'n credu y gall ein clwb pêl droed ni chwarae rhan bwysig wrth helpu i addysgu a dylanwadu nid yn unig ar aelodau ein clwb ond hefyd ar y gymuned ehangach ynghylch pwysigrwydd camau gweithredu amgylcheddol cadarnhaol.

Rydyn ni eisoes wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch pryfed ac adar yn yr ardal lle mae hadau wedi'u plannu ac rydyn ni'n obeithiol ein bod ni'n gwneud cyfraniad bach ond pwysig at fioamrywiaeth leol.

Mae manteision ymarferol hefyd i ni gan ein bod yn arbed amser gwirfoddolwyr yn ogystal â chostau tanwydd strimio'r clawdd yn rheolaidd".

Aeth tîm cyfathrebu Chwaraeon Cymru ati i gynnwys bioamrywiaeth mewn dwy erthygl a chyfeirio ati mewn nifer o eitemau eraill.

## Plas Menai

Mae tîm Plas Menai yn cymryd rhan weithredol mewn profion ansawdd dŵr ar Afon Menai. Yn ogystal, cafodd Parkwood Leisure yr anrhydedd o gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Busnes y Flwyddyn yng ngwobrau Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru 2024. Er na enillodd Plas Menai y wobr, roedd yr enwebiad yn cydnabod y cyfraniadau sylweddol at addysg amgylcheddol, hyrwyddo gweithgareddau dŵr, ac ymdrechion cynaliadwyedd lleol.

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

# Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Bwrdd

Yn ystod 2024-25, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau Bwrdd canlynol:

| | Tymor | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Pwyllgor Tâl |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** Y Farwnes Tanni Grey Thompson DBE DL | 1 Gorffennaf 2022 – 30 Mehefin 2028 | - | - | Ydi |
| **Is Gadeirydd** Ian Bancroft | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | - | - | Ydi |
| Rajma Begum | 1 Medi 2022 – 30 Medi 2026 | - | Ydi | - |
| Hannah Bruce (Murphy gynt) | 1 Medi 2022 – 30 Medi 2026 | - | - | - |
| Dafydd Trystan Davies ** | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | - | - | - |
| Delyth Evans | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | Ydi | - | - |
| Rhian Gibson | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | - | Ydi | - |
| Chris Jenkins OBE*** | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | Ydi | - | - |
| Nicola Mead-Batten | 1 Medi 2022 – 30 Medi 2026 | Ydi | - | - |
| Judi Rhys MBE * | 1 Medi 2021 – 30 Medi 2025 | - | Ydi | - |
| Yr Athro Leigh Robinson | 1 Medi 2021 – 31 Awst 2024 | - | Ydi | - |
| Phil Tilley * | 1 Medi 2021 – 30 Medi 2025 | - | - | - |

| | Tymor | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Pwyllgor Tâl |
|---|---|---|---|---|
| Martin Veale JP * | 1 Medi 2021 – 30 Medi 2025 | Ydi | Ydi | Ydi |
| Nuria Zolle | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | Ydi | Ydi | - |

* Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y byddai tri aelod o'r Bwrdd (Judi Rhys MBE, Phil Tilley a Martin Veale) yn cael eu hailbenodi ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2024 i 30 Medi 2025. Ar yr un pryd, ymddiswyddodd yr Athro Leigh Robinson ar ddiwedd ei hail dymor i ddilyn cyfleoedd eraill.

** Cymerodd Dafydd Trystan Davies absenoldeb o Fwrdd Chwaraeon Cymru rhwng mis Chwefror 2024 a mis Gorffennaf 2024.

*** Ymddiswyddodd Chris Jenkins yn weithredol o 28ain Ebrill 2025

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dymor cychwynnol o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

## Datgan buddiannau

Mae holl Aelodau Bwrdd ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi cwblhau datganiad buddiannau cynhwysfawr, gan gynnwys manylion am unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2024-25.

Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24 ('Datgeliadau Partïon Cysylltiedig'), yn cael ei datgelu yn Nodyn 17 y datganiadau ariannol hyn.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data.

Hefyd mae gan Chwaraeon Cymru drefniadau diogelwch seibr priodol yn eu lle i atal mynediad heb awdurdod o bell at y data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

## Canfod a rheoli risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 130.

## Polisi talu cyflenwyr a'r perfformiad a gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2023-24: 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2024-25, talwyd 95% (2023-24: 93%) o'r trafodion o fewn yr amserlen hon.

## Offerynnau ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.12 y datganiadau ariannol.

## Tâl archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir gan Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2024-25, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol.

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan y Siarter Frenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1972 (a ddiwygiwyd ar 14 Mehefin 2017), mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y datganiadau ariannol ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net, y newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, cyflawni'r canlynol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu; a
- sicrhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae'r cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25

## Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu, risg a rheolaeth sefydliad. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

## Llywodraethu Corfforaethol

### Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y Weithrediaeth a gwaith y sefydliad yn cyflawni Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, yn ogystal â'r gyfres ehangach o sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rôl o'r natur hon. Cedwir matrics sgiliau'r Bwrdd i sicrhau bod gan y Bwrdd y cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y byddai tri aelod o'r Bwrdd (Judi Rhys MBE, Phil Tilley a Martin Veale) yn cael eu hailbenodi ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2024 i 30 Medi 2025. Ar yr un pryd, ymddiswyddodd yr Athro Leigh Robinson ar ddiwedd ei hail dymor i ddilyn cyfleoedd eraill. Hoffai Chwaraeon Cymru gofnodi ei ddiolch i'r Athro Leigh Robinson am ei gwasanaeth ymroddedig a'i chyfraniad at gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae tri phwyllgor parhaol wedi cael eu sefydlu; y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a phob un yn cael eu cadeirio gan aelod Bwrdd.  Adolygwyd cylch gorchwyl pob pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau parhaol yn y tabl isod.

| Aelod Bwrdd | Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 6) | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 4) | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 3) | Pwyllgor Tâl (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 2) |
|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, DBE, DL (Cadeirydd) | 6 / 6 | Amherthnasol | Amherthnasol | 2 / 2 |
| Ian Bancroft (Is Gadeirydd) | 6 / 6 | Amherthnasol | Amherthnasol | 2 / 2 |
| Rajma Begum | 5 / 6 | Amherthnasol | 2 / 3 | Amherthnasol |
| Hannah Bruce (Murphy gynt) | 4 / 6 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Delyth Evans | 6 / 6 | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Rhian Gibson | 6 / 6 | Amherthnasol | 1 / 1 | Amherthnasol |
| Chris Jenkins OBE | 6 / 6 | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Nicola Mead-Batten | 6 / 6 | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Judi Rhys MBE | 5 / 6 | Amherthnasol | 2 / 3 | Amherthnasol |
| Yr Athro Leigh Robinson | 3 / 3 | Amherthnasol | 3 / 3 | Amherthnasol |
| Phil Tilley | 6 / 6 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Dafydd Trystan Davies | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Martin Veale JP | 6 / 6 | 4 / 4 | 3 / 3 | 2 / 2 |
| Nuria Zolle | 6 / 6 | 4 / 4 | 1 / 1 | Amherthnasol |

| Aelod Bwrdd | Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 6) | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 4) | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 3) | Pwyllgor Tâl (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 2) |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau annibynnol** | | | | |
| Hywel Tudor (ARAC) | Amherthnasol | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Andy Butler (ARAC) *** | Amherthnasol | 1 / 3 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Ethylle Baring (EDIC) *** | Amherthnasol | Amherthnasol | 1 / 1 | Amherthnasol |
| Polly Lord (EDIC) *** | Amherthnasol | Amherthnasol | 1 / 1 | Amherthnasol |
| **Canran gyffredinol y gyfradd bresenoldeb** | **95%** | **81%** | **95%** | **100%** |

***Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Andy Butler yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Penodwyd Ethylle Baring a Polly Lord yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor EDI yn nodi bod cyfle i gyfethol aelodau ychwanegol. Nododd y Pwyllgor gyfle i benodi unigolion i ddod â safbwyntiau gwahanol i'r trefniadau craffu. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn amlinellu y gellir penodi hyd at ddau aelod annibynnol a bod yn rhaid i un fod yn ei swydd.

## Polisi chwythu'r chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnir sylw at y Polisi hwn wrth groesawu staff ac aelodau i'r sefydliad ac mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2024-25 ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, yn unol â Llawlyfr y Staff.

Ymdrinnir â chwythu'r chwiban allanol drwy ein Polisi Cwynion, sydd ar gael ar ein gwefan. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi yn benodol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau ym maes risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo.

- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd.
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol).
- Sicrhau bod y risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth ac y manylir ar gamau gweithredu priodol i liniaru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, roedd Chwaraeon Cymru yn falch o groesawu Andy Butler fel aelod annibynnol newydd o'r Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a chafwyd cyfradd bresenoldeb gyffredinol o 81% gan yr aelodau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gweithredu ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ystyriaeth reolaidd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Adolygu'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer GDPR a seibrddiogelwch.
- Ystyried y trefniadau gwrth-dwyll sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru.
- Cytuno ar y Cynllun Archwilio Mewnol.
- Adroddiadau archwilio mewnol yn cwmpasu meysydd busnes penodol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Y Cynllun Archwilio Allanol a'i gyflawni, gan gynnwys ystyried adroddiad ISA 260.
- Monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol.
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'u fformat.
- Materion cydymffurfio rheoleiddiol, gan gynnwys ystyried dyletswyddau cyhoeddus Chwaraeon Cymru.
- Adolygu treuliau aelodau'r Bwrdd.
- Adolygiad o'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.
- Adolygu unrhyw wyro oddi wrth weithdrefnau caffael safonol.
- Adolygu unrhyw gwynion rheoleiddio. (Ni chafwyd unrhyw gwynion rheoleiddio newydd yn ystod 2024-25).

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod diogelwch ffisegol data yn cael ei reoli. Yn 2024-25 ni nodwyd unrhyw faterion risg gwybodaeth, na gwendidau rheoli sylweddol, ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn dull priodol. Cefnogwyd hyn ymhellach gan yr adolygiad archwilio mewnol o Ddiogelwch TG a Llywodraethu Data, a roddodd sicrwydd rhesymol bod y mesurau rheoli wedi'u cynllunio'n addas, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Atal Twyll a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn amlinellu cynnydd y camau gweithredu allweddol sydd ar droed yn dilyn adolygiad o Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Twyll (13) a gynhaliwyd yn 2022-23.

Roedd y diweddariad yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith gan gynnwys y Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, gofynion ar gyfer datgan buddiannau, gwahanu dyletswyddau, defnyddio technoleg a meddalwedd i ganfod twyll (gan gynnwys trefniadau seibrddiogelwch), y gofrestr lletygarwch a hyfforddiant. Nododd y Pwyllgor y trefniadau sydd yn eu lle ac mae'r aelodau hefyd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd diwygiedig, a gwblhawyd yn derfynol yn 2024-25.

Mae'r Bwrdd yn derbyn crynodeb o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor a manylion materion i'w dwyn i sylw'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 134. Cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 100%.

## Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni yn erbyn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 95%.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd Cadeirydd y Pwyllgor, yr Athro Leigh Robinson, ddiwedd ei hail dymor yn Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i'r Athro Robinson am ei hymroddiad diwyro i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac am baratoi'r ffordd ar gyfer sefydlu'r Pwyllgor. Mae Nuria Zolle wedi dechrau fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor. Penododd y Pwyllgor Ethylle Baring a Polly Lord yn aelodau annibynnol hefyd, gan gyfrannu profiad amhrisiadwy at waith y Pwyllgor.

Ffocws craidd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd craffu ar gynnydd ar weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi herio datblygiadau mewn meysydd allweddol mewn ffordd adeiladol, fel dysgu o'r Ramadan Hanner Nos, adolygu cynnydd mewn perthynas â'r asesiad effaith integredig, y Fframwaith Gallu a Symud at Gynhwysiant. Croesawodd y Pwyllgor hefyd ganfyddiadau adolygiad annibynnol o broses recriwtio Chwaraeon Cymru, a ganfu dystiolaeth dda o amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harfer a'n hymrwymiad i ymgorffori hyn, yn ogystal â'r camau gweithredu a roddwyd ar waith mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru.

## Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt. Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes, y Cyfarwyddwr Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Systemau Chwaraeon.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried materion o natur weithredol ac yn fisol i ystyried materion o bwysigrwydd strategol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cynnal mewn dull hybrid. Gofynnwyd yn rheolaidd i aelodau'r Bwrdd am eu barn am sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn ac ymgorfforwyd newidiadau ymarferol i alluogi cynnal y cyfarfodydd yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd fel rhan o Atodlen Busnes y Bwrdd.

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar draws y meysydd canlynol:

- Sefydlu Bwrdd
- Datblygu Bwrdd
- Swyddogaethau a Chyfrifoldebau
- Gweithredu Bwrdd
- Gwerthuso Bwrdd

Cafodd yr adolygiad ei seilio ar Effeithiolrwydd y Bwrdd – Canllaw Arfer Da a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yn 2022 ac adnoddau a chyhoeddiadau perthnasol eraill. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol gyda rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi. Cafodd y gwelliannau hyn eu hymgorffori mewn Cynllun Gweithredu, a bydd y cynnydd arno'n cael ei adrodd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella yn cynnwys defnyddio matrics sgiliau'r Bwrdd i siapio'r gofyniad ar gyfer recriwtio i'r Bwrdd yn 2025, gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wella amrywiaeth y Bwrdd yn ogystal ag ystyried sut gellir llunio ymgyrchoedd recriwtio i recriwtio ymgeiswyr amrywiol yn well. Amlinellodd adborth aelodau'r Bwrdd hefyd gyfleoedd i rannu dysgu ar draws y Bwrdd drwy fentora a nododd fanteision archwilio rhai pynciau'n fanylach mewn sesiynau ffocws.

Yn ogystal, mae'r Cadeirydd wedi ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn drwy ymgymryd â'r canlynol:

- Comisiynu adolygiad o drefniadau Llywodraethu gan dîm archwilio mewnol Chwaraeon Cymru, a roddodd 'sicrwydd rhesymol' bod y mesurau rheoli wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol.
- Cwblhau matrics sgiliau cynhwysfawr ar gyfer y Bwrdd i gynorthwyo gyda datblygiad personol a chynllunio olyniaeth.
- Proses fanwl ar gyfer gwerthuso aelodau'r Bwrdd sy'n rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiad personol ac effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymddygiadau disgwyliedig aelodau'r Bwrdd.
- Diwygio ac adnewyddu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer holl bwyllgorau'r Bwrdd.

Mewn ymateb i adborth aelodau'r Bwrdd, datblygodd Tîm Gweithredol Chwaraeon Cymru raglen o sesiynau ffocws i edrych ar y meysydd allweddol yn fanylach.

Yn ystod 2024-25, canolbwyntiodd y sesiynau datblygu Bwrdd hyn ar y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a Strategaeth Chwaraeon Cymru. Bydd y rhaglen hon yn parhau yn 2025-26 a bydd yn rhoi cyfle i ystyried meysydd gwaith blaenoriaeth ac effaith.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi rhoi cefnogaeth i'r Tîm Gweithredol drwy hyrwyddo meysydd gwaith allweddol fel Iechyd a Diogelwch, Diogelu a Gwrth-Gyffuriau. Mae hyn wedi rhoi her a chyfle craffu i'r Tîm Gweithredol mewn meysydd gwaith allweddol.

Caiff penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau eu seilio ar gyngor a ddarperir gan staff Chwaraeon Cymru. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Dosberthir papurau cyn pob cyfarfod o'r bwrdd a'r pwyllgorau; dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau llafar. Roedd y Bwrdd yn fodlon yn ystod y flwyddyn gydag amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer ei ddefnydd.

Cynhaliwyd adolygiadau effeithiolrwydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod 2024-25. Nododd y ddau adolygiad fod y trefniadau'n effeithiol a nodwyd rhai mân feysydd i'w gwella.

# Rheoli Risg

## Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri Genedlaethol a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau'r Loteri Genedlaethol.

## Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ceir cofnod Dyhead Risg a Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg ac yn datgan sut dylid canfod, cofnodi, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr priodol neu aelod priodol o'r Weithrediaeth a'u rheoli ganddo, neu,

mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu'n gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw aelod o'r tîm Gweithredol a / neu reolwr priodol.

## Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau a nodir yn deillio o nodau sefydliadol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn hygyrch i holl gyflogeion Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng porthol ar-lein, gyda'r hawliau golygu wedi'u cyfyngu i reolwyr perthnasol. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn destun archwiliad mewnol blynyddol ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol.

Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Grŵp Rheoli Risg a Sicrwydd ymarfer senario hefyd i ddeall yn well a phrofi sut byddai Chwaraeon Cymru yn ymateb i risg / mater sy'n dod i'r amlwg. Rhoddodd hyn gyfle dysgu defnyddiol.

## Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir yn briodol i'w lliniaru. Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w lliniaru yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risgiau neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda gweithredu'r argymhellion. Mae'r eitemau'n cael eu trafod ac mae adborth yn cael ei roi i'r Tîm Gweithredol.

Ar ddechrau 2024-25, roedd risg sylweddol yn ymwneud â setliad cyllid gwael gan Lywodraeth Cymru wedi dod i'r amlwg, gan ddod yn fater gweithredol i'w reoli.

Yn dilyn cadarnhad y byddai cyllideb Trysorlys Chwaraeon Cymru ar gyfer 2024-25 yn cael ei thorri 10.5%, cyfarfu'r Tîm Gweithredol â'r Bwrdd i drafod ystod o gamau gweithredu posibl i reoli'r sefyllfa hon.

Fe wnaeth y mater hwn hefyd ysgogi Chwaraeon Cymru i ddatblygu Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig i hwyluso modelu senarios o amgylch setliadau cyllido yn y dyfodol, gan sicrhau bod y sefydliad mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau tymor hwy a / neu ystyried effaith newidiadau

i gyllid yn y dyfodol. Nododd adolygiad gan Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol yn Chwaraeon Cymru fod gan Chwaraeon Cymru 'ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'i fod wedi mynd i'r afael â phwysau 2024-25 mewn ffordd a liniarodd yr effaith ar bartneriaid chwaraeon yn y tymor byr. Yn ddiweddar, datblygodd gynllun ariannol tymor canolig ond byddai ehangu hwn i gwmpasu ffactorau ehangach yn cefnogi penderfyniadau yn y dyfodol.'

Newidiodd natur y risg yn Chwaraeon Cymru yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn setliad cyllidebol cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, mae'r risg sy'n ymwneud â setliadau cyllido wedi lleihau i risg lefel ganolig. Mae hyn yn cydnabod bod ansicrwydd economaidd parhaus. Mae risgiau eraill, fel effaith costau byw, wedi'u harchifo yn dilyn tueddiadau ar i lawr mewn chwyddiant.

Mae cynaliadwyedd ariannol parhaus / gwydnwch partneriaid yn parhau i fod yn risg ganolig. Mae camau lliniaru sylweddol ar droed wrth i Chwaraeon Cymru weithio i gefnogi'r sector gyda chynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys nodi effeithlonrwydd posibl a modelau gweithredu amgen. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2025-26.

Nodwyd hefyd bod seibrddiogelwch yn risg lefel ganolig. Cymerodd Chwaraeon Cymru gamau sylweddol o ran seibrddiogelwch yn ystod 2024-25, gan arwain at gyflawni'r ardystiad Hanfodion Seibr a Mwy.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd ddoeth a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i leihau a rheoli'r risgiau hyn ar lefel briodol. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gyflymach yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, mae'n edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol adolygiad ymgynghorol o drefniadau rheoli risg yn ystod 2024-25 gyda meysydd i'w gwella o ran adrodd a sicrwydd wedi'u nodi.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw gamau gweithredu a gafodd eu dosbarthu fel blaenoriaeth "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 18 o argymhellion ac, o blith y rhain, cafodd 11 eu dosbarthu fel "blaenoriaeth ganolig" a'r 7 yn weddill eu dosbarthu fel "blaenoriaeth isel", ynghyd â 7 pwynt datblygu o'r adroddiad cynghori perthnasol i Reoli Risg.

Nododd yr adolygiad dilynol a gynhaliwyd gan yr Archwilwyr Mewnol fod 'cynnydd da' wedi'i wneud ar weithredu 7 o'r 8 cam gweithredu y cytunwyd arnynt.

Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol.

## Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau.

Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Caiff y prosesau dyfarnu a monitro grantiau eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol. Hefyd mae archwilwyr allanol yn archwilio ein gweithgareddau dyfarnu grantiau o dan y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol bob blwyddyn.

## Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol.

Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2024-25 gan RSM, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus a'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o'r archwilio mewnol, fel sail i farn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## Datblygiadau Parhaus

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gadarn, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, ac fel rhan o'n hethos o welliant parhaus, rydym yn adolygu'r meysydd rydym yn credu y gallem eu gwella ac yn cymryd camau i greu newid.

Bydd y meysydd ffocws ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

- Gwella trefniadau seibrddiogelwch ymhellach, gan gynnwys camau gweithredu i gyflawni achrediad IASME Lefel 2.
- Ymarferion efelychu Parhad Busnes i brofi ymateb y sefydliad i darfu allweddol ar fusnes.

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

# Adroddiad tâl a staff

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac sy'n anelu at sicrhau cadw a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gyda'n Hundeb Llafur cydnabyddedig, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi fel rhan o'r broses hon. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 2 ac rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned.

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw gyda chyflog cychwynnol o £12.64 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl o 5% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn i helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw.

Roedd trosiant y staff ar gyfer 2024/25 yn 8.38% (9.38% yn 2023/24 a 34.96% yn 2022/23). Cafwyd un diswyddiad yn ystod y flwyddyn.

## Data absenoldeb salwch

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2024/25 (2023/24) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 1004.65 (828.00) | 150.05 (145.85) | 6.69 (5.68) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2024/25 yw 3.16%. Mae hwn yn gynnydd bychan ar gyfradd 2023/24 o 2.47% ond yn parhau'n sylweddol is na'r gyfradd a adroddwyd gan yr ONS o 3.6% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

O blith y 3.16%, cafodd 2.17% eu dosbarthu fel tymor hir a 0.99% fel tymor byr.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i iechyd meddwl a lles ei gyflogeion ac wedi cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gweithlu yn y cyswllt hwn.

## Cynllun pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd

cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Yn unol â rheoliadau LGPS, caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn.

Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.7 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

## Polisi tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogeion Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch gorchwyl cyflog Llywodraeth Cymru.

Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Swyddog Gweithredol gan y Pwyllgor Tâl, ac yn yr un modd rhaid i unrhyw gynnydd mewn tâl i staff gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Contractau gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract am gyfnod o dair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio tua deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tua tridiau y mis.

## Cyfnod rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o ddeuddeg wythnos o derfynu'r contract.

## Amser cyfleuster undeb llafur

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

# Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

## Tâl

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £119,000 (2023/24 £115,000). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys i gael taliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## Manteision mewn Nwyddau neu Gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## Hawliadau Cyflog a Phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am dâl a llog pensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 139. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Costau Staff (yn amodol ar archwiliad)

| Disgrifiad | 2024/25 £m | 2023/24 £m |
|---|---|---|
| **Parhaol:** | | |
| Cyflogau a thâl | 6,636 | 6,373 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 695 | 667 |
| Costau Pensiwn eraill | 971 | 1,528 |
| Staff ar secondiad | (8) | - |
| | 8,294 | 8,568 |
| Staff Asiantaeth | 43 | 42 |
| | 8,337 | 8,610 |
| Addasiadau IAS19 | (80) | (610) |
| | 8,257 | 8,000 |
| Llai: Dyraniad i SPORTLOT | (3,290) | (3,210) |
| | 4,967 | 4,790 |

## Tâl (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri 2024/25 (2023/24) | Cyflog £000 2024/25 (2023/24) | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf 2024/25 (2023/24) | Cyfanswm £000 2024/25 (2023/24) |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL | Cadeirydd | 50% (50%) | 35 - 40 (35-40) | - - | 35 - 40 (35-40) |
| Mr Ian Bancroft[1] | Is Gadeirydd | 50% (50%) | 10 - 15 (5 - 10) | - - | 10 - 15 (5 - 10) |
| Mr Brian Davies OBE | Prif Swyddog Gweithredol | 25% (25%) | 115 - 120 (110 - 115) | 38,000 (35,000) | 155 - 160 (145 - 150) |
| Ms Emma Wilkins | Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes | 25% (25%) | 80 - 85 (75 - 80) | 26,000 (30,000) | 105 - 110 (110 - 115) |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 25% (25%) | 90 - 95 (85 - 90) | 40,000 (53,000) | 130 - 135 (140 - 145) |
| Mr Craig Nowell | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | 0% (0%) | 70 - 75 (65 - 70) | 27,000 (64,000) | 95 - 100 (130 - 135) |
| Mr Owen Lewis | Cyfarwyddwr – Strategaeth a Gwasanaethau Systemau Chwaraeon | 75% (100%) | 80 - 85 (75 - 80) | 36,000 (52,000) | 115 - 120 (125 - 130) |
| Ms Judi Rhys MBE | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Yr Athro Leigh Robinson[2] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 0 - 5 (5 - 10) | - - | 0 - 5 (5 - 10) |

[1] Is Gadeirydd o 1af Hydref 2023
[2] Tymor wedi dod i ben ar 31 Awst 2024

| Enw | Teitl | **%<br>a Neilltuwyd i'r Loteri**<br>2024/25<br>(2023/24) | **Cyflog £000**<br>2024/25<br>(2023/24) | **Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf**<br>2024/25<br>(2023/24) | **Cyfanswm £000**<br>2024/25<br>(2023/24) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr Phil Tilley | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Mr Martin Veale JP | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Ms Rajma Begum | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Mr Dafydd T Davies[3] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 0 - 5<br>(5 - 10) | -<br>- | 0 - 5<br>(5 - 10) |
| Ms Delyth Evans | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Ms Nicola Mead-Batten | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Ms Hannah Bruce | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Ms Rhian Gibson[4] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Mr Chris Jenkins[5] OBE | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Ms Nuria Zolle[6] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |

[3] Sabothol / tâl sero wedi dod i ben ar 8fed Gorffennaf 2024
[4] Penodwyd 1af Hydref 2023
[5] Penodwyd 1af Hydref 2023
[6] Penodwyd 1af Hydref 2023

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd / gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

## Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer 2024/25 £000 | Cyfanswm y Pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar 31 Mawrth 2025 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £000 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) CETV yn ystod y Flwyddyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mr Brian Davies OBE** Prif Swyddog Gweithredol | 2.5 – 5.0 (0.0 – 2.5) | 40 – 45 (25 – 30) | 771 | 693 | 65 |
| **Mr Graham Williams** Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 2.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 45 – 50 (50 – 55) | 900 | 824 | 67 |
| **Ms Emma Wilkins** Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 10 – 15 (0 – 5) | 148 | 123 | 19 |

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer 2024/25 £000 | Cyfanswm y Pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar 31 Mawrth 2025 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £000 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) CETV yn ystod y Flwyddyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mr Craig Nowell** Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 25 – 30 (10 – 15) | 380 | 344 | 30 |
| **Mr Owen Lewis** Cyfarwyddwr - Strategaeth a Gwasanaethau'r Systemau Chwaraeon | 2.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 25 – 30 (15 – 20) | 441 | 394 | 40 |

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir CETVs oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## McCloud

Mae'r Rhwymedi Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro ac, yn unol â rheolau'r cynllun hwnnw, nid oes raid i aelodau gael eu rholio'n ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer cyfnod y rhwymedi.

Yn LGPS, mae rhwymedi McCloud yn cynnwys cymhwyso sail a phrofir buddion aelodau cymwys pan fyddant yn dewis ymddeol. Ar y pwynt hwn, bydd y cynllun yn cymharu'r pensiwn cyfartalog gyrfa a gronnwyd yn y cyfnod rhwymedi gyda'r pensiwn a fyddai wedi'i gronni yn y cynllun cyflog terfynol. Os yw'r pensiwn cyflog terfynol yn uwch, bydd y gwahaniaeth yn cael ei ychwanegu at y pensiwn a delir.

Nid yw'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ystyried yr effaith. Gall y gwerthoedd CETV terfynol a'r pensiynau a delir ar ymddeoliad fod yn wahanol yn dibynnu a oes angen y sail ai peidio, ond mae ffactorau eraill i'w hystyried, fel oedran ymddeol gwirioneddol.

## Staff (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

| | 2024/25 Nifer | 2023/24 Nifer |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 150.05 | 145.85 |

Yn ogystal â chyflogeion parhaol, defnyddiwyd 18 o staff asiantaeth yn ystod y flwyddyn (2023/24; 37 asiantaeth).

Mae cyfansoddiad staff cyfredol y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a  25% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 43% yn wryw a 57% yn fenyw.

## Polisi treth ar gyfer pobl a benodir oddi ar y gofrestr

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 8 trefniant a oedd wedi bodoli (2023/24, 8 trefniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

## Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad)

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau 2024/25 | Nifer y diswyddiadau 2023/24 |
|---|---|---|
| < £10,000 | 0 | 0 |
| £10,000 - £25,000 | 0 | 1 |
| £25,000 - £50,000 | 0 | 0 |
| £50,000 - £100,000 | 1 | 0 |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | 1 | 1 |
| Cyfanswm costau adnoddau (£) | 52 | 21 |

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru.

## Datgeliadau Cyflog Teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.

| Cymhareb Tâl Canradd | 2024/25 Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000 | 2024/25 Cyflogai £000 | 2024/25 Cymhareb | 2023/24 Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000 | 2023/24 Cyflogai £000 | 2023/24 Cymhareb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25ain | 117.5 | 29.3 | 4.0 | 112.5 | 28.7 | 3.9 |
| Canolrifol | 117.5 | 42.9 | 2.7 | 112.5 | 38.2 | 2.9 |
| 75ain | 117.5 | 48.8 | 2.4 | 112.5 | 45.5 | 2.5 |

Nid yw cyflogeion yn derbyn buddion mewn nwyddau na thâl perfformiad.

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres a staff asiantaeth sydd wedi cael eu defnyddio.
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon Dosbarthu'r Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £24,420 i £118,774 (2023/24 amrywiodd y tâl o £23,258 i £113,118).

Mae modd priodoli'r symudiad bychan yn y gymhareb ganolrifol 25ain i gynnydd yn y tegwch cyflog i'r graddau isaf. Mae'r gostyngiad bach yn y gymhareb ganolrifol 50fed oherwydd gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth.. Mae'r gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â'r polisïau tâl a dyfarnu ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf oedd 5%. Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd oedd 5%.

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo sylfaenol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol, ym mhob cyswllt sylfaenol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo rhyngwladol y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail cyfrifo busnes gweithredol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol wrth ragweld y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol, yr adroddiad tâl a staff na a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan yn sylfaenol fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd wedi cael ei harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nid yw rhai datgeliadau am dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifo priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol
- mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifo'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
  - y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid o ran canfod anghysondebau, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a weithredir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
16 October 2025

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

## Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| Disgrifiad | Nodyn | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant Grant | 5 | 25,530 | 23,772 |
| Costau Staff | 6 | 4,967 | 4,790 |
| Gwariant Arall | 7 | 4,992 | 4,780 |
| Dibrisiant | 9(b) | 606 | 662 |
| Dibrisiant ROU | 10 | 5 | 5 |
| | | 36,100 | 34,009 |
| Income | | | |
| Incwm o Weithgareddau | 3 | (2,041) | (1,837) |
| Incwm Arall | 3 | (313) | (72) |
| | | (2,354) | (1,909) |
| | | | |
| **Gwariant Net** | | 33,746 | 32,100 |
| | | | |
| (Enillion) / Cost Cyllid Pensiwn | | (14) | 37 |
| (Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer | 8 | (3) | (3) |
| Llog Derbyniadwy | | (39) | (45) |
| | | (56) | (11) |
| | | | |
| **Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant** | | 33,690 | 32,089 |
| | | | |
| Trethiant Taladwy | | 7 | 9 |
| **Gwariant Net ar ôl Trethiant** | | 33,697 | 32,098 |
| | | | |
| **Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Colled net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9b | 1,433 | 355 |
| Colled / enillion actwaraidd ar bensiwn | 18 | 72 | (664) |
| Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben | | 35,202 | 31,789 |

### Gweithrediadau sy'n parhau

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol na dod ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £33,697,000 (2023/2024 £32,098,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 156 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2025

| Disgrifiad | Nodyn | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(a) | 747 | 520 |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 747 | 520 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 5,186 | 5,733 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 475 | 242 |
| | | 5,661 | 5,975 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 6,408 | 6,495 |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (547) | (1,114) |
| Croniadau grant | 13 | (8) | (4) |
| Darpariaethau | 19 | (261) | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | (816) | (1,118) |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | 5,592 | 5,377 |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 12 | - | - |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (450) | (450) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | | (450) | (450) |
| **Asedau llai atebolrwydd** | | 5,142 | 4,927 |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 5,592 | 5,377 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (450) | (450) |
| | | 5,142 | 4,927 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 156 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 19eg Medi 2025 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

## Datganiad Cyfnerthedig o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2025

| Disgrifiad | Nodyn | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(b) | 19,566 | 20,033 |
| Ased Prydles Hawl i Ddefnydd | 10 | 1,859 | 1,871 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 21,425 | 21,904 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 5,186 | 5,733 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 15 | 479 | 246 |
| | | 5,665 | 5,979 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 27,090 | 27,883 |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (552) | (1,119) |
| Croniadau grant | 13 | (8) | (4) |
| Darpariaethau | 19 | (261) | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | (821) | (1,123) |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | 26,269 | 26,760 |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 12 | (83) | (89) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (450) | (450) |
| **Cyfanswm atebolrwydd anghyfredol** | | (533) | (539) |
| **Asedau llai atebolrwydd** | | 25,736 | 26,221 |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 23,699 | 22,296 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (450) | (450) |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 2,487 | 4,375 |
| | | 25,736 | 26,221 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 19eg Medi 2025 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**Swyddog Cyfrifo:**

**B Davies**
19 Medi 2025

## Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| Disgrifiad | Nodyn | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl trethiant | | (33,697) | (32,098) |
| (Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | (3) | (3) |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | 9(b) | 606 | 662 |
| Dibrisiant ased Hawl i Ddefnydd | 10 | 5 | 5 |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 552 | (2,716) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn elfennau taladwy masnach* | 12 | (573) | 473 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn croniadau grant | 13 | 4 | (23) |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | (39) | (45) |
| Llog ROU | 10 | 1 | 1 |
| Atebolrwydd Prydles Cyfalaf | 10 | (6) | (6) |
| Costau pensiwn | 18 | (72) | (409) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaeth | 19 | 261 | (20) |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | (32,961) | (34,179) |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer* | 9(b) | (1,580) | (697) |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | 11 | 25 |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | 39 | 45 |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | (1,530) | (627) |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru | 4 | 34,724 | 34,508 |
| (Gostyngiad) / cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 233 | (298) |
| | | | |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 15 | 246 | 544 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 15 | 479 | 246 |
| | | 233 | (298) |
| * addaswyd ar gyfer croniadau cyfalaf 2023/24 | | | |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 156 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| Disgrifiad | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2024** | 4,375 | 22,296 | (450) | 26,221 |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (33,697) | - | (33,697) |
| Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd | (7) | - | - | (7) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 34,724 | - | 34,724 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | (1,433) | - | - | (1,433) |
| Costau pensiwn | - | (72) | 72 | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (448) | 448 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | (72) | (72) |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2025** | 2,487 | 23,699 | (450) | 25,736 |

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfnerthedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2025 oedd £5,142,000, (31 Mawrth 2024 £4,927,000) gyda £18,823,000 (2023/24 £19,517,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 156 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2023** | 5,206 | 19,841 | (1,523) | 23,524 |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (32,098) | - | (32,098) |
| Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd | (22) | - | - | (22) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 34,508 | - | 34,508 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | (355) | - | - | (355) |
| Costau pensiwn | - | (409) | 409 | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (454) | 454 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | 664 | 664 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2024** | 4,375 | 22,296 | (450) | 26,221 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 156 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2024/25 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo yn y FReM yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2019.

### 1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio tir ac adeiladau.

### 1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu sy'n codi.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

### 1.3 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn.

Mae offer a cherbydau'n gynwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

| Disgrifiad | Years |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadaeth | 35 mlynedd |
| Eiddo prydles | 35 i 50 mlynedd |
| Offer - cyfrifiaduron | 3 blynedd |
| Offer - arall | 3 i 10 mlynedd |
| Cerbydau | 5 mlynedd |

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 Prydlesau

Ar gyfer unrhyw gontractau newydd yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, mae Chwaraeon Cymru yn ystyried a yw contract yn, neu'n cynnwys, prydles. Diffinnir prydles fel 'contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth'. I gymhwyso'r diffiniad hwn mae Chwaraeon Cymru yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri maen prawf allweddol:

- Mae'r contract yn cynnwys ased a nodwyd, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg pan wneir yr ased ar gael i Chwaraeon Cymru;
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gael yr holl fuddion economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased a nodwyd drwy gydol y cyfnod defnyddio, gan ystyried ei hawliau o fewn cwmpas penodol y contract; a
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodwyd trwy gydol y cyfnod defnydd.

#### Mesur a chydnabod

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod ased hawl i ddefnydd ac atebolrwydd prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar gost, sy'n cynnwys y mesur cychwynnol o atebolrwydd y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol i Chwaraeon Cymru, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed ymlaen llaw cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae Chwaraeon Cymru yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles hyd at y cynharaf o ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer gwall pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Lle mae'r rhent yn cael ei ystyried yn rhent rhad, mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur yn ôl ei werth presennol o ran defnydd presennol neu werth teg.

Mae gwerth presennol y defnydd presennol yn cael ei gyfrifo drwy gyfalafu gwerth rhent cyfredol y farchnad y gellid ei gyflawni ar gyfer defnydd presennol yr ased hawl i ddefnydd dros weddill tymor y brydles. Mae Chwaraeon Cymru yn cael prisiad arbenigol trydydd parti ar gyfer yr holl brydlesau rhad.

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn mesur atebolrwydd y brydes ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, gyda gostyngiad gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynnyddrannol Trysorlys EM.

Mae'r taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur atebolrwydd y brydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys mewn sylwedd sefydlog), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n rhesymol sicr i gael eu hymarfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sylwedd sefydlog. Pan fydd atebolrwydd y brydles yn cael ei ailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd, neu'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, os yw'r ased hawl i ddefnydd wedi'i ostwng i sero eisoes.

Ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi cael eu dangos ar wahân ac mae atebolrwydd prydles wedi'i gyflwyno mewn symiau Masnach a symiau taladwy eraill.

### 1.6 Pensiynau

Daw'r cyfraniadau at gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru o'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan actwari'r Cynllun. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw atebolrwydd pensiwn neu asedau rhwng Chwaraeon Cymru a Chyfrif Dosbarthu'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ar waith.

### 1.7 Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 19% (19% 2023/24) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

### 1.8 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cydnabyddir cynigion grant fel gwariant, ac os na chânt eu talu, fel atebolrwydd os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli. Er mwyn i rwymedigaeth adeiladol fodoli, rhaid cyfathrebu ymrwymiad y dyfarniad yn uniongyrchol i dderbynnydd y dyfarniad ac mae'n rhaid i'r cyllid cymorth grant priodol i fodloni'r ymrwymiad fod wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli ond amodau grant yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r grantiau'n cael eu datgelu fel atebolrwydd wrth gefn.

### 1.9 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifon ac Adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau 2019. Mae hyn yn cymhwyso Safon Adrodd Ariannol 102 sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2024/25 ('y FREM'), mae'r polisïau cyfrifo wedi cael eu halinio ar ôl eu cyfuno. Y prif reswm dros yr addasiad yw gweithredu IFRS 16 (Prydlesau) o fewn y FREM.

Mae hyn wedi arwain at yr addasiadau canlynol:

| Disgrifiad | Mantolen Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru £000 | Alinio polisïau cyfrifo £000 | Sefyllfa wedi'i haddasu cyn cyfuno £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 18,819 | - | 18,819 |
| Ased prydles hawl i ddefnydd | - | 1,859 | 1,859 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | **18,819** | **1,859** | **20,678** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | - | - | - |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 4 | - | 4 |
| | | | |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **4** | **-** | **4** |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | - | 5 | 5 |
| Croniadau grant | - | - | - |
| Darpariaethau | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | **-** | **5** | **5** |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | **18,823** | **1,854** | **20,677** |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | - | 83 | 83 |
| Atebolrwydd Pensiwn | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | **-** | **83** | **83** |
| **Asedau llai atebolrwydd** | **18,823** | **1,771** | **20,594** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 18,103 | 4 | 18,107 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | - | - | - |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 720 | 1,767 | 2,487 |
| | **18,823** | **1,771** | **20,594** |

Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad yw wedi'i gyfuno â'r cyfrifon hyn.

### 1.10 Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

**Nodyn 6 –** Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas Dosbarthu'r Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

**Nodyn 9(b) –** Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

**Nodyn 10 –** Mae cymhwyso IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n effeithio ar y prisiad o atebolrwydd prydles a gwerth asedau hawl i ddefnydd, gan gynnwys pennu a yw'r contract yn dod o fewn cwmpas IFRS 16 ac ystyried y gyfradd llog a ddefnyddir ar gyfer gostyngiad i lifau arian yn y dyfodol.

Mae cyfnod y brydles a bennir gan Chwaraeon Cymru yn cynnwys cyfnod y contractau prydles na ellir ei ganslo. O ystyried natur y prydlesau a sut maent yn gysylltiedig â'r busnes, lle mae cymal terfynu ar gael i Chwaraeon Cymru, daethpwyd i'r casgliad na fyddai hyn yn cael ei ymarfer.

Mae gwerth presennol y taliadau prydles sy'n berthnasol i bortffolio Chwaraeon Cymru wedi cael ei bennu gan ddefnyddio cyfradd fenthyca Trysorlys EM i ostyngiad.

**Nodyn 13 –** Cyfrifir croniadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.9.

**Nodyn 18 –** Mae'r mesur o gyfraniadau budd pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

### 1.11 Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu nwyddau ac eitemau gwasanaeth yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

### 1.12 Nam

Adolygir gwerth cludo asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

### 1.13 Darpariaethau

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a / neu'r dyddiad pryd bydd yn codi. Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

### 1.14 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd

Nid oes unrhyw safonau cyfrifo wedi'u cyhoeddi o'r newydd wedi cael eu gweithredu yn ystod 2024/25.

### 1.15 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd Heb Fod yn Weithredol Eto

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig drwy eu mabwysiadu gan y FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.


IFRS 17 yw'r safon gyfrifo newydd ar gyfer contractau yswiriant. Disodlodd IFRS 4 ar gyfer y cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023.

Bydd yn cael ei defnyddio gan Drysorlys EM yn y FreM o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Gan nad oes gan y cyfrifon hyn unrhyw rwymedigaethau contract yswiriant, nid oes unrhyw effaith ar y cyfrifon.


## 2. Dadansoddiad o'r gwariant net cynhwysfawr

Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac i asesu ei berfformiad.

| Disgrifiad | Nodyn | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Y Canolfannau Cenedlaethol** | | | |
| Refeniw | 3 | (2,038) | (1,834) |
| Gwariant Arall | 7 | 1,477 | 1,366 |
| (Cyfraniad) / Colled Gweithredu Net | | (561) | (468) |
| | | | |
| **Grantiau** | | | |
| Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon | 3 | (3) | (3) |
| Gwariant Grant | 5 | 25,530 | 23,772 |
| Cost Gweithredu Net | | 25,527 | 23,769 |
| | | | |
| **Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol** | | | |
| Incwm Arall | 3 | (313) | (72) |
| Llog Derbyniadwy | 7 | (39) | (45) |
| Gwariant Arall | | 3,515 | 3,414 |
| Cost Gweithredu Net | | 3,163 | 3,297 |
| | | | |
| Costau Staff | 6 | 4,967 | 4,790 |
| | | | |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr cyn Costau Eraill** | | 33,096 | 31,388 |
| | | | |
| **Costau Eraill** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau | | 2,106 | 401 |
| Cost Gweithredu Net | | 2,106 | 401 |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr** | | 35,202 | 31,789 |




*** yn cynnwys staff perthnasol**



## 3. Incwm

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| **Disgrifiad** | | |
| Grantiau Datblygu Chwaraeon: | | |
| Arall | 3 | 3 |
| | 3 | 3 |
| | | |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol: | | |
| Arlwyo | 418 | 404 |
| Defnydd Cyrff Rheoli o Gyfleusterau | 569 | 510 |
| Defnydd Cyffredinol o Gyfleusterau | 292 | 282 |
| Llety | 444 | 415 |
| Aelodaeth Canolfan Ffitrwydd | 292 | 200 |
| Archebion Cyrsiau | 23 | 23 |
| | 2,038 | 1,834 |
| | | |
| | 2,041 | 1,837 |
| | | |
| **Incwm gweithredu arall:** | | |
| Adfer grantiau | 223 | - |
| Incwm arall* | 90 | 72 |
| | 313 | 72 |
| Cyfanswm yr Incwm | 2,354 | 1,909 |
| *Cyllid Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru | | |

## 4. Grantiau a dderbynnir gan y llywodraeth

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf | 8,734 | 10,071 |
| Cyllid Refeniw - Pwysau Iach Cymru Iach Hamdden Actif 60+ | 500 | 500 |
| Cyllid Refeniw a Chyfalaf Mewnol | 25,390 | 23,832 |
| Cyllid Refeniw – Plant a Theuluoedd | 100 | 100 |
| Cyllid Refeniw - Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru * | - | 5 |
| Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol | 34,724 | 34,508 |
| *Cyllid Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru wedi'i ddangos fel 'Incwm Arall' 2023/24 | | |

## 5. Gwariant grant

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff Rheoli / Partneriaid Allanol | 12,591 | 12,797 |
| Awdurdodau Lleol | 12,939 | 10,975 |
| | 25,530 | 23,772 |
| Mae'r ffigur uchod yn cynnwys £887,341 o wariant uniongyrchol ar ran derbynyddion grantiau. (£1,048,232 yn 2023/24). | | |

## 6. Costau staff

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| **Parhaol:** | | |
| Cyflogau a thâl | 6,636 | 6,373 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 695 | 667 |
| Costau pensiwn eraill | 971 | 1,528 |
| Staff ar secondiad | (8) | - |
| | 8,294 | 8,568 |
| Staff asiantaeth | 43 | 42 |
| | 8,337 | 8,610 |
| Addasiadau IAS19 | (80) | (610) |
| | 8,257 | 8,000 |
| Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT | (3,290) | (3,210) |
| | 4,967 | 4,790 |

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol, gorffennol a setliad) gael ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2024/25, y gost oedd £710,000 (2023/24 £790,000) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y SoCNE.

Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £790,000 (2023/24 £1,400,000), felly roedd yr effaith net yn £(80,000), (2023/24 £(610,000)) i gostau staff. Gan fod cost cyfredol y gwasanaeth yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n cael ei thynnu o'r Gronfa Gyffredinol.

Cyfrifir y rhwymedigaeth net mewn perthynas â'r cynlluniau pensiynau budd pendant hyn drwy amcangyfrif faint o fudd mae cyflogeion wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol.

Gostyngir y budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerthoedd teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd sy'n codi yn y cyfnod maent yn digwydd drwy Wariant Net Cynhwysfawr Arall.

## 7. Gwariant arall

| Disgrifiad (a) | 2024/25<br>£000 | 2023/24<br>£000 |
|---|---|---|
| Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio | 29 | 29 |
| - Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth | 4 | 4 |
| **Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:** | | |
| - Aelodau | 3 | 6 |
| - Staff y Pencadlys | 18 | 16 |
| - Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 2 | 1 |
| - Datblygiad Chwaraeon | 111 | 89 |
| **Gwariant Arall:** | | |
| Gwasanaethau Cefnogi Canolog | 671 | 574 |
| Cyfathrebu a Digidol | 835 | 1,014 |
| Dirnadaeth a Pholisi | 310 | 205 |
| Llog Taladwy i Lywodraeth Cymru | 31 | 37 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 1,475 | 1,365 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 1,503 | 1,446 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus | - | (6) |
| | 4,992 | 4,780 |

Gellir dadansoddi'r gwariant hwn ymhellach fel a ganlyn:

| Disgrifiad (b) | 2024/25<br>£000 | 2023/24<br>£000 |
|---|---|---|
| Canolfannau Cenedlaethol | 1,477 | 1,366 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 1,614 | 1,535 |
| Corfforaethol | 1,901 | 1,879 |
| | 4,992 | 4,780 |

## 8. Gwaredu eiddo, peiriannau ac offer

| Disgrifiad | 2024/25<br>£000 | 2024/25<br>£000 | 2023/24<br>£000 | 2023/24<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Elw o werthu | | 11 | | 25 |
| Gwerth llyfr crynswth | 85 | | 163 | |
| Dibrisiant cronnol | (77) | | (141) | |
| Gwerth llyfr net | | 8 | | 22 |
| Gwarged ar waredu | | 3 | | 3 |

## 9. Eiddo, peiriannau ac offer

| Disgrifiad (a) Cyngor: | Offer £000 | Cerbydau £000 | TGCh £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2024 | 1,071 | 265 | 379 | 1,715 |
| Ychwanegiadau | 383 | - | 10 | 393 |
| Gwaredu | (16) | (14) | (55) | (85) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 1,438 | 251 | 334 | 2,023 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2024 | (762) | (145) | (288) | (1,195) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (77) | (39) | (42) | (158) |
| Gwaredu | 12 | 10 | 55 | 77 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | (827) | (174) | (275) | (1,276) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025 | 611 | 77 | 59 | 747 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 309 | 120 | 91 | 520 |
| | | | | |
| Cost fel ar 1 Ebrill 2023 | 1,084 | 259 | 399 | 1,742 |
| Ychwanegiadau | 68 | 28 | 36 | 132 |
| Gwaredu | (81) | (22) | (56) | (159) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 1,071 | 265 | 379 | 1,715 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2023 | (759) | (124) | (245) | (1,128) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (80) | (39) | (89) | (208) |
| Gwaredu | 77 | 18 | 46 | 141 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | (762) | (145) | (288) | (1,195) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 309 | 120 | 91 | 520 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 325 | 135 | 154 | 614 |

| Disgrifiad (b) Cyfnerthedig: | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £000 | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £000 | Offer £000 | Cerbydau £000 | TGCh £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2024 | 7,023 | 12,490 | 1,508 | 267 | 379 | 21,667 |
| Ychwanegiadau | 856 | 331 | 383 | - | 10 | 1,580 |
| Gwaredu | - | - | (16) | (14) | (55) | (85) |
| Ailbrisio | 162 | (2,043) | - | - | - | (1,881) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 8,041 | 10,778 | 1,875 | 253 | 334 | 21,281 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2024 | - | - | (1,199) | (147) | (288) | (1,634) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (225) | (223) | (77) | (39) | (42) | (606) |
| Gwaredu | - | - | 12 | 10 | 55 | 77 |
| Ailbrisio | 225 | 223 | - | - | - | 448 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | - | - | (1,264) | (176) | (275) | (1,715) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025 | 8,041 | 10,778 | 611 | 77 | 59 | 19,566 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 7,023 | 12,490 | 309 | 120 | 91 | 20,033 |
| | | | | | | |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2023 | 7,138 | 12,573 | 1,521 | 261 | 399 | 21,892 |
| Ychwanegiadau | 314 | 297 | 68 | 28 | 36 | 743 |
| Gwaredu | - | - | (81) | (22) | (56) | (159) |
| Ailbrisio | (429) | (380) | - | - | - | (809) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 7,023 | 12,490 | 1,508 | 267 | 379 | 21,667 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2023 | - | - | (1,196) | (126) | (245) | (1,567) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (196) | (258) | (80) | (39) | (89) | (662) |
| Gwaredu | - | - | 77 | 18 | 46 | 141 |
| Ailbrisio | 196 | 258 | - | - | - | 454 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | - | (1,199) | (147) | (288) | (1,634) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 7,023 | 12,490 | 309 | 120 | 91 | 20,033 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | 325 | 135 | 154 | 20,325 |

Wedi'i gynnwys yn nhir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai mae tir a brisiwyd yn £175,000 (2023/24 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisio'n annibynnol ar 31 Mawrth 2025 yn £18,819,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfëwyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio'r tir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles.

## 10. Ased hawl i ddefnydd

| Disgrifiad | Tir £000 | Adeiladau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad ar 31 Mawrth 2024 | 1,817 | 64 | 1,881 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | (7) | - | (7) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 1,810 | 64 | 1,874 |
| | | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2024 | (2) | (8) | (10) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (1) | (4) | (5) |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | (3) | (12) | (15) |
| | | | |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 1,815 | 56 | 1,871 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025 | 1,807 | 52 | 1,859 |

| Dadansoddiad Aeddfedrwydd | 2025 £000 |
|---|---|
| Llifau arian cytundebol heb ostyngiad yn ymwneud ag atebolrwydd prydles | |
| O fewn blwyddyn | 6 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 25 |
| Ar ôl pum mlynedd | 64 |
| | 95 |
| Llai ffioedd yn y dyfodol a neilltuir i gyfnodau yn y dyfodol | (7) |
| **Taliadau prydles isafswm** | 88 |
| Cynhwysir yn: | |
| Elfennau taladwy masnach cyfredol | 5 |
| Elfennau taladwy masnach anghyfredol | 83 |
| **Cyfanswm** | 88 |

| Gwerth presennol y taliadau prydles isafswm | 2025 £000 |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | 5 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 17 |
| Ar ôl pum mlynedd | 66 |
| | 88 |

| Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 2025 £000 |
|---|---|
| Dibrisiant | 5 |
| Nam | - |
| Llog ar atebolrwydd prydles | 1 |
| Treuliau cysylltiedig â phrydlesau tymor byr | - |
| | |
| **Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Lif Arian (net ar TAW anadferadwy** | |
| Cost llog | 1 |
| Ad-daliadau prif brydlesau | 5 |
| Cyfanswm llif arian | 6 |

## 11. Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill (dyledus o fewn blwyddyn)

| Disgrifiad | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Masnach Dderbyniadwy | 240 | 148 |
| SPORTLOT | 3,945 | 3,418 |
| TAW | 262 | 59 |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 498 | 230 |
| Rhagdaliad grant | 91 | 1,851 |
| Grant ad-daladwy | 150 | 27 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus | - | - |
| | 5,186 | 5,733 |

| Balansau rhyng-lywodraeth | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 4,207 | 3,478 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 241 | 350 |
| | 4,448 | 3,828 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 738 | 1,905 |
| | 5,186 | 5,733 |

## 12. Masnach daladwy ac atebolrwydd arall

| Disgrifiad | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Masnach Daladwy | 247 | 341 |
| Croniadau | 300 | 693 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 88 | 94 |
| Incwm gohiriedig | - | 80 |
| | 635 | 1,208 |

| Cyfredol: | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill | 547 | 1,114 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 5 | 5 |
| Anghyfredol: | | |
| Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill | - | - |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 83 | 89 |
| | 635 | 1,208 |

| Balansau rhyng-lywodraeth | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 7 | 49 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 90 | 96 |
| | 97 | 145 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 538 | 1,063 |
| | 635 | 1,208 |

## 13. Croniadau grant

| Disgrifiad | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Grantiau wedi cronni | 8 | 4 |

## 14. Llif arian crynswth

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi | | |
| Llog a dderbyniwyd | 39 | 45 |
| | | |
| Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol | | |
| Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer | (1,580) | (743) |
| Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 11 | 25 |
| | (1,569) | (718) |
| Llif Arian o Weithgareddau Cyllido | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4) | 34,724 | 34,508 |

## 15. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| Disgrifiad | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| Fel ar 1 Ebrill | 246 | 544 |
| Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | 233 | (298) |
| Fel ar 31 Mawrth | 479 | 246 |
| | | |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn: | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 479 | 246 |
| Fel ar 31 Mawrth | 479 | 246 |

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

| Disgrifiad | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Contractiwyd ond heb dalu | 235 | 413 |

## 17. Atebolrwydd wrth gefn

| Disgrifiad | Fel ar 31 Mawrth 2025 £000 | Fel ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Grant Wrth Gefn | - | 1,590 |

### Achos Cyfreithiol Adran 37

Ym mis Mehefin 2023 canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn buddion pendant wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn i'w hystyried yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fantais aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Lle mae newidiadau i fuddion aelodau a allai ddod o fewn cwmpas y dyfarniad, mae'r tystysgrifau actwaraidd yn cael eu ceisio. Mae'r llywodraeth ganolog wedi nodi ei bwriad i ddeddfu i gwmpasu unrhyw newidiadau posibl yr effeithir arnynt yn ôl-weithredol, ac felly nid oes unrhyw effaith ar rwymedigaethau IAS19 yn y dyfodol.

## 18. Buddiannau i gyflogeion

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar Enillion Gyrfa Cyfartalog Wedi'u Hailbrisio (CARE).

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol y Cynllun, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae ased / diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri. Ar gyfer 2024/25 mae hwn yn 72% i Gyngor Chwaraeon Cymru (2023/24 73%), a 28% i Gyfrifon Dosbarthu'r Loteri (2023/24 27%).

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £790,000 o gyfraniad pensiwn yn 2024/25 (2023/24 £1,400,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £790,000 yn cynrychioli 33.4% o dâl pensiynadwy (2023/24 £1,385,000 33.4%). Dim ond yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Hydref 2024 y gwnaed cyfraniadau cyflogwr. Yn dilyn adolygiad actwaraidd, mae Chwaraeon Cymru bellach yn cael ei gydnabod fel Corff Rhestredig ac Is-gysylltiedig o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro. Ar ddyddiad yr adolygiad, nododd yr actwariaid fod y sefyllfa warged ar gronfa Chwaraeon Cymru yn fwy na'r targed ar gyfer cyrff Rhestredig ac Is-gysylltiedig. Roedd hyn yn golygu bod angen cyfradd cyfraniad newydd o 0% tan y gwerthusiad bob tair blynedd nesaf.
- Nid oedd unrhyw gyfraniadau mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2024/25 (2023/24 £15,000).

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2023/24 ymlaen oedd 33.4%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022.

Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu dim i'r gronfa yn 2025/26 oherwydd y newid yn y statws cydnabyddedig o fewn y gronfa bensiwn. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar y gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw (£20,000) (2023/24 £50,000) gyda (£14,000) (2023/24 £37,000) yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o (£6,000) (2023/24 £13,000) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Y golled actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £100,000 (2023/24 ennill £910,000) gyda £72,000 (2023/24 ennill £664,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r gweddill o £28,000 (2023/24 ennill £246,000) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Gan weithredu darpariaethau IFRIC14, nid oes modd cydnabod yr ased pensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru ac felly mae'n Ddim (2023/24 Dim), gyda Dim (2023/24 Dim) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda balans o Ddim (2023/24 Dim) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Mae ased pensiwn gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri wedi'i addasu £450,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri gyda'r £450,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r ased pensiwn yng nghyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Prif ragdybiaethau ariannol

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 % | 31 Mawrth 2024 % | 31 Mawrth 2023 % |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Gostyngiad | 5.8 | 4.8 | 4.7 |
| Chwyddiant – CPI | 2.5 | 2.6 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau | 2.5 | 2.6 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 2.5 | 2.6 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau | 3.5 | 3.6 | 3.7 |

| Rhagdybiaethau Marwoldeb: | 31 Mawrth 2025 Blynyddoedd | 31 Mawrth 2024 Blynyddoedd | 31 Mawrth 2023 Blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| Gwryw | 21.9 | 22.1 | 22.6 |
| Benyw | 24.2 | 24.3 | 24.7 |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| Gwryw | 22.2 | 22.7 | 23.2 |
| Benyw | 25.0 | 25.3 | 25.8 |

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2025.

### Dadansoddiad o symudiadau mewn gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r gronfa | 66.25 | 64.31 |
| Gwerth presennol yr atebolrwydd | (39.37) | (45.77) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (26.88) | (18.54) |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | 0.00 | 0.00 |
| Ased / (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 0.00 | 0.00 |

### Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â chostau gweithredu

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 0.71 | 0.77 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.00 | 0.02 |
| Cost setliad | 0.00 | 0.00 |
| Cost llog | (0.02) | 0.05 |
| Treuliau wedi'u cydnabod | 0.69 | 0.84 |

### Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn gwariant cynhwysfawr arall

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Adenillion ar asedau cynllun (mwy) / llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net | 1.05 | (4.09) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau ariannol | (8.14) | (1.69) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau demograffig | (0.34) | (0.69) |
| Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | 0.08 | 0.50 |
| Colledion (enillion) addasiad oherwydd y cyfyngu ar warged | 7.45 | 6.60 |
| Colledion (enillion) addasiad oherwydd gofyniad cyllido isafswm | 0.00 | (1.54) |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0.10 | (0.91) |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 0.79 | (0.07) |

### Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth budd pendant agoriadol | 45.77 | 46.14 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 0.71 | 0.77 |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant | 2.18 | 2.14 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.30 | 0.29 |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol | (8.14) | (1.69) |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig | (0.34) | (0.69) |
| Colledion actwaraidd ar atebolrwydd – profiad | 0.08 | 0.50 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.19) | (1.71) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad) | 0.00 | 0.02 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| Rhwymedigaeth budd pendant wrth gloi | 39.37 | 45.77 |

### Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 64.31 | 57.54 |
| Incwm llog ar asedau | 3.09 | 2.70 |
| Ailfesur (colledion) / enillion ar asedau | (1.05) | 4.09 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 0.79 | 1.40 |
| Cyfraniadau gan y cyfranogwyr | 0.30 | 0.29 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.19) | (1.71) |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| Gwerth teg yr asedau wrth gloi | 66.25 | 64.31 |

### Adenillion gwirioneddol ar asedau

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 3.09 | 2.70 |
| Enillion / (colledion) actwaraidd ar asedau | (1.05) | 4.09 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | 2.04 | 6.79 |

### Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant a diffyg

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m | 31 Mawrth 2022 £m | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 66.25 | 64.31 | 57.54 | 61.70 | 54.14 | 44.37 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant | (39.37) | (45.77) | (46.14) | (71.32) | (74.63) | (58.40) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (26.88) | (18.54) | (11.40) | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | 0.00 | 0.00 | (1.47) | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwarged / (Diffyg) | 0.00 | 0.00 | (1.47) | (9.62) | (20.49) | (14.03) |

### Dadansoddiad sensitifrwydd

| Rhwymedigaeth Budd Pendant a Gyllidwyd £39.37m | +0.1% p.a | | -0.1% p.a | |
|---|---|---|---|---|
| Newid mewn Rhagdybiaethau ar Werth Presennol y rhwymedigaeth budd pendant a gyllidwyd | £m | % Cynnydd / Gostyngiad i Atebolrwydd Cyflogeion | | £m |
| Addasiad i'r gyfradd Ostyngiad | 38.74 | -1.6% | 1.7% | 40.04 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Cyflog | 39.41 | 0.1% | -0.1% | 39.33 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Pensiwn | 40.00 | 1.6% | -1.5% | 38.78 |
| | -1 flwyddyn | | +1 flwyddyn | |
| Addasiad i'r gyfradd Marwoldeb | 40.28 | 2.3% | -2.3% | 38.46 |

## 19. Darpariaethau

| Disgrifiad | Darpariaeth ar gyfer hawliad £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2024 | - | - |
| Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn | 261 | 261 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 261 | 261 |
| | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 261 | 261 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 261 | 261 |

Mae'r ddarpariaeth uchod yn cynnwys £51k ar gyfer cost straen pensiwn oherwydd diswyddiad yn 2024/25, gyda'r ddarpariaeth sy'n weddill ar gyfer costau posibl hawliad cyfreithiol yn dilyn damwain a ddigwyddodd ar safle Chwaraeon Cymru.

## 20. Trafodion parti cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd.

### Unigolion

Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylfaenol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan budd ynddynt. Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymiadau cyfredol, ymrwymiadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

| **Aelod o'r Panel** | **Corff** | **Taliad yn ystod y Flwyddyn** £000 | **Natur y cyswllt** | **Ymrwymiadau heb eu bodloni eto** £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL Cadeirydd | Youth Sport Trust | 73 | Noddwr | - |
| | Fields In Trust | 16 | Llysgennad | - |
| | Prifysgol Cymru Abertawe | 75 | Cymrawd | - |
| I Bancroft Is Gadeirydd | CBS Wrecsam | 438 | PSG | - |
| J Rhys MBE Aelod o'r Cyngor | Athletau Cymru | 486 | Aelod | - |
| P Tilley Aelod o'r Cyngor | Triathlon Cymru | 81 | Aelod | - |
| | Cymdeithas Ganŵio Cymru | 155 | Aelod | - |
| | Undeb Beicio Cymru | 974 | Aelod | - |
| M Veale YH Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Benfro | 530 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |
| | CBS Merthyr Tudful | 151 | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau | - |
| | Llywodraeth Cymru | 258 | Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | - |
| | CBS Blaenau Gwent | 567 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |
| | Cyngor Sir Fynwy | 148 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |
| | CBS Rhondda Cynon Taf | 594 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Addysg a Chynhwysiant | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| R Begum Aelod o'r Cyngor | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 5 | Cyflogai | - |
| | Llywodraeth Cymru | 258 | Aelod atebolrwydd allanol Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru | - |
| | Cymdeithas Bêl Droed Cymru | 743 | Aelod o'r Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb | - |
| D T Davies Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 258 | Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol | - |
| D Evans Aelod o'r Cyngor | Urdd Gobaith Cymru | 342 | Ymddiriedolwr | - |
| N Mead-Batten Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Bêl Droed Cymru | 743 | Cadeirydd y Corff Cyntaf ar gyfer penderfynu ar Drwyddedau Haen 1 / UEFA ar gyfer gêm y Merched | - |
| | Undeb Rygbi Cymru | 803 | Cadeirydd ad hoc Panel Person Addas a Phriodol ar gyfer aelodau'r Gymuned | - |
| N Zolle Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 258 | Penodiad Gweinidogol - Partneriaeth Cyngor a Gwybodaeth Genedlaethol | - |
| | Archwilio Cymru | - | Partner yn Rheolwr | 33 |
| C Jenkins OBE Aelod o'r Cyngor | Gemau'r Gymanwlad Cymru | 55 | PSG ac Ymddiriedolwr | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| B Davies OBE PSG | Prifysgol Abertawe | 75 | Cymrawd Anrhydeddus | - |
| | Gymnasteg Cymru | 288 | Cymar yn Hyfforddwr | - |
| | Undeb Hoci Cymru | 535 | Merch yn aelod o dîm D18 Cymru | - |
| E Wikins Cyfarwyddwr – Cyllid a Gwasanaethau Busnes | Clwb Golff Creigiau | 4 | Tad yn aelod | - |
| C Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | Clwb Pêl Droed Cymdeithas Croesyceiliog | 24 | Aelod o'r pwyllgor | - |

### Tâl yr uwch reolwyr ac aelodau'r bwrdd:

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Bwrdd fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 134 i 144.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
**THE NATIONAL LOTTERY®**